# Cyflwr Hawliau Plant yng Nghymru



**Adroddiad amgen gwlad-benodol ar sefyllfa hawliau plant fel y'u diffiniwyd o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)**

Wales UNCRC Monitoring Group

Grŵp Monitro CCUHP Cymru

## Am yr Adroddiad hwn

Dyma'r ail adroddiad a baratowyd gan Grŵp Monitro CCUHP Cymru, sef cynghrair cymdeithas sifil a hwylusir gan Plant yng Nghymru, i hysbysu Sesiwn 94 ac archwiliad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Mae ein hadroddiad, a gynhyrchwyd ar ffurf 'amgen' i adroddiadau parti gwladol y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, yn rhoi diweddariad ar y prif flaenoriaethau a nodwyd yn ein hadroddiad cyntaf, a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2020 i lywio Rhestr Materion y CU Cyn Adrodd (LOIPR), ochr yn ochr â sylwadau ar ddatblygiadau newydd sydd wedi dod i'r amlwg yn fwy diweddar.

Llywiwyd y ddau adroddiad gan alwad gynhwysfawr am dystiolaeth ysgrifenedig, digwyddiadau bord gron a dadansoddiad o ffynonellau eilaidd.

**Oherwydd cyfyngiadau penodol ar nifer y geiriau**, nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys yr holl fanylion perthnasol ynghylch yr holl faterion sy'n effeithio ar hawliau plant yng Nghymru. Fodd bynnag, mae yn darparu trosolwg o'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd gan sefydliadau cymdeithas sifil.

Gellir cyrchu copi o'r adroddiad hwn yn **www.childreninwales.org.uk**

## Datganoli: Cymru yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am weithredu CCUHP mewn llawer o feysydd polisi, fel y nodir trwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn cynnwys addysg, iechyd, gofal cymdeithasol ac amddiffyniad a llesiant plant a phobl agored i niwed, a gall Senedd Cymru basio cyfreithiau i ddod â CCUHP i rym.

Senedd y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am ddeddfu ynghylch materion heb eu datganoli, gan gynnwys cyfiawnder troseddol a ieuenctid, mewnfudo a nawdd cymdeithasol.

**Sean O'Neill, Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru**

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Prif Swyddfa: 21 Plas Windsor, Caerdydd CF10 3BY

www.childreninwales.org.uk

Elusen Gofrestredig Rhif – 1020313

Rhagfyr 2022

## Cydnabyddiaeth

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gyda chefnogaeth Grŵp Monitro CCUHP Cymru, ac fe'i cyflwynir ar ei ran. Mae'r grŵp yn cynrychioli cyrff anllywodraethol ac academyddion fel a ganlyn, a hwy sy'n enwebu iddo

Barnardo's Cymru

Plant yng Nghymru

Canolfan Gyfreithiol Plant Cymru

Comisiynydd Plant Cymru (statws sylwedydd)

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru (statws sylwedydd)

Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar

NSPCC Cymru

Arsyllfa Hawliau Dynol Plant

Chwarae Cymru

Achub y Plant

UNICEF UK

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (statws sylwedydd)

### Gwybodaeth am Grŵp Monitro CCUHP Cymru

Mae **Grŵp Monitro CCUHP Cymru** yn gynghrair genedlaethol o asiantaethau academaidd a chyrff anllywodraethol, sy'n gyfrifol am fonitro a hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yng Nghymru. Sefydlwyd Grŵp Monitro CCUHP Cymru yn 2002, ac ers mis Mai 2016 mae wedi cael ei hwyluso gan Plant yng Nghymru. Mae'r Grŵp wedi gweithio gyda Phwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn a chyflwyno adroddiadau cymdeithas sifil i lywio Archwiliadau olynol Parti Gwladol y Deyrnas Unedig yn 2002, 2008 a 2016, ac mae'n ymwneud â chyfleoedd eraill i hybu hawliau plant, trwy fecanweithiau cytuniadau eraill y CU, polisi Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru, a phrosesau deddfwriaethol.

## Cyfraniadau

Rydym yn ddiolchgar i'r sefydliadau/unigolion canlynol am ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth Ysgrifenedig (Awst-Medi 2022) a/neu ein galwad flaenorol am dystiolaeth a/neu am fynychu'r Digwyddiadau Datblygu Capasiti a Chasglu Tystiolaeth yn 2020 i lywio'n hadroddiad LOIPR.

Gweithredu dros Blant Cymru
Anthony Charles, Prifysgol Abertawe
Barnardo's Cymru
Sefydliad Bevan
Ysgol Gyfun Gellifedw
Amy Brown
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant
Plant yng Nghymru
Cymdeithas y Plant
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Tîm Integreiddio Cymunedol Cyngor Abertawe
David Dallimore
Ceri Davies (Rheolwr Parciau a Thechnegol Arbenigol)
Helen Davies (Ymarferydd Trawma Plentyndod, Ysgol Gynradd Plasmarl)
Anabledd Cymru
Grŵp Gweithredu'r Blynyddoedd Cynnar
Dileu Digartrefedd Ieuenctid Cymru
EYST Cymru
Ffydd mewn Teuluoedd
Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
Synnwyr Bwyd Cymru
Rhwydwaith Maethu Cymru
Oriel Gelf Glynn Vivian
Ysgol Gynradd Gorseinon
Grandparents Plus
Guide Dogs Cymru
Hafal
Richard Hain
Helen Hodges, CASCADE, Prifysgol Caerdydd
Homestart Cymru
Tom Jones (Swyddog Hawliau Plant a Chyfranogiad)
Rachel Lewis (Arweinydd ar Hawliau Plant, Ysgol Gyfun Gymraeg Llwynderw)
Llamau
Gary Mahoney (Cydlynydd y Blynyddoedd Cynnar)
Mind Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar
Cyfoeth Naturiol Cymru
Gwasanaeth Seicoleg Addysg Castell-nedd Port Talbot
Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot
Arch Noa - Ysbyty Plant Cymru

NSPCC Cymru
NYAS Cymru
Arsyllfa Hawliau Dynol Plant / Canolfan Gyfreithiol y Plant
Ysgol yr Olchfa
Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro
Senedd Myfyrwyr Ysgol Pentrehafod
Place2Be
Platfform
Chwarae Cymru
Ysgol Gynradd Pontybrenin
Tîm y Cyfnod Cynradd (addysg)
ProMo Cymru / MEIC
Jennifer Raynor (Gwella Addysg, Dysgu a Sgiliau)
RCPCH
RCPCH (Ieuenctid)
Prosiect Llysgenhadon Hawliau Gwasanaeth Ieuenctid y Fro
Adele Rose
Achub y Plant
The Sharing Table
Ann Sherlock
Mary Sherwood (Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi)
Katie Spendiff (Cydlynydd Hawliau Plant)
Stonewall Cymru
Amgueddfa Abertawe
Gwasanaeth Chwarae Abertawe
Gwasanaeth Taclo Tlodi (Cyngor Abertawe)
Uned Troseddau Trefnedig Rhanbarthol Tarian
Ysgol Gynradd Terrace Road
TGP Cymru
Lynnette Thacker (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe)
Partneriaeth Meddwl am y Teulu (CBSCNPT)
Cynghrair Anghenion Dysgu Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA)
Fforwm Pobl Ifanc Torfaen
UNICEF UK (GMI)
UNICEF UK (Cyfiawnder Ieuenctid)
Lleisiau o Ofal Cymru
Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru (WCVA) a Chanolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd
Dyneiddwyr Cymru
Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Germaine Walsh
Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
Ysgol Gyfun Gŵyr
Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago

**Ymwadiad:** Nid yw safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y sefydliadau/yr unigolion a restrir uchod

## 6 ARGYMHELLIAD BLAENORIAETH

Rydym yn galw ar Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn i argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r 6 blaenoriaeth canlynol *(yn ogystal â'r argymhellion manylach a geir o dan y clystyrau thematig yn ein hadroddiad)*

### 1. Ymgorffori'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (CHP) yng Nghyfraith Cymru

Cyflwyno deddfwriaeth i ymgorffori CHP yn llawn ac yn uniongyrchol yng nghyfraith Cymru, a hynny'n ddi-oed.

### 2. Nad oes unrhyw Blentyn yn Profi Tlodi

Sicrhau bod y lefel uchaf posibl o adnoddau ar gael i gyflawni blaenoriaethau brys a nodir mewn Strategaeth ddiwygiedig a Chynllun Cyflawni, gyda cherrig milltir a thargedau mesuradwy, fydd yn destun monitro cadarn a threfniadau adrodd tryloyw.

### 3. Gwneud Plant yn Flaenoriaeth

Rhoi blaenoriaeth i hawliau pob baban a phlentyn, gan gynnwys y rhai sydd o dan yr anfantais fwyaf, mewn ymateb i'r argyfwng Costau Byw a'r hyn a ddysgwyd trwy COVID-19. Cyhoeddi cynllun gweithredu cynhwysfawr ar hawliau plant, gydag adnoddau llawn, a phenodi gweinidog plant sy'n gyfrifol am gydlynu'n effeithiol weithrediad CHP ar draws Llywodraeth Cymru.

### 4. Bod Pob Plentyn yn cael eu Diogelu a'u Hamddiffyn

Gweithio ar y cyd â'r sector cyhoeddus a gwasanaethau arbenigol i roi blaenoriaeth i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol ymhlith cyfoedion ar gyfer pob plentyn, gan gynnwys ar-lein. Dylai hyn gynnwys defnyddio pob modd posibl i bwyso ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i basio Bil Diogelwch Ar-lein cryf yn ddi-oed, bil sy'n cyflawni hawl plant i fod yn ddiogel ar-lein. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i glywed lleisiau grwpiau profiad bywyd a phlant wrth ddatblygu ei gwaith ar aflonyddu rhywiol ymhlith cyfoedion. Rhaid gwneud hynny mewn modd sy'n wybodus am drawma, nad yw'n achosi niwed pellach, ac sy'n hygyrch ac yn gynhwysol o bob angen.

### 5. Iechyd Meddyliol ac Emosiynol Cadarnhaol

Sicrhau bod pob baban a phlentyn yn cael mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth, ochr yn ochr â buddsoddi mewn CAMHS i sicrhau bod plant sydd ag anghenion mwy cymhleth yn gallu cyrchu triniaeth a chefnogaeth heb restrau aros hir. Dylid ailasesu ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Cadernid Meddwl fel blaenoriaeth.

### 6. Cefnogi plant sydd â phrofiad o ofal a'r rhai sydd mewn perygl

Sicrhau bod elfen arbenigol gwasanaethau gofal – yn arbennig y rhai sy'n gweithio gyda rhieni agored i niwed cyn ac ar ôl geni – ar gael ym mhob rhan o Gymru. Ceisio ffyrdd o sicrhau cefnogaeth gyfatebol i blant sydd â phrofiad o ofal ar draws y wlad, a dylai hyn fod yn nodwedd allweddol o agenda trawsffurfio polisi plant.

## TABL O'R CYNNWYS — RHIF Y DUDALEN


AM YR ADRODDIAD HWN 2

CYDNABYDDIAETH 3

CYFRANIADAU 4

6 ARGYMHELLIAD BLAENORIAETH 6

**EIN HADRODDIAD**

**DATBLYGIADAU NEWYDD 10**

1. **Argyfwng Costau Byw 10**
2. **Effaith COVID-19 11**
3. **Effaith Gadael yr Undeb Ewropeaidd 12**
4. **Hawliau Dynol: Llithro'n ôl neu wneud Cynnydd 13**

**MESURAU GWEITHREDU CYFFREDINOL 16**

5. **Deddfwriaeth 16**
6. **Strategaeth a Pholisi Cenedlaethol 17**
7. **Asesiad Effaith ar Hawliau Plant 18**
8. **Cydlynu 19**
9. **Dyrannu Adnoddau 20**
10. **Monitro Annibynnol 20**
11. **Cynyddu Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth 21**
12. **Casglu Data 22**

**EGWYDDORION CYFFREDINOL 23**

13. **Peidio â Chamwahaniaethu 23**
14. **Parch at Farn y Plentyn 26**

**TRAIS YN ERBYN PLANT 28**

15. Triniaeth neu gosb greulon neu ddiraddiol 28
16. Cosb gorfforol 29
17. Rhyddid rhag pob math o drais 29
18. Arferion niweidiol 35

AMGYLCHEDD Y TEULU A GOFAL AMGEN 37

19. Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar 37
20. Cefnogi Teuluoedd 38
21. Plant sydd â Phrofiad o Ofal 40
22. Gofalwyr Ifanc 46

ANABLEDD, IECHYD SYLFAENOL A LLES 48

23. Plant Anabl 48
24. Anghydraddoldebau Iechyd 49
25. Iechyd Meddwl 53
26. Safon Byw 56
27. Newid yn yr Hinsawdd ac Amgylchedd Iach 60

ADDYSG, HAMDDEN A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL 61

28. Mynediad at Addysg o Safon 61
29. Addysg Gynhwysol 63
30. Bwlio mewn Ysgolion 64
31. Cyrhaeddiad Addysg 65
32. Gwaharddiadau o'r Ysgol 66
33. Chwarae a Hamdden 67

MESURAU AMDDIFFYNIAD ARBENNIG 70

34. Plant sy'n Ceisio Lloches, sy'n Ffoaduriaid ac sy'n Ymfudwyr 70
35. Cyfiawnder Ieuenctid 71
36. Plant a amddifadwyd o'u rhyddid y tu allan i'r fframwaith statudol 73
37. Plant mewn Gwrthdaro Arfog 73

# EIN HADRODDIAD

# DATBLYGIADAU NEWYDD

## Costau Byw

Mae'r argyfwng Costau Byw yn fater hawliau dynol.[1] Dylid gwneud y defnydd mwyaf posibl o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn amddiffyn plant yn well a darparu ar eu cyfer, gan gynnwys y rhai sy'n teimlo effaith hyn yn anghymesur, ac y mae eu hiechyd a'u llesiant yn cael eu peryglu'n sylweddol wrth i anghydraddoldeb gynyddu.[2]

Mae argyfwng Costau Byw y Deyrnas Unedig[3] yn gwaethygu'n barhaus, gyda chwyddiant yn cyrraedd ei lefel uchaf ers 41 o flynyddoedd ym mis Tachwedd, ac mae'n cyflymu wrth i gostau bwyd hanfodol ac ynni godi'n sydyn. Mae prisiau bwyd yn unig yn codi ar eu lefel gyflymaf ers 45 mlynedd, gan daro teuluoedd incwm isel, sydd â'r lefel isaf o amddiffyniad, galetaf, mewn modd anghymesur.[4] Mae'r holl ragolygon yn dangos y teimlir mwy o boen yn ystod misoedd y gaeaf ac ymhell i mewn i'r flwyddyn nesaf.[5]

Roedd lefelau tlodi plant yng Nghymru, sef 31%, eisoes yn uwch na holl wledydd eraill y Deyrnas Unedig cyn COVID-19 a'r argyfwng Costau Byw. Mae niferoedd cynyddol o blant bellach yn syrthio i sefyllfa heb gynhaliaeth, wrth i fwy o deuluoedd wynebu cyni ariannol a chael trafferth darparu anghenion sylfaenol o ran cysgod, goroesiad a datblygiad. Mae llawer o blant sy'n arbennig o agored i niwed yn teimlo effaith anghymesur, gan gynnwys plant anabl, plant ifanc iawn a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd.[6]

Mae'r argyfwng Costau Byw yn gwaethygu ymhellach y caledi ariannol a materol y bu teuluoedd yn ei brofi yn ystod y pandemig.[7] Gan eu bod eisoes wedi ymlâdd a'u trawmateiddio gan lefelau cynyddol o angen, mae'r argyfwng presennol yn awr yn cael ei ddisgrifio fel cyfnod clo arall i bob pwrpas i lawer o blant[8] sy'n wynebu bod yn ynysig, straen a chael eu cau allan. Mae llawer o weithwyr allweddol yn awr yn darparu bwyd a dillad i blant oer, llwglyd,[9] wrth i deuluoedd gael trafferth ymdopi â chostau cynyddol, ac yn wyneb adroddiadau am rieni'n cael eu gwthio at y dibyn.[10] Disgrifiwyd rhoi sylw i dlodi, a pherygl

[1] Just Fair (2022) Cost-of-living crisis hub
[2] Welsh NHS Confederation/Royal College of Physicians (2022) Mind the Gap: The Cost-of-living crisis and the rise in inequalities in Wales
[3] An 'emergency' is defined as 'a serious, unexpected, and often dangerous situation requiring immediate action', Oxford dictionary
[4] poorer families tend to spend a larger share of what income they have on food
[5] Resolution Foundation (2022) In at the deep end
[6] W/Parliament Research (2022) Seismic impact of the Cost-of-Living crisis on disabled people / BBC Wales (December 2022) Cost-of-Living: the stress of rising costs and a child with cancer / Between 1 April 2021 and 31 October 2022, a third of recipients of Save the Children's Early Years Grant in Wales included someone who had a disability or health problem in the family with a babies or very young children (reference below).
[7] Save the Children-Achub Y Plant (2022) From COVID-19 to Cost-of-Living: 18 months of providing early years grants to families in Wales
[8] Evidence from Barnardo's Cymru
[9] Barnardo's Quarterly Practitioner Survey is a quarterly survey of staff working in Barnardo's Children's Services across the UK. Quoted - here
[10] Nesta (2022) Cost-of-Living crisis pushing worried parents to the edge with 2 in 3 concerned about paying for essentials, September 2022

tlodi yn sgîl angen cynyddol, fel yr her unigol fwyaf mae holl haenau'r llywodraeth yn ei hwynebu.[11]

Er bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhai camau i liniaru effaith yr argyfwng[12] a'r cynnydd digynsail ym mhrisiau ynni trwy warant prisiau ynni cyffredinol a gefnogir gan gymorth grant wedi'i dargedu ar gyfer aelwydydd difreintiedig, mae'n amlwg nad yw hynny'n ddigon. Mae angen llawer mwy o frys a chefnogaeth ariannol i blant, ochr yn ochr â newid mwy hirdymor i helpu i sicrhau bod teuluoedd yn cael eu diogelu'n well rhag anwadalwch economaidd ac yn meddu ar incwm digonol i dalu am gostau byw sylfaenol[13] **er mwyn goroesi a ffynnu.**

**Argymhelliad**

- Bod rhwymedigaethau'r llywodraeth i hybu a diogelu hawliau plant yn ganolog i bob ateb a gynigir i daclo'r argyfwng Costau Byw

## Effaith COVID-19

Mae effaith COVID-19 ar fywydau plant, yn arbennig y rhai mwyaf agored i niwed, wedi bod yn ddwys a digynsail, o ganlyniad i fesurau a gymerwyd gan y llywodraeth i reoli'r risgiau i iechyd, cyfyngu cymaint â phosibl ar gyswllt a lleihau cyfraddau trosglwyddo. Profodd ysgolion, lleoliadau gofal plant, clybiau ieuenctid, gofal iechyd sylfaenol a gwasanaethau cymorth i deuluoedd fel ei gilydd gyfnodau pan oeddent ar gau ac amharu sylweddol.[14]

Yn gryno, achosodd y pandemig argyfwng iechyd cyhoeddus a sosio-economaidd, a chafodd effaith niweidiol ar wireddu hawliau plant yng Nghymru, gan waethygu anghydraddoldeb oedd eisoes yn bodoli ac amlygu pa mor fregus yw systemau, gyda goblygiadau negyddol i iechyd meddwl plant, eu llesiant a'u haddysg; gyda phlant yn wynebu trais yn y cartref a lefelau cynyddol o dlodi, trawma a thrallod yn sgîl ynysu, gwahanu a cholled.[15]

Cafwyd effaith anghymesur ar rai plant oedd â phriodweddau penodol neu mewn sefyllfaoedd arbennig, yn fwyaf amlwg teuluoedd o leiafrifoedd ethnig,[16] rhai plant agored i niwed oedd yn byw oddi cartref, plant ar aelwydydd incwm isel, plant anabl a'r plant hynny oedd yn wynebu straen ychwanegol yn sgîl cydbwyso galwadau addysg a chyfrifoldebau

---

[11] Audit Wales (2022) 'Time for Change' – Poverty in Wales: Report from the Auditor General for Wales, November 2022
[12] For example, the W/Government have set up a Cost-of-Living hub
[13] Children's Commissioner for Wales (2022) Joint letter to UK/Government's Prime Minister: Commissioners call for immediate action to protect younger and older people against 'potentially devastating' impact of the cost-of-living crisis
[14] For an overview of the impact of COVID-19 on children and young-people in Wales and recommendations for the W/Government , see Welsh Parliament Children, Young-people and Education Committee (2021) The impact of COVID-19 on children and young-people: final report. Many children's CSOs provided oral & written evidence to inform scrutiny – here – including Children in Wales response on behalf of the National Children's Charities Policy Group. See also Children's Commissioner for Wales (2020) Coronavirus and Me and WHO Collaborating Centre on Investment for Health & Well-being/Public Health Wales (2021) Placing health equity at the heart of the COVID-19 sustainable response and recovery
[15] The impact of government measures to manage risk has not been identical for all children, with school closures offering an opportunity for some children to enjoy quality time with their families; to be less exposed to peer and education pressures, and for personal growth. See for example, Centre for Population Health (2020).
[16] Public Health Wales (2020) How are we doing in Wales?: A Focus on Ethnicity

gofalu.[17] Mae'n bosibl na fydd effaith ddinistriol lawn a goblygiadau parhaol y pandemig yn hysbys am beth amser.

**Argymhellion**

- Sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i'r holl gynlluniau adferiad[18]
- Sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu'n llawn, a bod trefniadau wrth gefn yn eu lle, gydag adnoddau ar eu cyfer, i gefnogi plant trwy unrhyw amharu pellach a geir yn sgîl y pandemig hwn neu argyfyngau iechyd yn y dyfodol

## Effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE)

Bu plant yn un o'r prif grwpiau a gafodd fudd o aelodaeth yn yr UE a'i Gronfeydd Strwythurol (ESF), a Chymru sydd wedi cael y budd net mwyaf o'r rhain yn y Deyrnas Unedig. Mae prif offeryn Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gymryd lle cyllid yr UE, Cronfa Ffyniant a Rennir, yn cynnwys ymyriadau cyfyngedig iawn yng Nghymru sy'n targedu plant yn benodol.[19] Bu oedi sylweddol wrth gyflwyno'r gronfa hon, ac mae wedi creu ansicrwydd a dryswch o ran y fformiwla dosbarthu a llawer o faterion llywodraethiant,[20] yn arbennig yn achos CSOs sy'n cyflwyno prosiectau ieuenctid. Mae cryn bosibilrwydd y bydd bwlch yn y gwasanaethau a diffyg prosiectau cyfatebol sy'n targedu plant yn dod i'r amlwg. Mae Cronfeydd Strwythurol Ewrop (ESF) wedi darparu cymorth wedi'i dargedu ers meitin, a hynny ar ffurf prosiectau, cyfnodau o hyfforddiant a phrentisiaethau a gafodd eu teilwra'n benodol i gefnogi plant.[21]

Mae ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r UE wedi cael effaith ddwys ar dirlun polisi a chyfleoedd plant yng Nghymru, gan fod llawer o'r rhaglenni oedd yn darparu cyfleoedd dysgu naill ai heb ddim i gymryd eu lle, neu heb i hynny ddigwydd yn llawn. Er bod COVID-19 wedi creu oedi a deimlir yn sgîl y colledion hyn sy'n golygu bod asesu'r effaith lawn yn anodd ar hyn o bryd, bydd lefel sylweddol o golli cyfle wrth i'r Deyrnas Unedig beidio â bod yn rhan o Erasmus+ ac analluedd cynllun Turing Llywodraeth y Deyrnas Unedig, oedd i gymryd ei le, i lenwi'r bylchau ariannu,[22] gan gynnwys yn achos plant o gefndir difreintiedig. Ar yr ochr gadarnhaol, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio rhaglen gyfnewid dysgu rhyngwladol o'r enw Taith[23] mewn ymgais i lenwi'r bwlch hwn, ond ni sicrhawyd cyfatebiaeth i'r holl raglenni a ariannwyd gan yr UE oedd o fudd uniongyrchol i blant.[24]

Er i ddeddfwriaeth yr UE a rhai amddiffyniadau gael eu trosglwyddo i gyfraith y Deyrnas Unedig, nid yw Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE yn berthnasol bellach ac nid oes gan Lys

[17] For example, children trying to balance their caring roles with school work see Carers Trust Wales (2020)
[18] European Network of Ombudspersons for Children (2021) Position Statement on COVID-19; Learning for the future.
[19] UK/Government (2022) Interventions List for Wales
[20] Welsh Parliament Finance Committee (2022) Post EU Funding arrangements, October 2022
[21] For example: i. Traineeships East Wales supported 16-18 year olds at risk of becoming NEET in East Wales ii. Active Inclusion East Wales supported 16 – 24 year olds who are the furthest from the labour market iii. Communities for work provided one to one support for 16-24 year olds at risk of from the most deprived communities to help them gain employment iv. And Inspire2Achieve aimed to reduce the number of children and young-people aged 11-24 at risk of becoming NEET.
[22] The funding provided to young-people is less,. It also fails to replicate a range of opportunities like: i. the sharing of learning materials between twinned schools ii. those targeting educators iii. it also does not cover tuition fees and offers fewer and less accessible opportunities outside of higher education, with some having described the scheme as widening inequality when contrasted with Erasmus+. See for example The Turing Scheme: 'I spent 3 months in France without any funding' | Varsity
[23] W/Government (2022) Taith: International Learning Exchange Programme
[24] For example, Creative Europe provides cultural and media opportunities and has recently been seeking to increase engagement with younger audiences

Cyfiawnder Ewrop unrhyw awdurdod.[25] Mae pryderon blaenorol y gallai'r hawliau mae plant yn eu mwynhau ar hyn o bryd gael eu gwanhau neu eu dadflaenoriaethu[26] yn parhau, a chyflwynwyd Bil yn y Deyrnas Unedig[27] yn ddiweddar sy'n rhoi'r pŵer i weinidogion y Deyrnas Unedig ategu, diddymu neu ddisodli cyfraith yr UE cyn Brexit erbyn mis Rhagfyr 2023. Ni fu ymgysylltu deddfwriaethol ystyrlon gyda Llywodraeth Cymru a'r CSOs, na sicrhau eu cydsyniad,[28] ac mae'r penderfyniadau'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr hawliau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol y mae plant yng Nghymru yn eu mwynhau ar hyn o bryd.

Mae'r taliadau cynyddol ar gostau bwyd sy'n cael ei fewnforio o'r UE wedi codi biliau bwyd 6% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac amlygwyd eu bod yn taro teuluoedd tlotach yn anghymesur o galed, gan eu bod yn gwario cyfran uwch o'r incwm sydd ganddynt ar fwyd.[29]

**Argymhelliad**

- Sicrhau bod yr amddiffyniadau hawliau presennol i blant, a grisialwyd yng nghyfraith yr UE cyn Brexit, yn cael eu cadw neu eu cryfhau

## Fframweithiau Hawliau Dynol – llithro'n ôl neu wneud cynnydd

i) Lefel y Deyrnas Unedig

Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae'r tirlun polisi a'r cyfeiriad teithio wedi datblygu'n gyflym i fod yn fwy gelyniaethus i hawliau sylfaenol, ac wedi'u datgysylltu'n fwy oddi wrth ddull gweithredu seiliedig ar dystiolaeth sy'n defnyddio ymgysylltiad ystyrlon gan randdeiliaid. Mewn ysbryd mentrus wedi i'r Deyrnas Unedig adael yr UE, ac wedi'i hwyluso'n rhannol gan hynny, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ddiweddar wedi ceisio gwanhau gorfodi hawliau dynol rhyngwladol ar lefel ddomestig, ac mae'n parhau i archwilio'r posibilrwydd o dynnu allan o Gonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol, gan ddilorni ymwneud awdurdodau rhyngwladol â'i fframweithiau hawliau cartref.[30]

Yn 2021, comisiynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig adolygiad annibynnol o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (HRA) a gasglodd gorff sylweddol o dystiolaeth o'i phlaid, a chynhyrchu adroddiad ar y sail honno.[31] Er gwaethaf hynny, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ymgynghoriad i ddileu a disodli'r Ddeddf Hawliau Dynol â Bil Hawliau, a gafodd ei gondemnio'n ddiwahân gan CSOs[32] a llywodraethau datganoledig y Deyrnas Unedig,[33] gan amlygu i ba raddau roedd cynigion yn llithro'n ôl wrth gwestiynu cyffredinoledd hawliau dynol

[25] European Union (Withdrawal) Act 2020
[26] See evidence received by the W/Parliament EAAL Committee (2017) European Union (Withdrawal) Bill and its implications for Wales and Children in Wales & Wales Observatory on Human Rights of Children (2017) Brexit & Children's Rights: A Briefing Paper
[27] UK/Parliament (2022) The Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill 2022
[28] W/Parliament Research (2022) Unfettered authority? The Retained EU Law Bill in Wales
[29] London School of Economics and Political Science (2022) 'By the end of 2021, Brexit had already cost UK households a total of £5.8 billion in higher food bills', December 2022
[30] Policy Exchange (2022) The Future of Human Rights Law Reform
[31] The Independent the Human Rights Act Review
[32] See for example, British Institute of Human Rights (2022) HRA reform
[33] W/Government (2022) Written Statement: Response to the UK/Government consultation

a cheisio'u gwneud yn amodol ar ymddygiad pobl. Nod y cynnig, y rhoddwyd yr enw #RightsRemovalBill arno, yw lleihau'n gyffredinol draddodadwyedd hawliau dynol ar lefel gartref, ac mae'n defnyddio iaith a geiriad sy'n gwrthwynebu hawliau, gan nodi bod hawliau dynol yn 'llesteirio gweithredu gan y llywodraeth'; bod rhai categorïau o unigolion yn 'anhaeddiannol', a bod hawliau'n cael eu 'camddefnyddio'.

Roedd ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r ymgynghoriad yn cydnabod bod 90-100% o'r ymatebwyr, mewn rhai achosion, ddim yn cefnogi'r cynigion, oedd yn anwybyddu casgliadau'r Adolygiad Annibynnol i raddau helaeth. Er gwaethaf y corff sylweddol o dystiolaeth, cyflwynwyd y Bil, a chafodd ei feirniadu ymhellach gan CSOs,[34] NHRIs a'r Cyd-bwyllgor Hawliau Dynol.[35]

Bydd y cynigion yn cael effaith negyddol sylweddol ar hawliau plant. Roedd asesiad effaith Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei hun[36] yn cydnabod ym mharagraff 275 y gallai'r cynigion hyn effeithio'n anghymesur ar blant o gefndir ethnig lleiafrifol, nid lleiaf oherwydd bod plant yn cynrychioli 45% o'r hawlwyr sy'n defnyddio'r ddeddfwriaeth mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ceisio'i diddymu.[37] Mae'r ddogfen hefyd yn nodi bod cyfiawnhad i lawer o'r pryderon a fynegwyd gan CSOs hawliau plant, gan dderbyn y byddai'r cynigion yn arwain at y canlynol:

a. Llai o achosion llwyddiannus yn cael eu cyflwyno gan hawlwyr yn sgîl torri hawliau dynol

b. Dyfarnu llai o iawndal, os o gwbl, am rai achosion o dorri hawliau dynol oherwydd bod ymddygiad yr hawlydd yn cael ei ystyried, fel bod rhai hawliadau ddim yn cael eu cyflwyno yn y lle cyntaf (roedd y ddogfen yn amlygu hyn fel rhywbeth cadarnhaol)

c. Costau ymgyfreitha uwch yn sgîl cam caniatâd newydd

d. Rhwymedigaethau newydd cadarnhaol yn lleihau'r amddiffyniad i unigolion lle gallai eu hawliau fod wedi cael eu hamddiffyn fel arall

Nid yw'n syndod, felly, bod cynghrair o CSOs hawliau plant wedi dadlau y byddai cynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 'gwanhau'n sylweddol y parch at hawliau dynol plant a gallu plant i alw Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrff cyhoeddus i gyfrif lle cyfyngwyd ar eu hawliau'.[38] Mae perygl y byddai'r Bil yn dadsefydlogi setliad datganoledig y Deyrnas Unedig, ac yn torri rhwymedigaethau cyfreithiol rhyngwladol hirsefydlog.[39] Mae'r Bil yn ddigroeso, yn ddiangen a rhaid ei wrthsefyll[40] - cyflwynodd archwiliad UPR diweddar y CU argymhellion yn erbyn y cynigion.[41]

---

[34] Liberty, Amnesty International et. al. (2022) Joint Civil Society Briefing on the Bill of Rights Briefing for the Second Reading in the House of Commons, September 2022
[35] House of Commons Joint Committee on Human Rights (2022) Bill of Rights
[36] Draft Bill of Rights: Impact assessment
[37] Evidence from Wales Civil Society Alliance/Wales Governance Centre
[38] Coalition of children's rights CSOs (2022) Bill of Rights 2022: Implications for children Second Reading Briefing, House of Commons 12th September 2022
[39] Rt Hon Lord Dyson (2022) Human Rights Act reform: a dangerous or welcome change? Lecture delivered at the University of Leeds on 16th November 2022
[40] Reported at the UK-wide Civil Society Alliance Conference, Edinburgh 10-11 November 2022
[41] United Nations (2022) United Kingdom UPR Review

ii) Lefel Cymru

Mae'r cyfeiriad teithio deddfwriaethol ar lefel y Deyrnas Unedig mewn cyferbyniad amlwg â dull gweithredu blaengar Cymru i gryfhau hawliau dynol ac ymgorffori cytuniadau'r CU oddi mewn i gyfyngiadau a galluoedd datganoli, gan gynnwys CSOs yn weithredol. Cyflawnwyd gwaith ymchwil manwl ar gryfhau a hybu hawliau dynol a chydraddoldebau (SAEHR) yn 2020-21.[42] Mae'r adroddiad yn cyflwyno 40 o argymhellion, gan gynnwys cyflwyno Deddf Hawliau Dynol i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol, ac mae wrthi'n datblygu cynllun gweithredu manwl a gwaith paratoadol ar yr opsiynau ar gyfer ymgorffori Confensiynau'r CU yng nghyfraith Cymru, yn unol ag argymhelliad cyntaf adroddiad SAEHR ac ymrwymiadau blaenorol i ymgorffori Confensiwn y CU ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD) a'r Confensiwn ar Ddileu pob Gwahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW).[43]

**Argymhellion**

- Cryfhau'r gwrthwynebiad i unrhyw fwriad i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998 gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig
- Blaenoriaethu a hwyluso camau i gyflwyno Bil Hawliau Dynol yng Nghymru, gan ddod â'r CHP i rym ymhellach yng nghyfraith Cymru

[42] Hoffman, S.; Nason, S.; Beacock, R.; Hicks, E. (with contribution by Croke, R.) (2021). Strengthening and advancing equality and human rights in Wales. Cardiff: W/Government, GSR report number 54/2021
[43] W/Government (2022) Strengthening and Advancing Equality and Human Rights in Wales research report: W/Government response | GOV.WALES

# MESURAU GWEITHREDU CYFFREDINOL

## Deddfwriaeth

Yn 2011, Cymru oedd yr awdurdodaeth gyntaf yn y Deyrnas Unedig i ddeddfu er mwyn ymgorffori CHP yng nghyfraith gwlad[44], fel bod gofyn i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i CHP wrth ymarfer unrhyw rai o'u swyddogaethau.[45] Mae Adran 4 o'r ddeddfwriaeth yn gofyn bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi 'Adroddiad Cydymffurfiaeth' cyfnodol,[46] gydag Adran 6 yn rhoi'r pŵer i newid y ddeddfwriaeth os bernir bod hynny'n ddymunol, er mwyn cyflawni CHP ymhellach.

Roedd adroddiad a gomisiynwyd[47] yn gadarnhaol gan mwyaf ynghylch prif effaith y ddeddfwriaeth, gan gynnwys y camau a gymerwyd i wreiddio CHP fel fframwaith ar gyfer datblygu polisi ac i gefnogi craffu ac eiriolaeth. Fodd bynnag, fel enghraifft o ymgorffori anuniongyrchol, nid yw wedi gwneud llawer i wella atebolrwydd barnwrol gan nad yw CHP yn uniongyrchol berthnasol yn llysoedd y wlad. Nid yw cyfraith Cymru yn darparu rhwymedi cyfreithiol i blentyn sy'n dioddef torri'r CHP, na chwaith yn rhoi statws uwch neu gyfartal i ddeddfwriaeth gartref i CHP.

Cadarnhaodd Deddf Cymru 2017[48] gymhwysedd Senedd Cymru i ddeddfu er mwyn 'cadw at' rwymedigaethau rhyngwladol 'a'u gweithredu'. Mae enghraifft yr Alban, sydd wedi pasio Bil er mwyn ymgorffori CHP yn uniongyrchol yn y gyfraith, yn dangos potensial model neilltuedig o ddatganoli i ganiatáu ar gyfer ymgorffori mewn modd sy'n darparu ar gyfer hawliau y gellir eu gorfodi'n uniongyrchol ar lefel ddatganoledig.[49]

### Argymhellion

- Cyflwyno deddfwriaeth er mwyn ymgorffori CHP yn llawn ac yn uniongyrchol yng nghyfraith Cymru.
- Galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ymgorffori CHP yn llawn ac yn uniongyrchol ar lefel y Deyrnas Unedig gyfan.

---

[44] Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011
[45] Since May 2012, Welsh Ministers are required to have due regard to the requirements of the CRC and its Optional Protocols when making decisions about a provision to be included in an enactment, or the formulation of a new policy and/or legislation, or a review of or change to an existing policy and/or legislation. This requirement was extended to cover all ministerial functions from May 2014
[46] The latest Compliance Report was published in 2018 and covers the period June 2015-January 2018
[47] Hoffman, S. & O'Neill, S. (2018) The impact of Legal Integration of the UN Convention on the Rights of the Child in Wales, EHRC Wales
[48] Wales Act 2017
[49] Scottish Government (2021) UNCRC (Incorporation) (Scotland) Bill. The text of the CRC has been transposed into the Bill and will make the CRC rights directly applicable, including in court. The Bill was expected to be passed in early 2021. However, this has been delayed by a UK Supreme Court decision which held that the Scottish Parliament over-stepped its powers when enacting the legislation. The legislation is currently being amended.

Cadarnhau Protocol Dewisol 3 (OP3)

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gwrthod cadarnhau OP3[50] er gwaethaf argymhellion y CU[51] a galwadau gan CSOs[52] a Llywodraeth Cymru[53] i wneud hynny. Byddai cadarnhau yn rhoi cyfle i blant unigol gyflwyno sylwadau'n uniongyrchol i'r CU a cheisio mesurau gwneud iawn os byddant yn barnu bod hawliau wedi cael eu torri.

**Argymhelliad**

- Galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gadarnhau OP3 ar yr adeg gynharaf sy'n hwylus

## Strategaeth a Pholisi Cenedlaethol

Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer plant.[54] Nid yw'r cynllun yn cyfleu'n effeithiol sut bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi CHP ar waith, ond mae'n cyflwyno rhestr o flaenoriaethau i'w cyflawni heb osod targedau clir, neu fap ffordd yn egluro sut byddan nhw'n cael eu trosi'n arfer.[55] Mae'r Naw Carreg Filltir ar ddiwedd y cynllun, sydd i'w cyflawni erbyn 2050, yn canolbwyntio ar blant fel oedolion y dyfodol, yn hytrach na phlant sydd â hawliau yn y presennol.[56] Hefyd mae diffyg cydlyniant polisi, gan fod y cynllun yn methu rhoi sylw i lawer o argymhellion a ddaeth o ymchwiliadau cenedlaethol pwysig a gynhaliwyd gan Bwyllgorau Senedd Cymru.[57] Nid yw pob maes polisi wedi'u cynnwys yn y cynllun, ac mae angen mwy o fanylion mewn llawer o feysydd polisi allweddol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd plant a dileu tlodi plant.[58]

Mae'r cynllun yn methu â chreu cysylltiadau â pholisi a deddfwriaeth allweddol yng Nghymru. Er bod cyfeiriad at CHP a hawliau plant wrth gyflwyno'r cynllun, ni cheir ond hyperddolen i beth deddfwriaeth bwysig yng Nghymru. Ni sonnir am sut bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r hawliau cyfreithiol na'r targedau deddfwriaethol fel y'u nodir mewn deddfwriaeth arall allweddol.[59]

Mae diffyg manylion ynghylch sut bydd Gweinidogion yn cyflawni eu rhwymedigaeth i roi sylw dyledus i CHP. Yn lle, cyfeirir at amcanion llesiant (o dan Ddeddf Llesiant 2015) yn hytrach na hawliau cyfreithiol plant fel y'u cyflwynir yn CHP.[60] Mae diffyg gwybodaeth am ddyraniad ariannol i gefnogi gwireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru mewn gwahanol feysydd polisi,

[50] OP3 - on a communications procedure (OP3)
[51] UN Concluding Observations 2016
[52] All documents submitted can be accessed via the website of the UN Human Rights Office of the High Commissioner
[53] W/Government (2020) Written Response by the W/Government to the report of the Children, Young-people and Education Committee entitled Children's Rights in Wales. (Recommendation 11)
[54] W/Government (2022) Children and Young-people's Plan
[55] Croke R (2022) A New W/Government Plan for Children: the devil is in the detail (Blog for Children's Legal Centre for Wales)
[56] Ibid
[57] For example, the National Inquiry on Children's Rights and the National Inquiry on COVID-19, both of which made recommendations with far reaching implications for all children
[58] For example, there is no reference of the All-Wales Breastfeeding Plan within the document – Evidence from RCPCH (2022)
[59] For example, duties prescribed by the Children and Families Measure 2010, the Social Services and Well-Being (Wales) Act 2014, and the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018
[60] Croke R (2022) A New W/Government Plan for Children: the devil is in the detail (Blog for Children's Legal Centre for Wales)

ac nid oes tystiolaeth bod CRIA wedi'i gynnal ar y cynllun, yn groes i ymrwymiad Llywodraeth Cymru a nodwyd yn ei Chynllun Plant ei hun.

**Argymhelliad**

- Cyhoeddi strategaeth genedlaethol gynhwysfawr gydag adnoddau llawn, a chan gynnwys plant a CSOs; gyda thargedau cyflawnadwy a mesuradwy, seiliedig ar hawliau, sy'n destun trefniadau monitro, gwerthuso a chraffu cadarn

## Asesiad Effaith ar Hawliau Plant

Mae deddfwriaeth yn gofyn bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Cynllun[61] yn nodi sut bydd yn cydymffurfio â dyletswydd sylw dyledus. Cyflwynodd y Cynllun weithdrefn CRIA i'w chymhwyso i bob cynnig deddfwriaeth a pholisi sy'n effeithio ar blant yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Er bod ymchwil wedi cadarnhau pwysigrwydd CRIA i sicrhau bod CHP yn cael ei gymryd i ystyriaeth gan Weinidogion Cymru wrth wneud penderfyniadau polisi ac i godi proffil hawliau plant, mae'n barnu bod sut cymhwysir CRIAs yn anghyson ac yn amrywiol.[62] Ymhlith y gwendidau mae cymhwyso CRIA yn rhy hwyr yn y broses bolisi i wneud unrhyw wahaniaeth; diffyg arbenigedd perthnasol wrth gwblhau CRIA, a methiant i gymhwyso CRIA yn llawn i rai polisïau pwysig sy'n effeithio ar blant. Roedd hyn yn cynnwys cyllideb Llywodraeth Cymru, lle gwrthodwyd argymhelliad gan Bwyllgor Senedd Cymru i unioni'r cam hwnnw.[63]

Mae COVID-19 wedi amlygu sut gellir diystyru CRIA. Methodd Llywodraeth Cymru â chymhwyso CRIA i'r rheoliadau brys cychwynnol a gyflwynwyd,[64] er gwaethaf effaith amlwg iawn mesurau fel cau ysgolion a chyfyngu ar weithgareddau awyr agored ar blant.[65] Ychwanegwyd at hynny gan fethiant i gymhwyso CRIA i gamau cychwynnol penodol a gymerwyd wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo gael eu llacio.[66]

Mae'r llawlyfr newydd[67] a'r templed CRIA diwygiedig[68] yn ddatblygiadau i'w croesawu i gefnogi datblygu polisi a deddfwriaeth. Mae'r templed CRIA wedi cael ei gryfhau i ddangos yn fwy penodol y dylid casglu tystiolaeth gan blant fel rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth, ac mae camau cadarnhaol yn cael eu cymryd yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae gormod o ymgyngoriadau cyhoeddus ar bolisïau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant yn dal i gael eu cyflwyno heb CRIA drafft ar gyfer ystyriaeth.

[61] W/Government (2021) Children's Rights Scheme
[62] Hoffman, S. & O'Neill, S. (2018), The impact of Legal Integration of the UN Convention on the Rights of the Child in Wales and UNICEF (2017) Briefing, Strengthening CRIA in Wales
[63] W/Government (2020) Response to the CYPE Committee recommendations from their Inquiry into Children's Rights following calls for an individual CRIA to be published
[64] Evidence received from UNICEF UK
[65] Evidence received from Wales Observatory on Human Rights of Children and Young-people
[66] For example in relation to school reopening see evidence received from Wales Observatory on Human Rights of Children and Young-people
[67] W/Government (2021) Children's Rights Scheme: manual for W/Government staff
[68] W/Government (2021) Children's rights Impact Assessment template: guidance for staff in the W/Government

**Argymhellion**

- Mynd ati'n systematig i gwblhau a chyhoeddi CRIA ar bob cynnig polisi a deddfwriaeth sy'n debygol o effeithio ar blant yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol
- Cyflwyno deddfwriaeth i wneud CRIA yn ofyniad statudol

## Cydlyniant

Mae trefniadau cydlyniant presennol wedi bod yn destun craffu, gyda CSOs yn galw am eu cryfhau.[69] Dylai fod gan dîm canolog 'adnoddau dynol, technegol ac ariannol digonol' i roi dyletswyddau Gweinidogol ar waith yn effeithiol, a meddu ar berthnasoedd strategol sydd wedi gwreiddio gyda phersonel uwch ar draws Llywodraeth Cymru yn ei chrynswth, yn ogystal â CSO/NHRIs. Mae sefydlu Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant gan gynnwys CSO/NHRIs wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol.[70]

Nid oes 'Gweinidog Plant' penodol, a gwrthodwyd galwadau i unioni hyn.[71] Mae cyfrifoldeb am blant yn rhan o bortffolio'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er ei fod yn aneglur sut cyflawnir dyletswyddau CHP ar draws yr holl bortffolios gweinidogol. Croesawyd y derbyniad i alwadau am hyfforddiant CHP i bob Gweinidog, ond nid oes manylion ynghylch sut mae hynny'n cael ei gyflwyno, a dylid ei wneud yn orfodol.

Mae gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill bwerau sylweddol o ran rhoi CHP ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod dyletswydd sylw dyledus ar rai awdurdodau ac unigolion.[72] Er bod deddfwriaeth sectorol i'w chroesawu, mae hynny hyd yma wedi digwydd ar sail ad-hoc, gyda threfniadau monitro aneffeithiol. Mae CSOs wedi galw am osod dyletswydd benodol ar bob corff cyhoeddus, ac ar Lywodraeth Cymru i fonitro cydymffurfiaeth trwy eu swyddogaeth gydlyniant.[73] Gwaetha'r modd, mae argymhelliad gan Bwyllgor Senedd Cymru o blaid hyn wedi cael ei wrthod.[74]

**Argymhellion**

- Penodi Gweinidog Plant gyda throsolwg o'r ddyletswydd sylw dyledus, gyda chefnogaeth Pwyllgor Cabinet i Blant a thîm canolog ag adnoddau digonol, sydd â digon o arbenigedd, capasiti ac awdurdod i gydlynu'r holl faterion cysylltiedig â gweithredu CHP ar draws yr holl bortffolios Gweinidogol

---

[69] Wales UNCRC Monitoring Group (2019) Evidence to CYPE Committee Inquiry into Children's Rights
[70] The W/Government has established a Children's Rights Advisory Group (CRAG) with standing members: Children's Commissioner for Wales, Children in Wales, UNICEF, and Wales Observatory on Human Rights of Children. CRAG advises the W/Government on matters relating the children's rights at a strategic level, and is available to assist all departments with CRIA
[71] W/Government (2020) Response to the CYPE Committee recommendations from their Inquiry into Children's Rights
[72] Section 7(2) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 imposes a duty to have due regard to the UNCRC on any person exercising functions under the Act in relation to: a child who has, or may have, needs for care and support; a child who is a carer who has, or may have, needs for support; or looked after children (as defined in the Act). Section 7(1) of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 imposes a duty on to have due regard to the UNCRC on a relevant body exercising functions under Part 1 of the Act (relating to Additional Learning needs of a child or young person).
[73] Wales UNCRC Monitoring Group (2019) Evidence to CYPE Committee Inquiry into Children's Rights
[74] W/Government (2020) Response to the CYPE Committee recommendations from their Inquiry into Children's Rights

- Cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod gan yr holl gyrff cyhoeddus (datganoledig) ddyletswydd sylw dyledus i CHP, gyda threfniadau monitro, atebolrwydd ac adrodd cadarn yn eu lle i sicrhau cydymffurfiaeth
- Sicrhau bod yr hyfforddiant i swyddogion a gweinidogion yn cael ei wneud yn orfodol, ac yr adroddir arno

## Dyraniad Adnoddau

Mae ystyriaethau cyllidebol Llywodraeth Cymru yn destun dyletswydd sylw dyledus i CHP, a dylent fod yn destun CRIA penodol. Mae diffyg tryloywder ynghylch gwariant ar blant mewn cyllidebau cyhoeddus ar draws yr holl bortffolios gweinidogol, sy'n golygu ei fod yn anodd asesu newidiadau mewn dyraniadau ariannu i feysydd penodol. Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn ffafrio Asesiad Effaith Strategol Integredig (SIIA) cyfannol i gyd-fynd â'u cyllideb ddrafft yn golygu nad oes modd asesu a yw uchafswm yr adnoddau sydd ar gael i gyflawni rhwymedigaethau CHP yn cael eu defnyddio.[75] Mae'r Cynllun Gwella diweddar yn cynnwys cyfeiriadau cyfyngedig yn unig at blant neu CHP.[76]

Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Senedd Cymru,[77] daeth yn amlwg bod CRIA heb gael ei lunio unwaith yn rhagor ar y gyllideb bresennol, gan adleisio pryderon cynharach gan y Pwyllgor a ragflaenodd hwn.[78] Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor fod rhwymedigaeth statudol i ddangos sut mae'r gyllideb wedi rhoi sylw dyledus i CHP, a gwnaeth y sylw ei fod yn annigonol nad yw'r SIIA yn sôn am hawliau plant unwaith.[79]

Heb dystiolaeth dryloyw, mae'n amhosibl penderfynu a yw Llywodraeth Cymru wedi cyflawni eu dyletswydd i roi sylw dyledus i CHP wrth ddrafftio'r gyllideb. Petai cyllidebu ar sail hawliau plant yn digwydd[80] , byddai'n annog casglu a chyhoeddi data hanfodol a datblygu dangosyddion i helpu i werthuso effaith gwariant a llywio penderfyniadau ynghylch dyraniadau cyllideb yn y dyfodol. Byddai hefyd yn annog cyrff cyhoeddus i gymhwyso mecanweithiau tebyg er mwyn pennu eu dyraniad cyllideb ar gyfer plant.

### Argymhelliad

- Cynnal dadansoddiadau cyllidebu plant, gan sicrhau bod CRIA yn cael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar ei gyllideb blynyddol, a'i fod yn cynnwys asesiad o'r adnoddau sydd ar gael i roi cynigion ar waith yn unol â CHP

---

[75] W/Parliament Children, Young-people and Education Committee (2022) The 2022-23 W/Government Draft Budget
[76] W/Government (2022) Budget Improvement Plan
[77] W/Parliament Children and Young-people and Education Committee (2022) Scrutiny of the W/Government Draft Budget 2022-2023 Evidence Session 1 (January 13th 2022)
[78] W/Parliament Children, Young-people and Education Committee (2020) Children's Rights in Wales
[79] (February 11th2022)
[80] In 2006, Wales became the only territory in the EU to attempt a child-focused budget analysis with work undertaken to identify the proportion of the Government budget spent on children. This showed that, in 2006–07 an estimated 28 per cent, or £4.4 billion, of W/Government expenditure was allocated to children. See evidence received from UNICEF UK

## Monitro Annibynnol

Argymhelliad adolygiad o benodiad, ariannu ac atebolrwydd Comisiynydd Plant Cymru (CPC) oedd eu bod yn cael eu trosglwyddo o Lywodraeth Cymru i Senedd Cymru.[81] Mae hyn wedi cael ei wrthod gan Weinidogion Cymru sawl tro,[82] sydd wedi ymrwymo yn lle hynny i barchu annibyniaeth CPC, a pheidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniadau.[83]

Mae CPC wedi gofyn droeon am fwy o bwerau i fedru delio â materion sy'n ymwneud â phlant yng Nghymru sydd y tu allan i gwmpas galluoedd datganoledig. Mae hyn yn destun trafodaeth ar hyn o bryd.[84]

**Argymhellion**

- Trosglwyddo cyfrifoldeb am benodi ac ariannu CPC i Senedd Cymru
- Cynnal adolygiad llawn o bwerau a chylch gorchwyl cyfreithiol CPC er mwyn ymateb i'r cais am bwerau sy'n gallu ymateb yn effeithiol i unrhyw fater sy'n effeithio ar blentyn yng Nghymru

## Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o CHP. Mae'n anodd mesur i ba raddau mae gweithgareddau wedi cyflawni eu nod arfaethedig yn uniongyrchol, gan na chynhaliwyd dadansoddiad cynhwysfawr.[85]

Mae'r 'Strategaeth Cynyddu Ymwybyddiaeth o Hawliau Plant' a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru[86] i gynyddu ymwybyddiaeth o CHP ymhlith plant, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol trwy raglenni a hyfforddiant perthnasol i'w chroesawu. Fodd bynnag, gan nad oes bwriad i lunio adroddiad monitro ar ei weithrediad tan ddiwedd 2023, gyda diweddariad yn 2024, nid oes modd adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd yma.

---

[81] The Independent Review of the Children's Commissioner for Wales, Recommendation 6: There are clear principles around independence of public bodies involved in human rights. The W/Government should acknowledge and adhere to them by transferring the appointment and funding of the Children's Commissioner to National Assembly for Wales *(now W/Parliament)*. See also Response from the Children's Commissioner for Wales to all recommendations.

[82] W/Government (2022) Letter to Chair, CYPE Committee 26th May 2022 & W/Government (2015) Written Statement - Response to the recommendations from the Independent Review of the Role and Functions of the Children's Commissioner for Wales

[83] The MOU between the CCfW and W/Government states that "*The W/Government recognises the statutory basis upon which the Children's Commissioner's independence is established. It respects the need for the Children's Commissioner to operate independently of Welsh Ministers in order to exercise her statutory functions effectively. It will not seek to influence any of the Children's Commissioner's decisions, including use of the Children's Commissioner's statutory powers, content of reports due for publication or budgetary decisions, other than to provide necessary factual information.*"

[84] Children's Commissioner for Wales (2015) Response to the Recommendations of the Independent Review into the Role and Function of the Children's Commissioner for Wales & W/Government (2022) Letter to Chair, CYPE Committee 26th May 2022

[85] Wales UNCRC Monitoring Group (2019) Evidence to CYPE Committee Inquiry into Children's Rights

[86] W/Government (2021) Raising Children's Rights Awareness Strategy - The Plan sets out 5 strands: Direct communication and engagement with children; The early years approach; Children's rights in education settings; Public sector/professional awareness of children's rights; and Communication with Parents

Mae ymchwil[87] wedi dangos, er bod llu o CSOs yn cyflwyno gweithgareddau sy'n cyfrannu at y nod hwn,[88] mae cyrchu gwybodaeth am CHP i blant yn aml yn dibynnu ar yr ysgol maen nhw'n mynd iddi a/neu a ydyn nhw'n ymwneud â strwythurau ymgysylltu ffurfiol. Rydym ni'n rhagweld y bydd deddfwriaeth ddiweddar, trwy Ddeddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2020, sy'n gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu a phenaethiaid i hybu gwybodaeth am CCUHP a dealltwriaeth ohono, yn helpu i ymdrin â'r rhwystrau presennol[89] a gwreiddio addysg hawliau dynol ym mhob ysgol.

**Argymhellion**

- Cryfhau trefniadau monitro a chraffu trwy adrodd yn flynyddol ar gynnydd i weithredu'r Strategaeth, gan gychwyn yn gynnar yn 2023
- Monitro ac adrodd am rwymedigaeth darparwyr addysg i hybu gwybodaeth am CHP o dan ddeddfwriaeth newydd

## Casglu Data

Mae diffyg data Cymru-benodol ac wedi'i ddadgrynhoi, a fyddai'n darparu gwell dealltwriaeth o effaith penderfyniadau, polisi a deddfwriaeth ar grwpiau penodol o blant, gan gynnwys plant â nodweddion gwarchodedig. Rhan o'r anhawster yw nad yw Cymru'n genedl arbennig o amrywiol o gymharu â gwledydd cymdogol. O ganlyniad, pan gyflwynir data ar lefel is-genedlaethol, mae'n aml yn angenrheidiol cymhwyso ataliad ystadegol er mwyn osgoi cyflwyno niferoedd isel. O ganlyniad, mae tuedd i ddefnyddio grwpiau pennawd, e.e. ar gyfer ethnigrwydd, neu darperir rhaniadau deuaidd. Lle gofynnir cwestiynau am nodweddion gwarchodedig, nid ydynt bob amser yn cael eu gofyn mewn modd cyson, sy'n golygu ei fod yn anodd cymharu ar draws sectorau, neu maen nhw'n wirfoddol gyda chyfle i 'optio allan' neu'n cael eu cymhwyso i grwpiau oed penodol (16 -18 oed).

**Argymhellion**

- Cymryd camau i gryfhau mecanweithiau casglu data, gan gynnwys data wedi'i ddadgrynhoi, ar gyfer materion oddi mewn i alluoedd Llywodraeth Cymru
- Defnyddio'i ddylanwad ar gyrff partneriaeth[90] i annog cryfhau'r casglu data a rhannu canfyddiadau perthnasol mewn perthynas â materion neilltuedig sy'n effeithio ar blant yng Nghymru

[87] Hoffman, S. & O'Neill, S. (2018), The impact of Legal Integration of the UN Convention on the Rights of the Child in Wales
[88] For example, through training to children and/or the workforce,
[89] CSOs/NHRI have worked with W/Government and education leads to produce guidance to support schools to embed the CRC as part of designing their curriculum. See Cross-cutting themes for designing your curriculum
[90] For example the Wales Youth Justice Advisory Panel,

# EGWYDDORION CYFFREDINOL

## Peidio â Chamwahaniaethu

Gwahaniaethu ar sail Oedran

Er bod Deddf Cydraddoldeb y Deyrnas Unedig 2010[91] yn darparu amddiffyniadau yn erbyn personau sydd ag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig, nid yw'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn plant oherwydd eu hoedran.

**Argymhelliad**

- Galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i newid deddfwriaeth er mwyn amddiffyn plant rhag gwahaniaethu ar sail oedran

Camwahaniaethu a throseddau atgasedd

Mae llawer o blant sydd â rhai nodweddion yn dal i brofi camwahaniaethu, stigmateiddio, trais a lefel uwch o fygythiadau ar ffurf troseddau atgasedd, ac yn dangos canlyniadau differynnol yng nghyswllt iechyd, addysg a llesiant, fel y cyflwynir ar hyd yr adroddiad hwn.

Mae'r data'n dangos cynnydd yn y troseddau atgasedd yr adroddwyd amdanynt yn erbyn plant yng nghyswllt hil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, anabledd, hunaniaeth drawsrywedd neu ailbennu rhywedd,[92] ac mae'n debygol bod y ffigurau go iawn yn llawer uwch. Mae data swyddogol diweddar yn dangos cynnydd o 35% yn y troseddau atgasedd a gofnodwyd ar draws Cymru o gymharu â 2020/21,[93] oedd wedi'u rhannu fel a ganlyn:

- 3,888 (62%) hil
- 1,329 (21%) cyfeiriadedd rhywiol
- 227 (4%) crefydd
- 864 (14%) anabledd
- 247 (4%) trawsrywedd

Mae'r pryderon hefyd yn canolbwyntio ar effaith dod i gysylltiad â mwy o ddigwyddiadau atgasedd ar-lein, yn arbennig pan oedd yr ysgolion wedi'u gorfodi i gau yn ystod COVID-19.[94]

Mae ymchwil wedi datgelu lefelau eang o **droseddau atgasedd hiliol** rhwng plant mewn ysgolion,[95] ac mae galwadau am ddull gwell o adrodd amdanynt a thempled cofnodi

[91] Equality Act 2010
[92] Victim Support Wales (2020) Children and young-people affected by Hate Crime in Wales
[93] Home Office (2022) National Hate Crime Statistics for England and Wales 2021/2022
[94] Evidence received from EYST
[95] For example, Show Racism the Red Card Wales (2020) Racism in Wales? Exploring prejudice in the Welsh education system. See also evidence received from Swansea Community Integration Team

safonedig, ynghyd â mwy o gefnogaeth i ddioddefwyr a chyfleoedd hyfforddi i staff addysgu, nad oes ond 1.3% ohonynt yn nodi eu bod o gefndir ethnig lleiafrifol, o gymharu â 12% o'r dysgwyr.[96] Mae rhai plant o leiafrifoedd ethnig yn cael eu llesteirio gan brofiadau o hiliaeth yn eu bywyd ysgol pob dydd[97], gan y diffyg esiamplau ymddygiad mewn gweithlu addysg nad yw'n adlewyrchu proffil ethnig amrywiol Cymru.[98]

Fel yr amlygwyd yn ystod yr ymgynghoriad i lywio Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth newydd Llywodraeth Cymru,[99] mae angen mwy o fuddsoddiad mewn rhaglenni atal troseddau atgasedd a chamau gweithredu ataliol ynghylch hiliaeth, ochr yn ochr â gwasanaethau penodol wyneb yn wyneb ar gyfer troseddau atgasedd, i gefnogi'r plant mae hyn yn effeithio arnyn nhw.[100] Rydym ni'n croesawu'r datblygiad mai Cymru yw'r rhan gyntaf o'r Deyrnas Unedig i wneud addysgu hanes a phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn orfodol yn y cwricwlwm ysgol o fis Medi 2022,[101] ac yn cefnogi galwadau am wreiddio addysg gwrth-hiliol a chynrychiolaeth gadarnhaol o amrywiaeth ethnig ar draws y cwricwlwm ysgol.[102]

Mae teuluoedd **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** (SRT) yng Nghymru yn wynebu hiliaeth, rhagfarn ac anoddefgarwch eang, gyda phlant SRT yn wynebu anghydraddoldeb a rhwystrau arbennig o ran diwallu eu hanghenion iechyd, addysg a thai.[103] Er bod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad o anghenion llety,[104] a darparu safleoedd diwylliannol briodol digonol yng Nghymru, galwodd Pwyllgor diweddar yn Senedd Cymru am weithredu ar unwaith, ar ôl canfod bod y sefyllfa roedd cymunedau teithwyr yn ei hwynebu yng Nghymru yn destun pryder, ac amlygu diffyg gweithredu gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol,[105] gan gynnwys ynghylch diffyg safon yn y ddarpariaeth bresennol[106] a chyfleusterau chwarae, gorlenwi, a safleoedd wedi'u lleoli'n bell o ysgolion.[107] Mae diffyg tai diwylliannol briodol yn golygu bod perygl y bydd plant yn colli eu hunaniaeth a dealltwriaeth o'u ffordd ddiwylliannol o fyw.[108]

Yn y cyfamser, mae darpariaeth yn Neddf Heddlu, Troseddu, Dedfrydau a Llysoedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig 2022 yn creu tramgwyddau troseddol newydd, ac yn cryfhau pwerau'r heddlu i arestio a chipio cartrefi ar wersyllfeydd heb eu hawdurdodi. Mae'r camau hyn wedi cael eu gwrthwynebu gan Lywodraeth Cymru,[109] mae CPC yn eu gweld fel rhai sy'n peryglu hawliau plant,[110] ac mae CSOs yn beirniadu'r Ddeddf am fod yn gamwahaniaethol, am dorri hawliau dynol, troseddoli ffordd teuluoedd SRT o fyw,[111] a thanseilio ymgyrchoedd i greu cymdeithas fwy cynhwysol. Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf yn destun pryder

[96] Education Workforce Council (2022) Annual Education Workforce Statistics for Wales
[97] EYST (2018) Experiences of Racism and Race in schools
[98] Williams, C., (2021) Black Asian and Minority Ethnic Communities, Contributions and Cynefin in the New Curriculum Working Group. Final Report
[99] W/Government (2022) Anti-racist Wales Action Plan
[100] Victim Support Wales (2020) Children and young-people affected by Hate Crime in Wales
[101] W/Government (20220 Press Release: Learning of Black, Asian and Minority Ethnic histories included in the new Welsh curriculum
[102] Race Alliance Wales (2020) From Rhetoric to Reality: Our Manifesto for an Anti-Racist Wales
[103] Equality and Human Rights Commission (2021) Legal Briefing on Racial Discrimination: Gypsies, Roma and Travellers and their sites in Wales
[104] Housing Act (Wales) 2014
[105] W/Parliament Local Government and Housing Committee (2022) Provision of sites for Gypsy, Roma and Travellers, August 2022
[106] TGP Cymru Travelling Ahead (2022) Written correspondence to the W/Parliament Local Government and Housing Committee to inform their inquiry
[107] W/Parliament Local Government and Housing Committee (2022) Oral evidence session 22nd June 2022
[108] Evidence received from TGP Cymru concern
[109] W/Government (2022) Written Statement: Police, Crime, Sentencing and Courts Act 2022
[110] Children's Commissioner for Wales (2022) Consultation response: inquiry into the provision of sites for Gypsy, Roma and Travellers
[111] Tai Pawb (2022) Written evidence: Inquiry into the provision of sites for Gypsy, Roma and Travellers

arbennig gan nad oes safleoedd dros dro yng Nghymru, gyda theuluoedd sy'n teithio yn dal i orfod gwersylla ar ba dir bynnag y gallan nhw ddod o hyd iddo.[112]

Mae llawer o blant SRT yn wynebu rhwystrau wrth gael mynediad i hawliau addysg a iechyd. Dim ond 1 o bob 5 plentyn sy'n cyflawni'r canlyniadau addysgol disgwyliedig yn 16 oed er gwaethaf cyfraddau presenoldeb gwell[113] ac ymdrechion i gau'r bwlch cyrhaeddiad.[114] Mae teuluoedd SRT yn wynebu rhwystrau arbennig wrth gael mynediad i wasanaethau iechyd, ac mae eu canlyniadau iechyd yn wael.[115]

Mae **plant LHDTC+** yn dal i wynebu rhwystrau sylweddol wrth wireddu eu hawliau, o ran eu hiechyd a'u haddysg, ac mae ymchwil yn sôn am gyfraddau uchel o iechyd meddwl gwael,[116] bwlio[117] ac aflonyddu rhywiol[118] mewn ysgolion, a diffyg cefnogaeth ymhlith rhai staff rheng flaen yn y sector cyhoeddus.[119] Mae pobl ifanc LHDTC+ yn wynebu risg sylweddol uwch o ddigartrefedd na'u cyfoedion.[120]

Dylid darparu mwy o gefnogaeth mewn ysgolion i blant LHDTC+, sy'n aml yn profi camdriniaeth a chamwahaniaethu homoffobig, deuffobig neu drawsffobig. Dylai ysgolion sicrhau bod pob math o fwlio yn cael eu cofnodi, bod camau'n cael eu cymryd yn eu cylch, a bod staff yn derbyn hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth rheolaidd sy'n ymdrin â gwahaniaethu yn erbyn plant LHDTC+.[121] Un datblygiad pwysig yw ei fod bellach yn orfodol i addysg cydberthynas a rhywioldeb (RSE) yn y cwricwlwm newydd i Gymru fod yn gynhwysol ac adlewyrchu amrywiaeth.[122] Rhaid i hyn gynnwys datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o wahanol hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd ac amrywiaeth o berthnasoedd, rhywedd a rhywioldeb, gan gynnwys bywydau LHDTC+.

Mae Llywodraeth Cymru ar fin cyhoeddi Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru,[123] a fydd yn ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau strwythurol presennol a brofir gan gymunedau LHDTC+; herio camwahaniaethu a chreu cymdeithas lle mae pobl LHDTC+ yn gallu bod yn ddiogel i fyw a charu'n ddilys, yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain. Gan fod plant LHDTC+ yn wynebu nodweddion ychwanegol sy'n eu gwneud yn agored i niwed gartref ac yn eu cymunedau, rhaid i'r Cynllun Gweithredu gynnwys blaenoriaethau cryf a chlir i gefnogi a diogelu plant LHDTC+ yn benodol ym mhob gofod. Dylid cyflwyno hyfforddiant cydraddoldeb cynhwysfawr a gorfodol, a rhaglenni datblygiad proffesiynol i bob corff cyhoeddus.[124]

---

[112] TGP Cymru Travelling Ahead (2022) Letter to John Griffiths MS, Chair of the W/Parliament Local Government and Housing Committee, 2nd March 2022
[113] Estyn (2019) More Gypsy, Roma and Traveller pupils attend school, but further support needed
[114] W/Government (2018) Enabling Gypsies, Roma and Travellers
[115] EHRC (2018) Is Wales Fairer?: the State of Equality and Human Rights
[116] Stonewall (2018) LGBT in Britain Health Report
[117] Stonewall Cymru (2017) School Report Cymru - 54% of LGBT pupils and 73% of trans pupils have experienced bullying based on their sexual orientations and gender identities
[118] Estyn (2021) "We don't tell our teachers" Experiences of peer-on-peer sexual harassment among secondary school pupils in Wales
[119] Evidence received from Stonewall Cymru
[120] End Youth Homelessness Cymru (2019) Out on the Streets
[121] See recommendations in Estyn (2020) Celebrating Diversity and Promoting Inclusion: Good practice in supporting LGBT learners in schools and colleges
[122] See W/Government (2021) The Curriculum for Wales – Relationships and Sexuality Education Code
[123] W/Government (2021) LGBTQ+ Action Plan – Public Consultation
[124] In line with the recommendation of the Independent Expert panel for advancing LGBTQ+ equality

Rydym ni'n croesawu'r cyhoeddiad bod Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i wahardd therapi trawsnewid yng Nghymru, ac i sicrhau bod unrhyw bwerau angenrheidiol yn cael eu datganoli, ochr yn ochr â chyflwyno ymgyrch gyhoeddus benodol ar hyn.[125]

### Argymhellion

- Mynd i'r afael a'r camwahaniaethu a brofir gan grwpiau arbennig o blant, gan gynnwys trwy hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cyflwyno hyfforddiant a darparu cefnogaeth i ymdrin â bwlio, troseddau atgasedd ac anoddefgarwch
- Sicrhau bod holl staff rheng flaen y sector cyhoeddus yn derbyn hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiad gorfodol ar sut mae mynd i'r afael â chamdriniaeth, bwlio a chamwahaniaethu
- Monitro gweithrediad Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gan sicrhau ei bod yn cynnwys LHDTC+ ac yn diwallu anghenion plant LHDTC+
- Monitro gweithrediad y Cynllun Gweithredu LHDTC+ (pan gaiff ei gyhoeddi) a Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru, gan sicrhau eu bod yn cynnwys blaenoriaethau cadarn i gefnogi a diogelu plant
- Buddsoddi mewn rhaglenni i atal troseddau atgasedd a gwasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr
- Cryfhau'r trefniadau monitro ac atebolrwydd, a sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswydd i ddarparu tai digonol, priodol i deuluoedd SRT
- Sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal a gwell canlyniadau o ran eu hiechyd a'u haddysg
- Rhoi terfyn ar therapi trawsnewid

## Parch at Farn y Plentyn

Er bod peth cynnydd wedi cael ei wneud trwy sefydlu Senedd Ieuenctid Annibynnol[126] sy'n atebol i Senedd Cymru ac yn gweithredu ochr yn ochr â strwythurau cenedlaethol sefydledig eraill ar gyfer ymgynghori â phlant,[127] mae'n dal yn wir nad yw barn plant yn cael ei chlywed yn systematig ar bob penderfyniad sy'n effeithio arnyn nhw.

Mae llawer o blant yn dal i deimlo eu bod nhw ddim yn cael gwrandawiad gan weithwyr proffesiynol pan wneir penderfyniadau, ac nad ydynt yn cael mynediad at gefnogaeth eiriolydd annibynnol fel mater o drefn. Canfu'r dadansoddiad o adroddiadau ar farwolaethau plant, er enghraifft, fod lleisiau plant 'weithiau ar goll a/neu heb fod yn ganolog i ymarfer bob amser', gan ddod i'r casgliad bod CPRs yn aml ddim yn ystyried y profiad o bersbectif

[125] W/Government (2022) Press Release: Conversion Therapy Ban Moves Forward in Wales
[126] Wales Youth Parliament
[127] For example, Young Wales

plant.[128] Gwelwyd y canfyddiad hwn eto yn y CPR diweddar a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022.[129]

Mae llawer o blant heb gyfleoedd i gyfranogi'n ystyrlon ar y cyd yn lleol, er gwaethaf canllawiau gorfodol sydd ar waith ers 2010.[130] Dylid gwneud mwy i sicrhau bod plant yn cael eu cynnwys yn gynharach yn y broses o wneud penderfyniadau fel mater o drefn, gan roi sylw arbennig i'r rhai a dangynrychiolir fwyaf ac sy'n cael eu clywed yn anaml. Dylid gwreiddio modelau teg o gyfranogiad ar draws pob gwasanaeth cyhoeddus, yn unol â safonau cenedlaethol cytunedig[131] a deddfwriaeth,[132] gyda threfniadau monitro ac atebolrwydd cryfach i sicrhau bod ymarfer o safon ddigonol[133] a bod yr ymwneud yn cael effaith ac yn arwain at newid amlwg. O safbwynt cadarnhaol, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n rhagweithiol gyda CSOs i ymgysylltu â phlant ar ddatblygiadau polisi, gan gynnwys goblygiadau Brexit, ac ag NHRIs ynghylch effaith COVID-19,[134] a datblygwyd nifer o offer a dulliau gweithredu enghreifftiol.[135]

Er bod cyfranogiad wedi'i wreiddio'n dda mewn deddfwriaeth a pholisi addysg, yn ymarferol mae mwy o gyfleoedd ystyrlon ar gael i blant 7+ oed, gan fod y dulliau'n aml wedi'u seilio ar gyfathrebu llafar, sy'n cyfyngu ar ymgysylltiad babanod a phlant iau, ac mewn rhai achosion, plant ag anghenion ychwanegol. Yn fframwaith y cwricwlwm i blant (3–7 oed), cydnabyddir cyfranogiad fel un o 12 elfen addysgeg, ond nid oes fawr ddim tystiolaeth bod hynny'n cael ei gyflawni fel mater o drefn, yn unol â'r bwriad.[136] Dylid uwchsgilio ymarferwyr i alluogi plant ifanc i gyfranogi'n llawn,[137] a dylai'r berthynas rhwng llais plant mewn ysgolion a chyfleoedd lleol/cenedlaethol i gyfranogi gael ei chryfhau.

Ar yr ochr gadarnhaol, mae pob person ifanc 16-17 oed yn awr yn gallu pleidleisio mewn etholiadau cenedlaethol[138] a'r rhan fwyaf ohonynt mewn etholiadau lleol.[139]

### Argymhellion

[128] Rees, A. et. al. (2022) Findings from a thematic analysis of Child Practice Reviews in Wales , Cardiff University
[129] Cwm Taf Morgannwg Safeguarding Board (2022) Logan Mwangi Child Practice Review. Findings reveal that 5 year old Logan Mwangi' voice was not heard; there was an absence of one to one sessions outside the family home and there was no knowledge of his lived experience.
[130] Promoting and facilitating children and young-people's participation is a duty on local authorities in the Children and Families (Wales) Measure 2010
[131] The National Standards for Children and Young-people's Participation, are endorsed by WG, should be adopted by Public Service Boards when consulting children.
[132] Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015: guidance
[133] See for example evidence received from Children's Rights Co-ordinator (Swansea)
[134] See Young Wales report on young-people's views on Brexit (2018) and Children's Commissioner for Wales et al (2020) Coronavirus and me
[135] See for example Children's Commissioner for Wales (2022) A Children's Rights Approach to Additional Learning Needs, and Children in Wales (2022) Early Years Resources

[136] Clement, J. (2019) Spatially Democratic Pedagogy: Children's Design and Co-Creation of Classroom Space. An evaluation of the Foundation Phase identified children's participation as their ability to 'spontaneously direct their learning or their ability to 'choose which activity to engage with'. However, these participatory practices are framed by spaces that already have predetermined ways of being and overpower the intentionality of the child. Taylor, C.et al. 2015. Evaluating the Foundation Phase: Final Report. Project Report. Cardiff: W/Government
[137] See for example, evidence received from Swansea's Children's Rights Coordinator. Evidence from Homestart Cymru suggests that their teams on the ground have expressed they have good awareness of the details and applications of the UNCRC but lack full understanding of how this can be fully applied to the early years
[138] W/Parliament and Elections (Wales) Act 2020
[139] Local Government and Elections (Wales) Act 2021 W/Government shelved plans for some adults in prisons and children in custody the right to vote due to the COVID-19 crisis https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-52221041

- Sicrhau bod trefniadau cenedlaethol a lleol ar gyfer cyfranogiad plant yn hybu dull gweithredu seiliedig ar hawliau, yn gynaliadwy, wedi'u gwreiddio, yn cael eu hariannu'n ddigonol a'u monitro yn erbyn safonau cenedlaethol, a bod y rhain yn cynnwys cyfleoedd i blant drafod y materion sy'n bwysig iddyn nhw
- Sicrhau bod cyfleoedd teg i blant iau, a'r rhai sy'n fwyaf agored i niwed ac wedi'u gwthio i'r cyrion, gyfranogi ar lefel leol a chenedlaethol

# TRAIS YN ERBYN PLANT

## Triniaeth neu Gosb Greulon neu Ddiraddiol

Mae plismona yn fater wedi'i neilltuo i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Er bod Pwyllgor y CU wedi argymell y dylid gwahardd defnyddio **Tasers** ar blant, mae swyddogion arfau'r heddlu yn dal i gael defnyddio gynnau llonyddu electronig ar blant. Mae data cyfunedig o Gymru a Lloegr yn dangos bod y defnydd o Tasers ar blant yn dal i gynyddu.[140] Defnyddiwyd Tasers 55 o weithiau ar blant yng Nghymru, rhai ohonynt mor ifanc ag 11 oed, a defnyddiwyd gardiau poeri/cnoi 34 o weithiau, gan gynnwys unwaith ar blentyn o dan 12 oed,[141] er bod ymchwil wedi pwysleisio faint o drawma a thrallod gall cwcwll ei achosi i blentyn.[142] Nid oes canllawiau cenedlaethol ar gyfer defnyddio dyfeisiau o'r fath ar blant.

O dan gyfraith y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i Gymru, gall swyddogion yr heddlu **chwilio** plentyn **yn noeth**. Bydd hyn yn brofiad trawmatig i unrhyw blentyn; yn torri eu hawliau preifatrwydd ac integriti'r corff, gan eu dad-ddyneiddio a'u diraddio.[143] Mae data'r Swyddfa Gartref yn datgelu bod 183 o blant wedi cael eu chwilio'n noeth gan heddluoedd oedd yn gweithredu yng Nghymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022.[144]

Mae defnyddio **ymyriadau cyfyngol** ar blant mewn lleoliadau gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol yn faterion i Lywodraeth Cymru. Ni ddylid defnyddio technegau sy'n achosi poen na neilltuo byth gyda phlant mewn lleoliadau yng Nghymru, a dylai cynllunio gwell, plentyn-ganolog, sy'n rhoi hawliau a lles pennaf y plentyn yn gyntaf, atal defnydd o arferion cyfyngol[145], na ddylid eu defnyddio ond pan fo popeth arall wedi methu, i atal niwed.[146] Mae diffyg data wedi'i goladu neu ei gyhoeddi yn parhau, gan gynnwys yn ôl nodweddion gwarchodedig, ynghylch defnyddio ataliaeth ac ymyriadau cyfyngol[147] ar blant

[140]The number of incidents has risen from 16,193 in 2017/18 to 34,429 in 2020/21 (Wales & England). Home Office (2021) Police use of force statistics, England and Wales: April 2020 to March 2021

[141] BBC Wales (2019) https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50867382 drawing on the UK/Government annual 'use of force' figures

[142] CRAE, CLC NI, Wales UNCRC Monitoring Group & Together (2022) Universal Periodic Review: UK 4th Cycle Policing and the child justice system

[143] Croke R. (2022) 'Strip search of children: a violation of children's rights', Blog Children's Legal Centre Wales

[144] The actual figure is likely to be higher as 3 of the 4 police forces operating in wales provided data. Home Office (2022) Police powers and procedures: Other PACE powers, England and Wales, year ending March 2022

[145] These expectations are set out in W/Government (2022) Reducing Restrictive Practice Framework: A framework to promote measures and practice that will lead to the reduction of restrictive practices in childcare, education, health and social care settings

[146] Children' rights Impact Assessment: W/Government (2021) Reducing Restrictive Practices Framework (CRIA)

[147] This can include limiting a child's movement and freedom to act independently; forced isolation and seclusion, or the use of physical, mechanical and chemical forms of control.

mewn lleoliadau yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion,[148] na gwybodaeth hygyrch ynghylch sut defnyddir ataliaeth wrth gynllunio rheoli ymddygiad, mewn adolygiadau wedi digwyddiadau, neu i lywio hyfforddiant ac ymarfer staff. Er gwaethaf canllawiau cenedlaethol, mae adroddiadau diweddar yn amlygu defnydd mynych, eithafol ac annerbyniol o ataliaeth ar blant, ochr yn ochr â threfniadau monitro a chofnodi a llywodraethu gwael,[149] a ddisgrifir fel rhai annerbyniol.[150]

**Argymhellion**

- Galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i wahardd defnydd o Tasers a dyfeisiau niweidiol eraill ar blant yng Nghymru, gan gydymffurfio â safonau hawliau dynol rhyngwladol[151]
- Galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddod â chwilio plant yn noeth i ben. Cyflwyno gofynion cofnodi ac adrodd gorfodol ar unwaith.
- Monitro gweithrediad llawn a chydymffurfiaeth â'r Fframwaith Lleihau Arfer Cyfyngol, ac adrodd ar gynnydd.
- Pan leolir plant o Gymru mewn lleoliadau gwarchodol yn Lloegr neu leoliadau gofal eraill, galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i rannu data priodol ynghylch achosion o ataliaeth a chysoni canllawiau ar draws y gwledydd
- Mynd ati'n systematig i gasglu a chyhoeddi data wedi'i ddadgrynhoi ynghylch defnyddio ataliaeth ac ymyriadau cyfyngol eraill ar blant ym mhob lleoliad gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol

## Cosb Gorfforol

Rydym ni'n canmol Llywodraeth Cymru am gyflwyno a gweithredu deddfwriaeth sydd wedi gwahardd cosb gorfforol i blant, a thrwy hynny roi amddiffyniad cyfartal i blant o dan y gyfraith.[152] Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyrch effeithiol, oedd yn cynnwys CSOs a phlant, i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newid yn y gyfraith, ac i gynnig dewis amgen cadarnhaol i rieni fel rhan o'r ymgyrch 'Rhowch Amser Iddo'.

Rhaid i Lywodraeth Cymru geisio gwireddu Erthyglau 19 a 37 yn llawn a sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu'n effeithiol trwy barhau i gynyddu ymwybyddiaeth o newidiadau, yn arbennig ymhlith rhai grwpiau yn y boblogaeth,[153] a chefnogi'r gwasanaethau hynny sy'n galluogi rhieni i ddefnyddio dulliau magu plant cadarnhaol, di-drais.

**Argymhellion**

---

[148] Equality and Human Rights Commission (2021) Restraint in schools inquiry: using meaningful data to protect children's rights
[149] Health Inspectorate Wales (2022) Independent Mental Health Service Inspection
[150] Children's Commissioner for Wales (2022) Response to HIW's latest inspection report on Hillview Hospital

[151] Children's Rights Alliance England are also recommending that, in the absence of prohibiting Taser and Spit-hood use on children, that the UK/Government publish guidance and training for police on their use to ensure they are only used as a last resort.
[152] Children (Abolition of Defence of Reasonable Punishment) (Wales) Act 2020
[153] For example, the W/Government's own analysis was that whilst awareness has been sufficiently raised – both of adults in Wales and of those visiting by targeting tourism destinations – there are still issues with reaching some groups of people, particularly those from ethnic minority communities

- Sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu'n effeithiol
- Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth gyda'r cyhoedd, a thargedu'r grwpiau hynny lle gallai ymwybyddiaeth a dealltwriaeth fod yn isel, ochr yn ochr â mynediad at wasanaethau cyngor a chefnogaeth magu plant sydd ag adnoddau llawn
- Dadansoddi effaith y Ddeddf ar sail nifer yr atgyfeiriadau i gymorth cyfiawnder anhroseddol a ddarperir gan awdurdodau lleol, ac ymgysylltu â CSOs ynghylch y llwyddiannau a'r anawsterau posibl a welwyd

## Rhyddid rhag pob math o drais

Amddiffyn plant

Ar 31 Mawrth 2021, roedd 2,470 o blant yng Nghymru ar y gofrestr amddiffyn plant (ond heb statws plant sy'n derbyn gofal).[154] Camdriniaeth emosiynol/seicolegol oedd y rheswm mwyaf cyffredin a gofnodwyd, ac roedd yn cyfrif am ychydig o dan hanner y cofrestriadau.[155] Fodd bynnag, mae'r ffigurau swyddogol yn amcangyfrif rhy isel o wir amlygrwydd trin plant yn wael, y mae asiantaethau amddiffyn plant yn aml heb gael gwybod amdano, ac sy'n gallu parhau'n guddiedig.[156] Bydd COVID-19 wedi gwaethygu'r sefyllfa o ran diffyg rhoi gwybod, gan fod llawer o blant heb eu gweld gan wasanaethau cyffredinol. Mae llofruddiaethau plant a gofnodwyd gan yr heddlu fel mesur diogelwch plant pwysig wedi parhau i ostwng, ond mae astudiaethau'n awgrymu bod nifer y plant sy'n marw lle ceir amheuon o gamdriniaeth yn uwch na'r ffigurau a gofnodwyd.[157,158]

Mae'r system amddiffyn plant yng Nghymru wedi bod yn destun craffu cynyddol yn dilyn marwolaeth drasig Logan Mwangi. Canfu'r adolygiad ymarfer plant broblemau ymarfer oedd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn lleol, gan gynnwys diffyg rhannu gwybodaeth priodol rhwng asiantaethau a diffyg hyder proffesiynol wrth roi gwybod am bryderon.[159] Mae hyn wedi arwain at alwadau i adolygu'r trefniadau presennol ac i Lywodraeth Cymru amlinellu'r camau nesaf ar gyfer gwella ymarfer ledled Cymru.

Camdriniaeth gorfforol (CG)

Mae tua 1 o bob 14 o blant yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu cam-drin yn gorfforol (CG).[160] Dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus barhau i ymateb yn effeithiol i bob achos o CG, pan fydd rhywun yn brifo plentyn yn fwriadol, gan achosi anaf. Gwaethygodd cyfyngiadau COVID-19 y risg i rai plant, gan fod llinell gymorth genedlaethol wedi cofnodi cynnydd o 53%

[154] W/Government (2021) Children receiving care and support on the Child Protection Register by local authority, category of abuse and gender
[155] Ibid
[156] Child Abuse Extent and Nature (2019) - Around 1 in 7 adults who called the NAPACs helpline in the latest year had not told anyone about their abuse before *(Eng/Wal figures)*
[157] Brandon, M. et al (2012) New learning from serious case reviews; a two year report for 2009-2011. See also ONS (2019) Homicide Rates in England and Wales
[158] Data available is from before the pandemic and we know that in Wales there have been a small number of tragic child homicides including that of Logan Mwangi in the summer of 2021. See Logan Mwangi murder: Mum, stepdad and teen sentenced - BBC News
[159] Cwm Taf Morgannwg Safeguarding Board (2022) Logan Mwangi Child Practice Review
[160] NSPCC (2021) Statistics briefing: physical abuse (nspcc.org.uk)

yn y cysylltiadau oedd yn pryderu ynghylch plant yn profi CG yn ystod y cyfnod clo, o gymharu â chyn hynny.[161] Dywedodd plant oedd yn defnyddio llinellau cymorth yn ystod cyfnodau clo hefyd fod cosb gorfforol wedi bod yn digwydd yn amlach.[162]

Yn 2020/21, bu mwy na 12,000 o bobl yn cysylltu â llinell gymorth genedlaethol ynghylch CG, sy'n golygu mai hwn oedd y pryder yn y 3ydd safle o ran amlder trafod, a'r 2il fath o gamdriniaeth y soniwyd amdano fwyaf, gyda mwy na 5,000 o sesiynau cwnsela'n cael eu cynnal gyda phlant.[163] Mae gwasanaethau'n gweld y ceisiadau am gymorth yn 'mudferwi' wedi'r cyfnodau clo, gyda risgiau ac anghenion mwy cymhleth.

Cam-drin Rhywiol (CSA)

Mae adroddiadau'n amlygu gostyngiad sy'n destun pryder yn y cynlluniau amddiffyn plant ar gyfer CSA yng Nghymru,[164] gyda nifer y plant ar y gofrestr oherwydd CSA yn gostwng 28% dros gyfnod o 10 mlynedd.[165] Mae hynny er gwaethaf nifer uchel o alwadau i linellau cymorth cenedlaethol ynghylch cam-drin ac esgeuluso.[166] Yn ystod y cyfnod clo, amlygodd gwasanaethau arbenigol sy'n gweithio gyda phlant sy'n oroeswyr bryderon nad oedd modd darparu cefnogaeth i blant ifanc oedd yn methu cael mynediad i gefnogaeth rithwir yn annibynnol, gan gynnwys therapi chwarae. Bydd goblygiadau wedi bod yn sgîl hynny o ran adferiad plant, yn ogystal ag o ran gwasanaethau cymorth arbenigol i ymateb i'r galw cynyddol.

Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Atal CSA[167] wedi dod i ben, ac ni chynhyrchwyd cynllun pellach er gwaethaf galwadau am gynllun ffres i barhau â'r cynnydd a wnaed hyd yma.[168] Mae pryderon yn parhau ynghylch argaeledd gwasanaethau cymorth arbenigol.[169] Mae amserau aros hir ar gyfer Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol,[170] nid oes cysondeb yn y cymorth sydd ar gael yn ddaearyddol, ac mae lefelau ariannu i'r dyfodol yn ansicr. Mae diffyg data, gwybodaeth am effaith a gwasanaethau i blant rhiant a arestiwyd am droseddau CSA ar-lein.[171]

### Argymhellion

- Mabwysiadu ymateb hirdymor, cynaliadwy, gwybodus am drawma i ddiogelu plant rhag trais ac esgeuluso
- Sicrhau bod plant sydd wedi profi camdriniaeth yn gallu cael mynediad at wasanaethau therapiwtig priodol, plentyn-ganolog, pan fo angen

---

[161] NSPCC (2020) the impact of the coronavirus pandemic on child welfare: physical abuse
[162] ibid
[163] NSPCC statistics briefing 2021, https://learning.nspcc.org.uk/media/2669/statistics-briefing-physical-abuse.pdf (England and Wales)
[164] The Centre of Expertise on Child Sexual Abuse (CSA)
[165] Evidence received from NSPCC Cymru - from 160 in 2007/08 to 115 in 2017/18
[166] Between June-September 2022, 14,030 contacts were made to Childline from across the UK about CSA (both on and offline). While 21,792 contact were made to the NSPCC helpline (about CSA), from adults concerned about a child.
[167] W/Government (2019) National Action Plan Preventing and Responding to Child Sexual Abuse
[168] A forthcoming report from the W/Parliament Cross-Party Group on Preventing CSA will present commentary on the impact of the first action plan, and will call for a second plan to continue the work and progress made to date.
[169] Evidence received from NSPCC Cymru
[170] Crouch-Puzey, E. (2018) State of the Sector Welsh Women's Aid
[171] Evidence received from Tarian Regional Organised Crime Unit

- Ymdrin â CSA mewn dull iechyd cyhoeddus ac ymrwymo i gyhoeddi Cynllun CSA wedi'i adnewyddu, ochr yn ochr ag adroddiad asesiad effaith ar y Cynllun blaenorol.

Aflonyddu rhywiol ymhlith cyfoedion

Mae graddfa ac effaith aflonyddu ymhlith cyfoedion yn ddwys, ac yn dod yn fwyfwy amlwg, gan gael effaith negyddol ar iechyd meddwl plant, eu perthnasoedd a'u haddysg.[172] Er gwaethaf her sicrhau ffigurau manwl gywir, canfu gwaith ymchwil fod 61% o ferched a 29% o fechgyn yn sôn am brofi aflonyddu rhywiol, bod hynny'n treiddio i'w bywydau yn yr ysgol a'r tu allan, yn ogystal ag ar-lein, a bod plant LHDTC+ a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol yn wynebu risg arbennig.[173] Mae'r awduron yn dod i'r casgliad ei fod mor gyffredin nes cael ei normaleiddio. Dywedodd bron hanner yr holl blant oedd wedi profi aflonyddu nad oeddent wedi datgelu achosion i oedolyn.

**Argymhellion**

- Sicrhau bod argymhellion Pwyllgor Senedd Cymru yn cael eu gweithredu'n llawn, a bod plant yn cyd-ddylunio'r ymateb.
- Comisiynu adolygiad o amlygrwydd aflonyddu ymhlith cyfoedion yn achos plant iau, gan sicrhau bod CSOs plant yn cael eu cynnwys yn y broses

Diogelwch Ar-lein

Mae graddfa a chwmpas CSA ar-lein wedi bod yn cynyddu'n gyson:

- Canfu'r adroddiad gan Ymchwiliad Annibynnol y Deyrnas Unedig i CSA fod cynnydd diweddar, sylweddol i'w weld mewn CSA ar-lein, gan gynnwys ffrydio byw.[174]
- Bu cynnydd ar ei ddegfed yn y troseddau CSA ar-lein a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn ystod y degawd diwethaf.[175]
- Mae'r effaith ar ferched yn anghymesur, gydag ymchwil yn dangos mai merched yw 80% o'r dioddefwyr mewn troseddau paratoi amhriodol ar-lein.[176]
- Mae paratoi amhriodol yn fater sy'n digwydd yn gynyddol ar draws platfformau, gyda'r heddlu yng Nghymru a Lloegr yn nodi 70 o wahanol apiau a gêmau a fu'n ymwneud â throseddau paratoi amhriodol yn ystod y 12 mis diwethaf yn unig.[177] Yn aml defnyddir safleoedd cyfryngau cymdeithasol lluosog fel rhan o'r un drosedd.
- Mae'r bygythiad i ddiogelwch plant ar-lein yn esblygu'n barhaus wrth i dechnolegau newydd gael eu cyflwyno sy'n achosi mathau newydd o niwed. Mae amgylcheddau realiti rhithwir (VR) a throchol, megis y metasawd (metaverse) yn cyflwyno cyfleoedd sy'n destun pryder i achosi niwed dyfnach. Mae hyn yn cynnwys bygythiadau newydd

[172] W/Parliament Children, Young-people and Education (2022) Everybody's affected: peer on peer sexual harassment amongst learners
[173] Estyn (2021) 'We don't tell our teachers': Experiences of peer-on-peer sexual harassment amongst secondary school pupils in Wales, December 2021
[174] Independent Inquiry Child Sexual Abuse (2022) IICSA Report, October 2022, p4 - The Inquiry found the sexual abuse of children was live streamed for money, at times at the direction of the person paying to view the abuse. While most internet companies either prohibit or discourage children under 13 years from accessing their platforms, the Inquiry repeatedly heard evidence that under 13-year-olds easily accessed their services and that they were at significant risk of being groomed.
[175] NSPCC data on a freedom of information request to police forces in England and Wales, August 2021
[176] NSPCC research, (2021) https://www.nspcc.org.uk/about-us/news-opinion/2021/online-grooming-crimes-girls/
[177] NSPCC data on a freedom of information request to police forces in England and Wales, August 2021

o ran paratoi amhriodol wrth i'r ffin rhwng cyflawnwyr hysbys ac anhysbys fynd yn fwy annelwig.

- Cynyddodd CSA ar-lein hefyd yn ystod y cyfnod clo, gan greu 'storm berffaith' wrth i blant dreulio mwy o amser ar-lein, gyda throseddwyr yn manteisio ar yr argyfwng a llai o gymedrolwyr ar gael i asesu ac atal niwed. Mae CSOs hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y plant iau sy'n profi niwed ar-lein.[178]

Mae Bil Diogelwch Ar-lein y Deyrnas Unedig, sy'n aros i fynd trwy Senedd y Deyrnas Unedig, yn cynrychioli mesur amddiffyn plant hanfodol er mwyn cyflwyno system reoliadol a fydd yn mynd i'r afael â niwed ar-lein i blant. Mae CSOs yn galw am basio'r Bil heb oedi na gwanhau. Yng Nghymru, bydd 200+ o blant yn dioddef cam-drin rhywiol ar-lein bob mis tra bod oedi gyda'r Bil.[179]

Yng Nghymru ers 2018 crynhoir dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â diogelwch plant ar-lein yn eu cynllun gweithredu cenedlaethol, ac ychwanegir camau gweithredu newydd o flwyddyn i flwyddyn.[180] Yn 2020, ehangwyd cwmpas y dull gweithredu hwn i gynnwys seiber-wydnwch a diogelu data, ac fe'i mabwysiadwyd fel maes ar-lein ar Hwb y Porth Addysg. Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu bwriad i sefydlu Bwrdd Ymgynghorol Plant a Phobl Ifanc i helpu i lunio'r cynllun wrth symud ymlaen.

Mae angen i ddull gweithredu Llywodraeth Cymru gadw ffocws clir ar ddiogelwch plant ar-lein, a rhoi blaenoriaeth i hynny. Mae angen sicrhau metreg a dangosyddion i fesur ac olrhain llwyddiant ac effeithiolrwydd camau gweithredu o dan y cynllun.

**Argymhellion**

- Galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i basio'r Bil Diogelwch Ar-lein heb wanhau nac oedi, a symud ymlaen gyda mesur amddiffyn plant ar frys
- Ystyried proses adolygiad cyfnodol ar gyfer cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru, gyda'r bwrdd ymgynghorol PPI yn ei chefnogi ac yn cael mewnbwn iddi. Gellid amseru adolygiadau yn unol â thymor Senedd Cymru (bob 5 mlynedd). Byddai Adolygiadau Cyfnodol yn caniatáu craffu, cymryd stoc o gynnydd, ac archwilio meysydd a fyddai'n elwa o ffocws neu adnoddau ychwanegol o ystyried esblygiad amgylchedd deddfwriaethol yr UE a'r Deyrnas Unedig. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut i wneud y canlynol:
  i) Gweithredu a chymhwyso argymhellion perthnasol o adroddiad IICSA i blant Cymru
  ii) Cefnogi gweithrediad fframwaith rheoliadol effeithiol a chwbl ddwyieithog, fel y cynigiwyd gan y Bil Diogelwch Ar-lein, a fydd yn gwella'r amddiffyniad i blant Cymru ar-lein

[178] how-to-win-the-wild-west-web-report.pdf (nspcc.org.uk)
[179] NSPCC analysis of Home Office crime data
[180] W/Government (2022) Enhancing digital resilience in education: An action plan to protect children and young-people online. As it currently stands, the action plan runs to 79 actions covering 7 core areas, namely: (i) Advice and Support; (ii) Collaboration (iii) Communication and Promotion; (iv) Guidance and Policy; (v) Research; (vi) Resources and (vii) Training and Development. A summary of key actions can be found here, published for the first time in 2022

iii) Asesu goblygiadau argymhellion Comisiwn y Gyfraith i estyn cwmpas troseddau seiliedig ar ddelweddau yn y blynyddoedd nesaf [181], gan sicrhau nad yw plant yn cael eu troseddoli'n ormodol, a'u bod yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol
iv) Rhoi trefniadau eiriolaeth defnyddwyr cryf ar waith[182] ar gyfer plant a'u sicrhau, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn sicrhau bod y drefn reoliadol yn y dyfodol yn llwyddo i leihau'r niwed i blant ac yn clywed eu lleisiau.

Ecsbloetio Troseddol / Ecsbloetio Plant yn Rhywiol (CE/CSE)

Gall unrhyw blentyn wynebu ecsbloetio troseddol, beth bynnag yw ei oed, ei rywedd neu ei ethnigrwydd.[183] Mae risg gynyddol CE/CSE[184] ymhlith plant yn cael ei sbarduno'n rhannol gan lefelau cynyddol o dlodi[185], gydag ymchwiliad diweddar yn disgrifio graddfa'r risg hon a'r ymateb iddi gan awdurdodau perthnasol sy'n gyfrifol am ddiogelu plant fel testun pryder arbennig.[186] Credir bod dros 1,000 o rwydweithiau cyffuriau 'County Lines' ar draws y Deyrnas Unedig – cynnydd bedair gwaith dros gyfnod o bedair blynedd – gyda gangiau troseddol yn recriwtio plant agored i niwed sydd mor ifanc â 13.[187] Mae delio mewn pobl yn rhan o'r math yma o droseddu a chamdriniaeth, ac mae mwy o blant yn cael eu troseddoli am droseddau cysylltiedig â chyffuriau.[188] Mae pryderon bod plant agored i niwed sydd o bosibl wedi profi lefelau sylweddol o drawma heb dderbyn cefnogaeth gan y gwasanaethau statudol oherwydd trothwyon cymhwysedd uchel, yn awr yn cael eu troseddoli am ymwneud â gweithgaredd troseddol, yn hytrach na chael eu cydnabod fel dioddefwyr CSE.[189] Mae llawer ohonynt heb rwydweithiau cefnogi ac yn cael eu targedu'n benodol gan grwpiau troseddol. Mae llawer o blant sy'n mynd ar goll am gyfnodau estynedig mewn perygl o wynebu CSE/CE a gallant gael eu masnachu,[190] ond nid ydynt bob amser yn cael eu clywed nac yn meddu ar weithiwr cymdeithasol penodol.[191]

**Argymhelliad**

- Gweithio gyda chyrff cyhoeddus i sicrhau bod mwy o amddiffyniad yn cael ei ddarparu i atal plant rhag dioddef CE/CSE, ac i fonitro gweithrediad y canllawiau statudol ynghylch CSE

Cam-drin Domestig (CD)

Mae digon o dystiolaeth y gall profi CD yn y cartref gael effaith niweidiol hirhoedlog ar ddatblygiad iechyd corff a meddwl plentyn, gyda goblygiadau ar gyfer ymddygiad seicolegol ac sy'n niweidio iechyd i mewn i oedolaeth.

---

[181] Law Commission, Intimate image abuse: final report, July 2022
[182] NSPCC advocacy-policy-paper.pdf (nspcc.org.uk)
[183] Maxwell, N. (2022) County lines: a co-ordinated Welsh community response to child criminal exploitation, CASCADE: Cardiff University. See also Complex Safeguarding Wales
[184] Hallet, S. et al (2019) Keeping Safe Cardiff University
[185] Evidence received from Barnardo's Cymru
[186] Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2022) Child sexual exploitation by organised networks investigation report, February 2022
[187] BBC Wales (2018) https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-44127068
[188] Guardian (2018) Rise in drug arrests
[189] Evidence received from Llamau
[190] All-Wales Practice Guide (2021) Safeguarding children who go missing from home or care
[191] Evidence received from Action for Children

Mae cyfraddau'r CD yr adroddwyd amdano wedi cynyddu 83% yn ystod y 4 blynedd diwethaf,[192] gyda phlant yn ddioddefwyr ac yn dystion. Amcangyfrifir bod o leiaf 130,000 o blant yn byw mewn aelwydydd lle bernir bod 'risg uchel' CD yng Nghymru a Lloegr.[193] Mae ymchwil y Deyrnas Unedig yn dangos bod 12% o'r plant o dan 11 oed ac 17.5% o'r rhai 11–17 oed wedi dod i gysylltiad â CD rhwng oedolion yn eu cartref yn ystod plentyndod.[194] Yn ystod cyfnodau clo COVID-19 roedd pryderon bod plant wedi'u hynysu oddi wrth ddarparwyr cymorth, mewn sefyllfaoedd a allai fod yn anniogel, a bod eu lleisiau'n mynd ar goll.[195] Gan fod gwasanaethau cyffredinol yn methu gweld plant, cynyddodd y pwysau ar y gwasanaethau arbenigol, a welodd gynnydd yn y galw. Profodd llinellau cymorth hefyd lefel uwch o gyswllt.[196,197]

Er gwaethaf deddfwriaeth arloesol Llywodraeth Cymru,[198] mae'r gweithredu wedi bod yn araf, a'r adnoddau'n gyfyngedig. Mae darpariaeth anghyson ac annigonol i blant sy'n oroeswyr ar draws Cymru. Mae gwasanaethau VAWDASV arbenigol yn sôn am ddiffyg cyllid ar gyfer y gwaith penodol hwn, gyda rhai ardaloedd yn dweud bod fawr ddim yn cael ei gynnwys, os o gwbl. Disgrifiodd adroddiad diweddar hyn fel 'loteri côd post' ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr ac yn chwilio am gefnogaeth.[199] Yn dilyn ymyrraeth gan CSOs, bydd Strategaeth Genedlaethol newydd VAWDASV (2022-26)[200] yn cynnwys is-grŵp penodol sy'n canolbwyntio ar anghenion plant er mwyn helpu i wneud iawn am y bylchau o ran ataliaeth, amddiffyniad a chefnogaeth. Mae mapio'r ddarpariaeth o wasanaethau CD arbenigol i blant gan CSOs yn cadarnhau bod angen brys am adnoddau i ddiwallu'r angen,[201] canfyddiadau y disgwylir i'r Comisiynydd CD eu hategu.[202] Yn ystod 2018/19, gwyddys bod 4,263 o blant wedi cyrchu rhyw fath o wasanaeth VAWDASV arbenigol yng Nghymru, o gymharu â'r amcangyfrif o 18,487 o blant sy'n profi camdriniaeth mewn blwyddyn. Amcangyfrifir na chafodd 77% o'r plant a ddioddefodd effaith CD gymorth arbenigol.[203]

### Argymhellion

- Monitro gweithrediad Canllawiau Comisiynu a Strategaeth Genedlaethol VAWDASV i sicrhau bod gwasanaethau cymorth ac adferiad arbenigol ar gael i blant sy'n ddioddefwyr mewn llochesi ac yn y gymuned, ym mhob rhan o Gymru
- Sicrhau cyllid digonol, cynaliadwy i'r sector VAWDASV arbenigol er mwyn cefnogi pob plentyn sydd angen hynny, gan gynnwys mewn llochesi ac adferiad therapiwtig

---

[192] BBC Wales (2019) https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50565513 -Across all 4 Welsh Police forces, domestic abuse reports rose from 18,960 in 2015-16 to 41,532 in 2018-19
[193] SafeLives (accessed 2020)
[194] Radford, L. et al (2011) Child abuse and neglect in the UK today London: NSPCC
[195] Welsh Women's Aid (2020) Written evidence to W/Parliament CYPE Committee inquiry into the impact of COVID-19
[196] NSPCC (2020) The impact of the coronavirus pandemic on child welfare: domestic abuse - Contact to NSPCC helpline about DA rose from an average of around 140 contacts a week before lockdown, to an average of around 185 contacts a week since the government's stay at home guidance was issued, with Childline counselling for DA increasing from 50 to 65 a week.
[197] NSPCC (2021) The impact of domestic abuse on children and young-people from the voices of parents and carers. • In 2020/21 (1st April 2020 – 31st March 2021) the NSPCC helpline responded to over 11,600 contacts about domestic abuse, an increase of 35% compared to 2019/20.
[198] Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (VAWDASV) 2015 Act
[199] Joyce Watson MS and Welsh Women's Aid (2022) A duty to support: A research report reviewing support for children and young-people experiencing violence and abuse in Wales
[200] W/Government (2022) Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Strategy 2022-26
[201] Welsh Women's Aid (2019) Children Matter
[202] The Domestic Abuse Commissioner for England and Wales is also undertaking a mapping exercise of service provision. The full report is expected Autumn 2022, but early findings reinforce the urgent need for more resources. With just 29% of survivors who wanted support for their children able to access it .
[203] Ibid

- Ymrwymo i ymchwiliad i gomisiynu a darparu gwasanaethau arbenigol digonol i blant ledled Cymru y mae VAWDASV wedi effeithio arnynt

## Arferion Niweidiol

Er bod Pwyllgor y CU yn croesawu'r ffaith bod Deddf Troseddau Difrifol (2015) wedi dod i rym[204], gan alluogi llysoedd i gyflwyno gorchmynion amddiffyn i amddiffyn plant sy'n ddioddefwyr gwirioneddol neu bosibl llurgunio organau rhywiol merched (FGM), mae pryderon yn parhau ynghylch nifer y plant y mae arferion niweidiol yn effeithio arnyn nhw, gan gynnwys FGM, cam-drin ar sail anrhydedd (HBA) a phriodas drwy orfodaeth.

Er gwaethaf adroddiadau annigonol, yn y flwyddyn yn diweddu ym mis Mawrth 2022, cofnodwyd 2,887 o droseddau cysylltiedig ag HBA gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, cynnydd o 6% o gymharu â'r flwyddyn yn diweddu ym mis Mawrth 2021 (pan fu 2,725 o droseddau).[205] Er bod rhai CSOs wedi croesawu'r orfodaeth i gyhoeddi data blynyddol a'r cynnydd mewn troseddau a gofnodwyd, gan gyfeirio at y rhwystrau lluosog mae dioddefwyr yn eu hwynebu wrth gamu mlaen a galluogi darparu cymorth amserol i'r rhai sy'n cyflwyno'u hunain,[206] mae cyfyngiadau clir ar y data sy'n cael ei ddarparu. Nid yw'r data a gyhoeddir yn mesur faint o ddioddefwyr, gan gynnwys plant, mae HBA yn effeithio arnyn nhw, ac mae diffyg amlwg o ddata Cymru'n unig o hyd i gasglu gwybodaeth am ei amlygrwydd. Heb ddata clir, cadarn ac ystyrlon, ni ellir deall yn llawn wir gwmpas, graddfa ac amlygrwydd HBA ac ymateb y System Cyfiawnder-Troseddol i ddioddefwyr a chyflawnwyr.[207] Mae data arall swyddogol, yn y cyfamser, yn dangos bod 35% o'r achosion y bu'r Uned Priodas drwy Orfodaeth yn rhoi cefnogaeth neu gymorth iddyn nhw yn blant.[208] Mae ymchwil annibynnol flaenorol ynghylch FGM wedi amcangyfrif bod 144,000 o ferched mewn perygl o wynebu FGM yn y Deyrnas Unedig, a chredir bod y mwyafrif o achosion yn digwydd cyn bod plentyn yn 8 oed.[209]

Er ein bod yn croesawu'r camau a gymerwyd yng Nghymru i daclo arferion niweidiol trwy ganllawiau statudol a chanllawiau arfer diogelu Cymru gyfan i gefnogi ymarferwyr wrth ymateb i drais yn erbyn plant,[210] mae angen mwy o hyfforddiant rheolaidd ac arbenigol i sicrhau bod ymarferwyr yn gwella'u dealltwriaeth a'u hymateb, er mwyn cefnogi plant yn well fel dioddefwyr arferion niweidiol.

Mae deddfwriaeth ddiweddar yn y Deyrnas Unedig[211] sy'n codi isafswm oed priodas a phartneriaeth sifil i 18 o dan bob amgylchiadau wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol, a bydd yn

204 Serious Crime Act (2015)
205 Home Office (2022) Statistics on honour based abuse offences, England and Wales, 2021-22
206 Karma Nirvana (2022) Honour Based Abuse offences rise by 6%
207 ibid
208 Home Office (2022) Forced Marriage Unit Statistics 2021.Caution should be taken with figures released by the Home Office Forced Marriage Unit which show a significant fall in case numbers being recorded (adults and children), which can be put down to a procedural changes in the way cases are logged.
209 City University (2015) Prevalence of FGM in England and Wales
210 Wales Safeguarding Procedures (2021) Safeguarding Children from Harmful Practices related to tradition, culture, religion or superstition
211 Ministry of Justice (2022) Implementation of the Marriage and Civil Partnership (Minimum Age) Act 2022

dod i rym ym mis Chwefror 2023. Bydd hyn yn ehangu cwmpas tramgwydd droseddol priodas drwy orfodaeth wrth sicrhau bod trefnu i blentyn briodi bob amser yn anghyfreithlon, hyd yn oed os na ddefnyddir trais, bygythiadau neu unrhyw fath arall o orfodaeth. Mae hyn yn cau bwlch cyfreithiol sy'n caniatáu i bobl ifanc 16-17 oed briodi gyda chydsyniad eu rhieni.[212]

### Argymhellion

- Sicrhau bod mesurau atal ac amddiffyn yn cael eu cryfhau i roi sylw i bob arfer niweidiol yn erbyn plant, a sicrhau bod ymwybyddiaeth broffesiynol a chyhoeddus o HBA yn cael ei gwella
- Galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i wella'u setiau data a gwella casglu data, wedi'i rannu yn ôl oedran a gwlad

[212] Guardian (2021) Child marriage thriving in the UK due to legal loophole, warns rights groups

# AMGYLCHEDD Y TEULU A GOFAL AMGEN

## Cefnogaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Mae gan bob plentyn yng Nghymru hawl i'r dechrau gorau mewn bywyd. Mae gan Gymru system ranedig o Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar (ECEC), gyda gofal plant yn canolbwyntio ar gefnogi cyflogaeth rhieni (gydag ystod o drefniadau cymhorthdal galw a chyflenwad), a chynnig addysg gynnar cyffredinol a ariannir o ran cyflenwi ar gyfer plant 3-4 oed.[213]

Gall llawer o deuluoedd gael mynediad at rywfaint o ofal plant am ddim neu wedi'i noddi, ond mae'r argaeledd yn gyfyngedig, mae'r cymhwysedd yn gyfyngol, ac nid yw'r gwasanaeth yn gyffredin i bawb.

Mae'r Cynnig Gofal Plant i Gymru, a ariannir gan Lywodraeth Cymru[214] yn rhaglen genedlaethol sy'n cefnogi rhieni sy'n gweithio a'r rhai sydd mewn addysg neu hyfforddiant, gyda mwy na 17,000 o blant 3-4 oed yn awr yn cael mynediad at ofal plant am ddim. Er bod y gwerthusiad diweddar yn gyffredinol gadarnhaol ac wedi canfod bod y Cynnig wedi helpu teuluoedd incwm isel fwyaf, mae angen gwella ymwybyddiaeth ymhlith teuluoedd.[215] Mae CSOs a CPC yn parhau i alw am estyn y Cynnig i blant o deuluoedd sydd ddim yn gweithio, sy'n tueddu i fod yn byw mewn tlodi, ac yn teimlo effaith yr argyfwng Costau Byw fwyaf [216] a grwpiau oed eraill.[217] Nid yw hyn wedi'i dderbyn eto.

Er bod y Cynnig Gofal Plant wedi sicrhau dull gweithredu mwy cynhwysol sy'n cefnogi dewis rhieni ac yn adlewyrchu anghenion y plentyn, yr her fwyaf mae'r sector gofal plant yn ei hwynebu ar hyn o bryd yw cadw, recriwtio a morâl cyffredinol y gweithlu, a waethygwyd gan COVID-19. Oni bai bod cyfraddau ariannu yn derbyn sylw, gallai fod canlyniadau negyddol o ran capasiti a'r ddarpariaeth o safon sydd ar gael i blant.[218]

Rhaglen yw Dechrau'n Deg ar gyfer plant 0-3 oed y mae eu teuluoedd yn byw mewn ardaloedd difreintiedig penodol, gyda rhyw 25% o blant dwy oed mewn ardaloedd a ragnodwyd yn derbyn gofal plant rhan amser a ariannir o ran y cyflenwad fel rhan o becyn ehangach o gymorth rhianta a datblygiadol sy'n cynnwys gwasanaeth ymwelwyr iechyd lefel uwch, cymorth i fagu plant, a chymorth iaith a lleferydd. Fodd bynnag, mae rhyw 44% o blant o gefndir difreintiedig o ran incwm yn anghymwys oherwydd eu bod yn byw tu allan i ardaloedd daearyddol a ddiffiniwyd ymlaen llaw.[219]

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ehangu gofal plant am ddim i blant dwy oed i'r holl blant y mae eu rhieni'n bodloni meini prawf cymhwyedd mwy eang[220] trwy ddull gweithredu

---

[213] Wales UNCRC Monitoring Group & Children in Wales (2020) Thematic Report: Early Years

[214] The Childcare Offer for Wales provides eligible parents with a mixture of 30 hours a week of free childcare or early education for children aged 3 or 4 for 48 weeks of the year

[215] W/Government Social Research (2022) Evaluation of Year 4 of the Childcare Offer

[216] Evidence from the Early Years Action Group. See also Written evidence from the Children's Commissioner for Wales; Children in Wales to the W/Parliament Equality and Social Justice Committee's inquiry into childcare and parental employment (2021)

[217] For example, see Cwlwm (2021) Childcare and parental employment: the pandemic and beyond: written evidence to the W/Parliament Equality and Social Justice Committee's inquiry into childcare and parental employment (2021

[218] W/Government Social Research (2022) Evaluation of Year 4 of the Childcare Offer

[219] Save the Children (2018) Little Pieces, Big Picture

[220] The eligibility criteria has been widened to include parents in education and those 'on the edge of work'

graddol[221] mewn cymunedau a nodwyd fel y rhai â'r angen mwyaf, ochr yn ochr ag arian i gefnogi lleoliadau sydd eisoes yn bodoli i ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg. Dylai hyn greu mwy o gyfleoedd i'r plant ifancaf gael mynediad at ofal plant o safon uchel yn eu dewis iaith a lleihau rhai o'r bylchau presennol yn y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae'n dal yn wir y bydd rhai plant mewn teuluoedd incwm isel yn anghymwys i gael mynediad i'r gofal plant hwn oherwydd statws cyflogaeth ac addysg eu rhieni, neu oherwydd eu bod yn byw tu allan i'r ffiniau daearyddol. Ar ben hynny. dim ond yr elfen gofal plant sy'n cael ei hestyn o fis Ebrill 2023.[222]

Bu gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant yng Nghymru, gyda'r niferoedd yn lleihau bron 18% ers 2014.[223] Mae nifer y gwarchodwyr plant newydd a gofrestrodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi gostwng 51%, gyda'r dadgofrestriadau'n codi 58% o'r flwyddyn flaenorol.[224] Mae'r ystadegau hyn yn peri pryder, gyda galwadau am grantiau gwell i gychwyn busnes, a chyfatebiaeth â darpariaeth arall er mwyn medru ymateb i ddewisiadau rhieni a chefnogi canlyniadau gwell i blant.[225]

At ei gilydd, mae'r system gofal plant yn dal heb gyflawni ei photensial llawn, gan fod rhwystrau'n parhau mewn perthynas â digonolrwydd, hygyrchedd, ansawdd, argaeledd a chost,[226] yn ogystal â darpariaeth ar gyfer plant hŷn ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae 19% o'r Clybiau Gofal Plant y tu allan i'r Ysgol wedi cau ers mis Mawrth 2020.[227] Dylai cyflawni system ECEC integredig genedlaethol o safon uchel fod yn elfen allweddol wrth ymadfer o effeithiau economaidd COVID-19, a helpu i atal plant difreintiedig yn arbennig rhag syrthio ymhellach ar ôl yn ddatblygiadol ac yn addysgol, yn enwedig yng ngoleuni'r argyfwng Costau Byw presennol.

**Argymhellion**

- Sicrhau bod gan bob plentyn fynediad at ofal plant o safon uchel, fel rhan o system ECEC gydlynus ac integredig
- Ehangu'r meini prawf cymhwyster ar gyfer y Cynnig Gofal Plant a gofal plant Dechrau'n Deg i sicrhau bod pob plentyn mewn tlodi yn gallu cael mynediad at ofal plant am ddim, gyda'r uchelgais o sicrhau mynediad cyffredinol at ddarpariaeth a ariannir
- Adolygu'r gyfradd ariannu a gynigir i ddarparwyr am gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant er mwyn helpu i ymdrin ag anawsterau recriwtio a chadw, ochr yn ochr ag ystyried goblygiadau unrhyw gynnydd yn y gyfradd ariannu o safbwynt cost a chyflwyno gwasanaethau eraill blynyddoedd cynnar.

---

[221] Phase one of this expansion began in September 2022 and includes the delivery of all four core elements of the Flying Start Programme to an additional 2,500 children across Wales. Phase two will commence in April 2023 and will focus on delivering the high-quality childcare element of the Flying Start Programme to around 3,000 more children aged between two to three years
[222] A 3rd phase is due to be introduced in 2025, informed by learning from the first two phases. See W/Government (2022) Phased expansion of Early Years provision
[223] Care Inspectorate Wales (2020) Chief Inspectors Annual Report 2019-20
[224] Care Inspectorate for Wales (2022) Chief Inspectors Annual Report 2021-22
[225] Pacey Cymru (2022) referenced in evidence received from the Early Years Action Group
[226] See for example, Report and Summary of Engagement with Parents report to the W/Parliament Equality and Social Justice Committee's inquiry into childcare and parental employment (2021); Coram Family and Childcare Trust (2020) Childcare Survey 2020
[227] Clybiau Plant Cymru (2021) State of the Out of School Sector

## Cymorth i Deuluoedd

Mae ar blant o bob oed angen amgylcheddau cartref hapus a iach, gyda pherthnasoedd ac ymlyniad cryf rhwng oedolion a phlant i ffynnu. Mae hynny'n arbennig o wir am fabanod a phlant ifanc. Mae COVID-19 wedi bwrw goleuni ar yr heriau a wynebir gan fod llawer o blant yn byw mewn sefyllfa gartref sy'n llai na delfrydol, sy'n galw am ymateb mwy cyfannol na dibynnu ar ysgolion a lleoliadau gofal plant i fod yn ateb i gefnogi anawsterau'r teulu ehangach.

Mae teuluoedd yn cael mynediad at ystod o wasanaethau cyffredinol ac arbenigol cymorth i deuluoedd, sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac ataliaeth, gan ddarparu cymorth seiliedig ar gryfder i feithrin a chreu teuluoedd cadarn, hunan-ddibynnol.[228] Mae'r gwasanaethau hyn, a ategir gan adnodd cyngor a chymorth rhianta cenedlaethol estynedig,[229] yn cynnig dolen gyswllt hanfodol rhwng amgylchedd y cartref, gwasanaethau gofal statudol a darpariaeth addysg. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i greu system cymorth i deuluoedd ddi-fwlch, gwbl integredig, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn derbyn ystod lawn o gefnogaeth sy'n cyfateb i'w hanghenion, a bod rhaglenni rhianta yn cynnal ffocws delfrydol ar yr amgylchedd dysgu gartref, gan gydnabod y gall fod angen cefnogaeth ar bob rhiant ar wahanol adegau yn natblygiad eu plentyn.[230]

Mae gwasanaethau plant statudol wedi profi toriadau cyllideb sylweddol yn ystod y degawd diwethaf. Er i awdurdodau lleol dderbyn cyllid ychwanegol i helpu i ymdrin â chanlyniadau COVID-19, mae pryderon yn parhau ynghylch eu capasiti presennol i ymateb i angen cynyddol, gyda'r argyfwng Costau Byw[231] yn rhoi sefyllfa ariannol teuluoedd, iechyd meddwl a pherthnasoedd o dan fwy o bwysau, ac ychwanegu'n sylweddol at straen llwythi achosion gwaith cymdeithasol.

Mae buddsoddi i wella gwasanaethau ymyrraeth gynnar sy'n hybu sefydlogrwydd teuluoedd, yn datrys gwrthdaro ac yn helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, er enghraifft, cynadleddau grŵp teulu,[232] eiriolaeth rhieni,[233] ac sy'n cefnogi plant ar gyrion gofal i gael llais mewn penderfyniadau[234] wedi cael eu croesawu. Ond mae angen adnoddau ychwanegol i ymateb i'r galw cynyddol a sicrhau mynediad teg ym mhob rhanbarth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eu bwriad i ddarparu cynllun bwndeli babanod cenedlaethol, a fydd ar gael yn ddiwahân i rieni newydd a darpar rieni. Byddai'r bwndeli'n cael eu cynnig i bob teulu yn ddi-dâl ar gyfer pob baban a enir. Mae gwaith ymchwil ac

[228] For example, Families First is a national programme providing multi-agency systems of support with a clear emphasis on early intervention, prevention and tackling child poverty
[229] 'Parenting Give it Time' website providing parenting advice and support promoting the many benefits of positive parenting.
[230] Evidence received from the Early Years Action Group
[231] Nesta (2022) Cost-of-Living crisis pushing worried parents to the edge with 2 in 3 concerned about paying for essentials, September 2022
[232] W/Government (2020) Written statement: Support for families and vulnerable children
[233] Parent advocacy aims to support families to stay together through relationship building.  This services is offered by NYAS Cymru and TGP Cymru in Wales
[234] Evidence received from CREYEN, providing examples of meetings where children had their voices heard and views shared in helping to create a successful plan moving forward.

ymgysylltu yn digwydd gyda rhieni, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd i lywio'r datblygiad, gan gynnwys eu cynnwys a'r broses gofrestru.[235]

**Argymhellion**

- Darparu'r adnoddau angenrheidiol i alluogi cyrff cyhoeddus i sicrhau bod plant agored i niwed yn derbyn cymorth amserol a digonol, ac yn cael mynediad teg at wasanaethau o safon uchel er mwyn helpu i atal anghenion rhag esgaladu
- Sicrhau bod gan wasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth yr adnoddau angenrheidiol i ymateb i'r galw cynyddol a helpu i atal teuluoedd rhag chwalu
- Sicrhau bod y cynllun bwndeli babanod yn destun prosesau monitro, gwerthuso, adolygu ac adrodd cadarn

## Plant sydd â Phrofiad o Ofal

Ar 31 Mawrth 2022, roedd 7,080 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru, gostyngiad bychan o 2% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[236] Fodd bynnag, mae'r ffigur yma'n cynrychioli cynnydd o 24% o gymharu â 10 mlynedd yn ôl, ac mae'r gyfradd yn dal yn sylweddol uwch nag yn Lloegr. Roedd 69% yn cael eu lletya mewn lleoliadau gofal maeth, gostyngiad graddol yn y gyfran yn ystod blynyddoedd diwethaf, a bron traean yn cael eu lleoli gyda pherthnasau neu ffrindiau. Yn ystod 2020-21, dechreuodd 1,691 o blant dderbyn gofal, gostyngiad o 4% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd 62% o'r rhai a ddechreuodd dderbyn gofal yn cael gofal oherwydd camdriniaeth neu esgeuluso.[237] Bu rhai CSOs yn galw am wahanu'r data ar y categorïau hyn.[238]

Bu cynnydd sydyn yng nghyfran y babanod a ddaeth yn destun achosion gofal adeg eu geni, neu'n gynnar ym mlwyddyn gyntaf eu bywyd. Mae cyfradd y babanod newydd-eni sy'n rhan o achosion gofal wedi mwy na dyblu dros gyfnod o dair blynedd.[239] Yn 2015, am bob 10,000 o fabanod a anwyd, daeth 39 yn destun achosion gofal. Erbyn 2018, roedd hynny wedi codi i 83.[240] Roedd 52% o'r holl fabanod (o dan 1 oed) oedd yn destun achosion gofal yn llai na 2 wythnos oed, ac roedd babanod o dan 1 flwydd oed yn cyfrif am ryw 30% o'r holl achosion Adran 31 yng Nghymru.[241] Mae ymchwil wedi datgelu bod menywod beichiog sydd mewn perygl o gael eu babanod wedi'u symud o'u gofal yn ystod blwyddyn gyntaf eu bywyd yn llawer mwy tebygol o fod wedi cael problemau iechyd meddwl na menywod eraill beichiog.[242]

Ymhlith y 22 o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru, mae amrywiadau'n parhau o ran cyfradd a nifer y plant sydd mewn gofal[243] ac a ydynt yn cael eu lleoli o fewn neu'r tu allan

[235] W/Government (2022) Written Statement: An update about progressing a national baby bundles scheme
[236] W/Government (2022) Children looked after by local authorities: April 2021 to March 2022, published 22 November 2022
[237] ibid
[238] Evidence received from NYAS Cymru
[239] Nuffield Family Justice Observatory (2019) 'Born into Care: new-borns and infants in care proceedings in Wales',
[240] Ibid
[241] Ibid
[242] Griffiths, L.J. et al. (2020). Born into care: One thousand mothers in care proceedings in Wales. London: Nuffield Family Justice Observatory.
[243] Wales Centre for Public Policy (2021) Children looked after in Wales: Evidence Briefing Paper, Cardiff University
See also BBC Wales News (2021) Alarm over growing numbers of children in care in Wales

i'w hardal leol.[244] Mae plant yn fwy tebygol o ddod o gymunedau difreintiedig[245] gyda thoriadau i daliadau lles a chyni yn cael eu nodi fel ffactor sydd wedi sbarduno'r cynnydd.[246] Cyfeiriwyd hefyd at lefelau cam-drin domestig, salwch meddwl, anableddau dysgu rhieni, amrywiadau o ran arferion diogelu ac effaith COVID-19.[247,248] Gallai'r cynnydd mewn niferoedd hefyd fod o achos arfer mwy gwybodus a mwy o ymwybyddiaeth o gam-drin ac esgeuluso plant, a chyfrifoldeb asiantaethau i ymateb yn briodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau'n ddiogel niferoedd y plant sydd mewn gofal,[249] ac archwilio dulliau radical o ddiwygio'r gwasanaethau presennol, a rhoddwyd croeso gofalus i hynny[250]. Fodd bynnag, mae'n rhaid i benderfyniadau o'r fath gael eu gwneud bob amser er lles pennaf y plentyn, a chael eu gyrru gan angen am wella canlyniadau.[251] Nodir bod un o Bwyllgorau Senedd Cymru wedi lansio ymchwiliad i graffu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru, a fydd yn adrodd yn gynnar yn 2023.[252]

**Argymhellion**

- Cymryd camau i gryfhau'r gefnogaeth cyn ac ar ôl geni i fenywod/deuluoedd bregus sy'n disgwyl baban, er mwyn atal mwy o fabanod a phlant rhag mynd i ofal
- Cymryd camau i wella'r gwaith amlasiantaeth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn y cyfnod hollbwysig cyn ac ar ôl geni
- Cyflawni'r ymrwymiad i ddiwygio gwasanaethau presennol i blant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal mewn modd radical.

Sefydlogrwydd lleoliadau, y dewis ohonynt a'u digonolrwydd

Mae gan bob plentyn hawl i fywyd teuluol, ac mae paru priodol a sefydlogrwydd lleoliadau yn ffactorau sy'n helpu i wella canlyniadau iechyd ac addysg plant sydd â phrofiad o ofal.[253] Ar 31 Mawrth 2021, roedd 516 o blant oedd wedi profi tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn, gostyngiad o 21% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[254] Mae hyn yn cyfateb i 7% o'r plant a dyma'r gyfran isaf a welwyd ers 2002-03, pan ddechreuwyd casglu data.[255]

Er bod rhai symudiadau yn gallu cael eu gweld fel datblygiadau cadarnhaol os deuir o hyd i lety mwy addas a sefydlog yn ddiweddarach, mae symudiadau eraill yn digwydd oherwydd chwalfa, ac maent yn niweidiol ac yn amharu ar y plentyn, eu teulu a'u gallu i sefydlu a chynnal cydberthynas.[256] Rhaid peidio byth â seilio penderfyniadau ynghylch lleoliadau ar

[244] Stats Wales (2021) Children looked after at 31 March by local authority and location of placement
[245] Elliott, M. & Scourfield, J. (2017) Identifying and Understanding Inequalities in Child Welfare Intervention Rates: Comparative studies in four UK countries. Single country quantitative study report: Wales - Children are 16 times more likely to come into care if they come from the most deprived 10% of areas than the least deprived 10% areas.
[246] BBC Wales (2019) https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-47190227
[247] Wales Centre for Public Policy (2021) Children looked after in Wales: Evidence Briefing Paper, Cardiff University
[248] Wales Centre for Public Policy (2021) The Coronavirus pandemic and children's social care practice, Cardiff University
[249] W/Government (2019) Looked after Children – Reduction Expectation Plans: CRIA
[250] Evidence from Voices from Care Cymru
[251] Evidence from NSPCC Cymru
[252] Children, Young-people and Education Committee (2022) Consultation: Services for care-experienced children: exploring radical reform.
[253] See for example CASCADE (2015) Understanding the educational experiences and opinions, attainment, achievement and aspirations of looked after children, Cardiff University
[254] W/Government (2021) Experimental Statistics: Children looked after by local authorities, 2020-21
[255] Ibid
[256] Park, M et al (2020) What do children and young-people looked after and their families think about care? Wales Centre for Public Policy

adnoddau, a rhaid iddynt bob amser fod er lles pennaf y plentyn, wedi'u llywio gan eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau, ac awydd i sicrhau sefydlogrwydd. Mae angen cronfa ehangach o opsiynau lleoli addas, a rhaid ymgynghori'n briodol â phlant ynghylch yr opsiynau er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus a gwella atebolrwydd.[257] Mae adroddiadau am leoli plant mewn llety heb ei gofrestru yn destun pryder arbennig,[258] gyda'r diffyg data am eu defnydd ar lefel genedlaethol.[259] Dylid cynnal adolygiad cyn bwriadu dod ag unrhyw leoliad i ben, a chofnodi barn y plant.[260]

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynlluniau i ddileu elw o ofal yng Nghymru.[261] Er bod yr egwyddor hon yn cael ei chroesawu, mae anawsterau'n parhau yng nghyswllt sicrhau dilyniant a sefydlogrwydd lleoliadau yn sgîl newid, ac effaith bosibl hynny ar argaeledd a digonolrwydd lleoliadau gofal maeth a phreswyl. Dylai lleisiau plant sydd â phrofiad o ofal, sy'n cefnogi'r ymrwymiad hwn,[262] fod yn ganolog i sut gwneir y newidiadau hyn, a dylai gwella canlyniadau fod yn brif flaenoriaeth.

**Argymhellion**

- Cymryd camau ar unwaith i wella sefydlogrwydd lleoliadau tymor hir, sicrhau mwy o ddewis a llais, a chynyddu capasiti lleoliadau lleol

Rhianta Corfforaethol

Dylid cryfhau trefniadau rhianta corfforaethol presennol[263] trwy sicrhau bod pob corff cyhoeddus yn rhannu'r cyfrifoldeb am gefnogi plant yn eu gofal, ac yn chwarae rhan arweiniol wrth gynllunio gofal; gan ddiwallu anghenion addysgol, iechyd, cymdeithasol a chyflogaeth, a chynnwys CSOs a phlant fel partneriaid. Er bod camau sy'n cael eu cymryd i gyflwyno siarter wirfoddol i rieni corfforaethol i'w croesawu, dylid cyflwyno deddfwriaeth i estyn cyfrifoldeb ac atebolrwydd i bob corff cyhoeddus yng Nghymru.[264]

Datgelodd ymchwil ddiweddar oedd yn archwilio rôl rhieni corfforaethol yn ystod COVID-19 arfer anghyson, gyda rhai plant mewn sefyllfaoedd bregus, agored i niwed, ac yn wynebu mwy o risg a pherygl niwed.[265]

**Argymhellion**

- Cyflwyno deddfwriaeth, ochr yn ochr â chanllawiau, hyfforddiant a threfniadau monitro cadarn, i estyn cyfrifoldeb rhianta corfforaethol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru

[257] See civil society evidence to the W/Parliament Public Accounts Committee (2017/18) inquiry into care-experienced children and young-people
[258] See for example TGP Cymru (2019) Out of sight, out of rights?
[259] Children's Commissioner for Wales (2022) Our Report Card in Annual Report 2021/22
[260] Evidence received from Fostering Network Wales
[261] W/Government (2022) Consultation: Proposed changes to legislation on social care and continuing health care
[262] Evidence from Voices from Care Cymru.
[263] The term 'Corporate Parent' means the collective responsibility of the council, elected members, employees, and partner agencies, for providing the best possible care and safeguarding for the children who are looked after.
[264] Evidence received from Voices from Care Cymru
[265] Roberts, L. et al (2021) Corporate Parenting in a pandemic: considering the delivery and receipt of support to care leavers in Wales during COVID-19

- Hybu a mwyafu nifer y sefydliadau sy'n barod i lofnodi'r Siarter Rhianta Corfforaethol a monitro cydymffurfiaeth ymhlith yr holl gyrff cyhoeddus

Iechyd Meddwl

Dengys gwaith ymchwil fod gan blant sydd â phrofiad o ofal gyfraddau uwch o broblemau iechyd meddwl na'r boblogaeth gyffredinol,[266] gan fod dod i gysylltiad â chamdriniaeth ac esgeuluso yn gynnar yn cael effaith ddwys[267] a all barhau gydol oes. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau cadarnhaol i wella'r cynnig iechyd meddwl sydd ar gael i blant â phrofiad o ofal, gyda gofyniad i gynnal asesiadau iechyd meddwl wrth dderbyn i ofal. Fodd bynnag, mae ymchwil wedi adrodd bod asesiadau'n annigonol, bod diffyg canllawiau, a bod angen hyfforddiant i'r staff.[268]

Yn aml mae diffyg cefnogaeth iechyd meddwl i blant sydd â phrofiad o ofal, ac mae adroddiadau'n nodi argaeledd gwael o ran gwasanaethau cymorth emosiynol a therapiwtig, yn arbennig mewn perthynas â CAMHS,[269] sy'n cael ei waethygu gan restrau aros hir a throthwyon atgyfeirio uchel. Nid oes gan blant sydd â phrofiad o ofal hawl statudol i gymorth therapiwtig oni bai eu bod yn cael eu mabwysiadu, er iddynt brofi trawma ac ansicrwydd sylweddol yn eu bywydau.[270]

I rai plant, byddai mynediad at gymorth eiriolaeth mewn lleoliadau iechyd meddwl o fudd aruthrol i'w helpu i gael hyd i ffordd drwy'r system, sicrhau bod eu dymuniadau'n cael eu cyfleu, a helpu i atal angen rhag gwaethygu.[271] Hefyd dylai ymgynghorwyr personol roi blaenoriaeth i gefnogaeth iechyd meddwl i'r plentyn fel dangosydd perfformiad allweddol.[272]

**Argymhellion**

- Sicrhau bod plant yn cael eu hasesu wrth eu derbyn i ofal; derbyn mynediad amserol at gefnogaeth eiriolaeth a gwasanaethau therapiwtig priodol, gan gynnwys CAMHS pan fydd angen, gan sicrhau bod anghenion iechyd meddwl hefyd yn cael eu diwallu wrth adael gofal
- Cyflwyno canllawiau cynhwysfawr ochr yn ochr â hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol, er mwyn gwella'r asesiad iechyd meddwl cychwynnol, a monitro'r cyflawni
- Creu dyletswydd statudol i blant sydd â phrofiad o ofal gael cynnig gweithredol o gefnogaeth therapiwtig ar hyd eu bywydau
- Cyflwyno canllawiau i ddarparwyr gwasanaeth iechyd meddwl er mwyn sicrhau bod dilyniant gwasanaeth yn cael ei gynnal os bydd plentyn yn symud i ardal arall, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i dderbyn cefnogaeth ddi-fwlch

Eiriolaeth Annibynnol a Gwybodaeth

[266] NSPCC Cymru & Voices from Care Cymru (2019) Listen. Act. Thrive.
[267] Evidence received from Voices from Care Cymru
[268] NSPCC Cymru & Voices from Care Cymru (2019) Listen. Act. Thrive.
[269] Care Inspectorate Wales (2019) National Overview Report in relation to care-experienced children and young-people
[270] Evidence from Barnardo's Cymru
[271] Evidence received from NYAS Cymru. See also W/Parliament(2018) CYPE Committee Mind over Matter
[272] NYAS (2019) Looked after Minds

Dylai plant sydd â phrofiad o ofal dderbyn gwybodaeth gywir, amserol i fedru gwneud penderfyniadau gwybodus yn ystod eu taith trwy ofal, ond maent yn aml yn profi rhwystrau i gyrchu gwybodaeth ac ymgysylltiad â gweithwyr allweddol,[273] ac roedd hyn yn broblem arbennig yn ystod cyfnodau cynnar y pandemig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd calonogol o ran sicrhau bod pob plentyn sydd â phrofiad o ofal yn cael mynediad at gefnogaeth eiriolaeth annibynnol statudol trwy 'gynnig gweithredol', a bod pob gwasanaeth yn gweithredu'n unol â safon ansawdd genedlaethol sy'n destun trefniadau arolygu a rheoleiddio.[274] Fodd bynnag, dylid monitro'r trefniadau hyn yn gadarn a'u gwneud yn destun adolygiad annibynnol i sicrhau bod ymarfer yn cael ei wreiddio'n gyson, a bod gwasanaethau'n derbyn cyllid digonol mewn ymateb i'r galw. Dylid symud ymlaen mewn ymateb i alwadau CSO i ddarparu eiriolaeth annibynnol ym mhob lleoliad gofal preswyl.[275]

**Argymhelliad**

- Sicrhau bod pob plentyn sydd â phrofiad o ofal yn cael mynediad at eiriolaeth annibynnol statudol, gan gynnwys y rhai mewn lleoliadau gofal preswyl, bod adnoddau digonol yn eu lle i ymateb i'r galw, a'u bod yn destun prosesau monitro a gwerthuso cadarn.

<u>Cynnal Perthnasoedd Iach</u>

Mae plant sydd â phrofiad o ofal yn elwa o ddiogelwch ac amddiffyniad, ac mae angen perthnasoedd cryf, sefydlog a chyson arnynt gyda chyrff cyhoeddus, gofalwyr maeth yn y gorffennol a'r presennol,[276] aelodau o'r teulu a ffrindiau i feithrin gwell ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn. Mae ymchwil CSO wedi amlygu canlyniadau gwael i blant sydd â phrofiad o ofal sy'n gysylltiedig ag ansefydlogrwydd ac effaith symud lleoliad, newid ysgol ac addysg, a diffyg rhwydwaith sefydlog o gefnogaeth.[277] Mae plant yn aml yn cael bod eu hanfon allan o'u hardal leol yn eu hansefydlogi ac yn peri trallod, fel eu bod yn fwy agored i niwed, ynysig, ac yn wynebu lefel uwch o risg.[278] Dylai plant bob amser gael eu cadw yn eu hardal leol oni bai bod dim lleoliadau addas ar gael i ymateb i'w hanghenion, neu os yw eu lleoli yn rhywle arall (gyda gofal a chefnogaeth priodol) er eu lles pennaf.

Ni ddylai unrhyw blentyn a'i siblingiaid gael eu dieithrio, oni bai bod hynny er eu lles pennaf, a dylid rhoi'r un pwysigrwydd i drefniadau cyswllt gyda siblingiaid ag i'r rhai gyda rhieni biolegol. Dylai fod dyletswydd ar wasanaethau maethu i hybu perthnasoedd personol a

[273] Evidence received from Tom Jones (Children's Rights and Participation Officer, Swansea)
[274] W/Government (2022) National approach to statutory advocacy for children and young-people
[275] TGP Cymru (2019) Out of sight, out of rights? The provision of independent professional advocacy in independent children's homes in Wales
[276] Evidence received from the Fostering Network Wales
[277] Barnardo's (2022) From Pillar to Post: How to achieve greater stability in the care system
[278] Social Care Wales (2022) Out of area placements

chyswllt uniongyrchol rhwng y plentyn a'r personau mae gan y plentyn berthynas barhaus gyda nhw.[279]

Ar hyn o bryd ni chesglir data ynghylch niferoedd y plant sy'n cael eu cymryd i ofal neu sy'n byw gydag aelodau eraill o'r teulu o ganlyniad i garcharu rhiant. Os oes gan siblingiaid rieni gwahanol, gellir eu gwahanu os nad yw'r rhiant arall mewn sefyllfa i ofalu am y plant.[280] Gan nad oes carcharau i fenywod yng Nghymru, mae goblygiadau penodol i hyn o safbwynt plant Cymru os bydd eu mam yn derbyn dedfryd o garchar.[281]

**Argymhellion**

- Galluogi pob plentyn sydd â phrofiad o ofal i gynnal perthnasoedd iach gyda'r rhai sydd bwysicaf iddyn nhw, gan eu cefnogi i ddatblygu rhwydweithiau cymorth cadarnhaol wrth iddyn nhw nesáu at oed gadael gofal.
- Gweithio gyda Gweinyddiaeth Gyfiawnder y Deyrnas Unedig i ddatblygu trefniadau i sicrhau bod perthnasoedd teuluol yn cael eu cynnal os caiff y plentyn neu'r rhiant/gofalwr eu carcharu tu allan i Gymru.

## Gofal gan Berthnasau

Yn gyffredin, mae plant sy'n byw o dan drefniadau gofal gan berthnasau[282] wedi cael profiadau andwyol yn eu plentyndod cynnar, a phrofiadau cyn-lleoli tebyg i blant mewn lleoliadau maeth.[283] Mae gan lawer ohonynt anghenion cymhleth, problemau iechyd hirdymor ac anableddau.[284] Mae rhyw 10,000 o blant yn byw gyda pherthynas o dan drefniadau gofal gan berthynas yng Nghymru,[285] 95% ohonynt mewn modd anffurfiol, sy'n golygu eu bod yn cael llai o gefnogaeth gan nad yw llawer ohonynt yn hysbys i'r awdurdodau lleol.[286] Yn wahanol i ofalwyr maeth, nid yw aelodau o'r teulu a ffrindiau sy'n gofalu am blant yn derbyn lwfans ariannol i helpu i dalu am gost magu plentyn, oni bai bod y plentyn yn cael ei osod o dan y trefniadau hynny gan awdurdod lleol, ac o ganlyniad, mae llawer o blant yn cael eu gwthio i dlodi.[287] Mae diffyg cysondeb hefyd yn lefel y gefnogaeth ariannol sydd ar gael i ofalwyr sy'n berthnasau o gymharu â gofalwyr maeth, ac mae'n amrywio yn ôl côd post

---

[279] See for example The Fostering Network Keep Connected campaign calling on governments to support fostered children to maintain their most important relationships.
[280] Evidence received from Cardiff University's Children's Social Care Research and Development Centre (CASCADE). See also - Children Heard and Seen
[281] See Youth Justice section
[282] Kinship care is when a child lives full-time or most of the time with a relative or friend who isn't their parent, usually because their parents aren't able to care for them. That relative or friend is called a 'kinship carer', and it's estimated that around half of kinship carers are grandparents, but many other relatives including older siblings, aunts, uncles, as well as family friends and neighbours can also be kinship carers see - https://kinship.org.uk/for-kinship-carers/what-is-kinship-care/
[283] Selwyn, J and Nandy, S., (2014) 'Kinship Care in the UK: Using Census Data the Estimate the Extent of Formal and Informal Care by Relatives' Child and Family Social Work 19 44-54
[284] Wiedasja, D.et al (2017) Children Growing up in the Care of Relatives in the UK, Bristol: Hadley Centre for Adoption and Foster Care Studies.
[285] ibid
[286] Nandy, S. Selwyn, J. Farmer, E. and Vaisey, P. (2011) Spotlight on Kinship Care: Using Census Microdata to Examine the Extent and Nature of Kinship Care in the UK at the Turn of the Twentieth Century, Bristol: The Hadley Centre and University of Bristol.
[287] Wales Online (2022) Driven into poverty by saving a relative's child

a gorchymyn cyfreithiol, er bod eu hanghenion ariannol yn debyg neu'n fwy[288], ac mae galwadau i'r taliadau gael eu cysoni.[289]

Mae ymchwil yn disgrifio'r gefnogaeth a roddir i ofalwyr sy'n berthnasau fel rhywbeth diffygiol ac annigonol i ddiwallu eu hanghenion[290], gyda phlant sy'n profi amddifadedd lluosog 3 gwaith yn fwy tebygol o fod ar aelwydydd gyda pherthnasau, o gymharu â phlant heb amddifadedd lluosog.[291]

**Argymhelliad**

- Cymryd camau i gefnogi plant sy'n derbyn gofal gan berthnasau, gan sicrhau bod cyfatebiaeth yn y gefnogaeth ariannol i'r hyn a gynigir i blant mewn trefniadau gofal eraill

Pontio o Ofal

Mae profiad plant sydd â phrofiad o ofal o brosesau pontio i fywyd oedolyn yn un sydd wedi cywasgu, wedi cyflymu ac yn heriol[292] o gymharu â'u cyfoedion.[293] Maen nhw'n anghymesur o debygol o brofi digartrefedd, gyda 33% yn dod yn ddigartref yn y ddwy flynedd gyntaf ar ôl gadael gofal.[294] Dylai pontio o ofal fod bob amser yn ddi-fwlch, yn seiliedig ar hawliau, ac yn canolbwyntio ar sefydlogrwydd tai.[295] Dylai plant sydd â phrofiad o ofal gael eu paratoi'n ddigonol, gyda llwybrau clir i mewn i lety diogel, sefydlog a phriodol, sy'n cyfateb i'w dewis a'u hanghenion; a derbyn cyngor a chefnogaeth priodol a chyson, gan gydnabod y gallai fod angen cefnogaeth arnynt o hyd ar ôl ymadael.[296] Dylid sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer prosiectau atal digartrefedd sydd wedi cael eu gwerthuso'n fanwl. Mae potensial mawr i gynllun Pan fydda i'n Barod Llywodraeth Cymru[297], sy'n galluogi plant â phrofiad o ofal i aros gyda'u teuluoedd maeth yn hwy, ond mae'r nifer sy'n manteisio ar hyn yn isel[298] ac nid yw'n berthnasol i blant mewn lleoliadau preswyl.

Mae cynllun Peilot Incwm Sylfaenol 3-blynedd i ymadawyr gofal wedi cychwyn, yn darparu taliadau misol i bob plentyn â phrofiad o ofal dros gyfnod o 2 flynedd wrth gyrraedd 18 oed. Mae'r cynllun wedi cael croeso cyffredinol gan y gallai ddarparu peth sicrwydd ariannol i blant sy'n gadael gofal a helpu i leddfu peth o'r ansicrwydd y mae llawer yn ei wynebu.

---

[288] Kinship (2021) Kinship Care Financial Allowances Survey
[289] Wales Online (2022) Children in care looked after by grandparents 'on the cheap'
[290] Wellard, S., Meakings, S., Farmer, E., & Hunt, J. (2017). Growing Up in Kinship Care: Experiences as Adolescents and Outcomes in Young Adulthood. Grandparents Plus
[291] Nandy, S. Selwyn, J. Farmer, E. and Vaisey, P. (2011) Spotlight on Kinship Care: Using Census Microdata to Examine the Extent and Nature of Kinship Care in the UK at the Turn of the Twentieth Century, Bristol: The Hadley Centre and University of Bristol.
[292] See for example Children's Commissioner for Wales (2017) Hidden Ambitions
[293] 24 is the average age at which young-people move out of their family home in the UK, so to be living independently at the age of 16 is going to be a challenge for any young person. National Youth Advocacy Service (2022) 'Support for care leavers in England and Wales'
[294] Stirling T, (2018) Youth Homelessness and Care Leavers: mapping interventions in Wales,
[295] Schwan K. et al. (2018) Preventing Youth Homelessness; An International Evidence Review
[296] Evidence received from Llamau. See also End Youth Homelessness Cymru (2020) Don't Let Me Fall through the Cracks
[297] When I Am Ready - this allows care-experienced children to remain with their foster family until the age of 21
[298] Evidence received from Fostering Network - found that only 16 per cent (36 foster carers) of respondents to a survey had taken on a When I am Ready placement

Fodd bynnag, mae llawer o risgiau, megis ecsbloetio pobl ifanc sy'n derbyn symiau mawr o arian, ac a allai pobl ifanc mewn llety â chymorth ganfod eu hunain yn cael eu gwthio tuag at lety rhentu preifat oherwydd y rhent uchel cysylltiedig â llety â chymorth, a'r taliadau budd-dal lles is bydd y cyfranogwyr yn eu derbyn. Mae pryderon ynghylch y gefnogaeth gyllidebu a'r rheolaeth ariannol y bydd ar bobl ifanc eu hangen ymlaen llaw. Mae hyn i gyd yn pwysleisio pwysigrwydd monitro effeithiol a rheolaidd, fel bod modd canfod anawsterau posibl ac ymateb iddynt, ac mae'n arwain at newid parhaol[299].

Er bod cefnogaeth Llywodraeth Cymru i blant 16/17 oed yn cael ei chroesawu, mae pryderon yn parhau ynghylch nifer y plant agored i niwed 16+ sy'n cael eu gosod mewn llety lled-annibynnol heb ei reoleiddio na'i gofrestru, a hynny â chymorth cyfyngedig, er eu bod yn agored i niwed.[300] Mae'r cynnydd tuag at ddileu defnydd o lety Gwely a Brecwast wedi arafu yn sgîl pwysau cynyddol ar leoliadau awdurdod lleol, yn enwedig wedi'r cyfnodau clo.[301]

**Argymhellion**

- Monitro a gwerthuso'r peilot incwm sylfaenol yn barhaus, i sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl ifanc, a sicrhau bod plant sydd â phrofiad o ofal yn cael eu paratoi'n ariannol.
- Hyrwyddo'r cynllun Pan Fydda i'n Barod a gwella'r opsiynau tai â chymorth i bob plentyn sy'n gadael gofal, gan gynnwys trefniadau gofal preswyl.
- Dileu'r defnydd o lety Gwely a Brecwast a heb ei reoleiddio ar gyfer plant sy'n gadael gofal.

## Gofalwyr Ifanc

Mae gofalwyr ifanc yn cyflawni rôl bwysig yn gofalu am aelodau o'r teulu, ac mae hynny'n rhoi pwysau ychwanegol ar eu haddysg, eu hiechyd a'u bywyd cymdeithasol. Mae rhyw 30,000 o ofalwyr o dan 25 oed yng Nghymru,[302] er bod diffyg data dibynadwy neu fecanweithiau olrhain yn parhau. Mae llawer o ofalwyr ifanc yn dal yn guddiedig, ac felly nid yw eu hanghenion yn cael eu hasesu[303] o ran cymhwysedd i dderbyn gofal seibiant.

Mae Strategaeth Gofalwyr Llywodraeth Cymru[304] a'r Cynllun Cyflawni[305] cysylltiedig yn ymrwymo i gynyddu ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc ar draws gwasanaethau cyhoeddus, gan gydnabod yr angen am fwy o ganfod a chefnogaeth. Gwaethygodd cyfyngiadau cyfnodau clo COVID-19 deimladau o fod yn ynysig a chynyddu'r cyfrifoldebau gofalu, gyda llawer yn cael eu gwahanu oddi wrth eu teulu estynedig a'u rhwydweithiau cefnogi, a mynediad at

[299] Voices from Care Cymru have commended Welsh Government for taking action to try to address the high rates of poverty amongst the care leaving community, but it remains to be seen if this intervention will be sufficient or long lasting enough to make a long term difference.
[300] BBC Wales (2019) https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50748323
[301] Evidence received from NSPCC Cymru
[302] W/Government (2021) Impact assessment: Delivery Plan
[303] Under the Social Services & Well-Being Act (2016) LA and LHBs must work in partnership to assess the needs of YCs and agree a support plan for them
[304] W/Government (2021) Strategy for unpaid carers
[305] W/Government (2021) Delivery Plan 2021

wasanaethau seibiant yn dod i ben dros dro. Profodd llawer brofedigaeth, trawma ynysu a galwadau cystadleuol yn ystod y cyfnod hwn.[306]

Mae'r ddarpariaeth addysg mewn ysgolion yn amrywio'n fawr.[307] Gall nodi'n gynnar trwy athro penodol sy'n bresennol ym mhob ysgol olygu bod modd rhoi cymorth bugeiliol priodol yn ei le.

Mae gofalwyr ifanc yn aml yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cosbi am eu statws gofalwr ifanc. Mae llawer yn dweud eu bod yn colli Taliadau Cynnal Addysg (EMA) – yn aml yr unig gymorth ariannol maen nhw'n ei dderbyn i gefnogi eu haddysg, oherwydd eu bod yn hwyr i ddosbarthiadau neu'n eu colli oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu. Mae'r ddarpariaeth o ran y gefnogaeth a gynigir gan ysgolion a darparwyr addysg bellach yn ddarniog, sy'n gwneud y mater hwn yn waeth.[308]

Rydym ni'n croesawu'r cynnydd at gyflwyno cynllun cardiau adnabod cenedlaethol[309] er mwyn gwella cydnabyddiaeth a helpu gofalwyr ifanc i gael gwell mynediad at nwyddau, gwasanaethau a chefnogaeth hanfodol, ac fe hoffem ni weld ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus fwy datblygedig i roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Fodd bynnag, mae'n dal yn wir bod trefniadau gwahanol ar waith ledled Cymru, gyda rhai gofalwyr ifanc yn derbyn consesiynau a mwy o gyfleoedd a bennir ar sail y man lle maen nhw'n byw yn unig.[310]

**Argymhellion**

- Hyrwyddo rôl gofalwyr ifanc, gan sicrhau bod athro penodedig ym mhob ysgol a bod pob plentyn yn cael asesiad iechyd blynyddol.
- Gweithio gyda darparwyr Addysg Bellach i sicrhau nad yw gofalwyr ifanc yn colli taliadau EMA oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu.
- Monitro ac ariannu'r broses o roi'r cerdyn adnabod Cenedlaethol ar waith, a gwella ymwybyddiaeth, fel bod pob gofalwr ifanc yn ymwybodol o'u hawl i hyn.

# ANABLEDD, IECHYD SYLFAENOL A LLES

## Plant Anabl

Yn rhy aml edrychir ar blant ag anabledd trwy lens y nam sydd ganddynt, yn hytrach nag fel plant â hawliau unigol i gael mynediad at wasanaethau, mwynhau'r un pleserau a phrofiadau â'u cyfoedion, a chael llais mewn penderfyniadau.[311] Mae llawer wedi wynebu heriau penodol ac wedi cael profiadau anghymesur o negyddol o gymharu â'u cyfoedion heb

[306] See for example Carers Trust Wales survey with young carers found that 37% said their mental health was worse than it was before the pandemic began, and 20% were struggling to access any emotional support. Cited in - here
[307] Estyn (2019) Provision for young carers in secondary schools, further education colleges and pupil referral units across Wales
[308] Evidence from Barnardo's Cymru. See also Wales Online (2022) Sleepless nights, stress and financial worries…young carers to stay in school
[309] W/Government/Carers Trust Wales – the Young Carers ID Card (accessed October 2022)
[310] Evidence from Children in Wales
[311] Evidence received from Disability Wales

anabledd o ganlyniad i amharu ar eu cefnogaeth yn sgîl COVID-19,[312] gan arwain at deimladau o fod yn ynysig, straen, anawsterau o ran llesiant emosiynol a datblygiad addysgol, yn ogystal ag effaith oedi gyda diagnosis.

Mae plant anabl wedi cael eu gorgynrychioli'n hir ymhlith teuluoedd incwm isel,[313] ac mae'r argyfwng Costau Byw presennol yn gwthio mwy o deuluoedd sy'n cynnwys person anabl i galedi ariannol, yn arbennig y rhai sy'n wynebu costau ychwanegol er mwyn rheoli eu cyflwr ac sy'n dibynnu ar ynni ar gyfer gwres ac i yrru cyfarpar hanfodol.[314] Mae llawer o deuluoedd yn wynebu rhwystrau trafnidiaeth a chostau teithio uwch oherwydd yr angen i blant fynychu apwyntiadau meddygol neu ddarpariaeth addysg arbenigol.[315]

Er y bydd plant anabl o bosibl yn gallu mynychu addysg brif ffrwd, nid ydynt bob amser yn cael eu hintegreiddio'n llawn i amgylchedd yr ysgol gyfan, gan fod llawer o rwystrau amlwg i addysg gynhwysol, gan gynnwys trafnidiaeth, mannau sy'n anhygyrch yn gorfforol,[316] a chyfyngiadau sy'n atal cyfranogiad mewn rhai gwersi a chyfleoedd. Mae diffyg ymwybyddiaeth o anabledd a chyfleoedd i ddatblygu capasiti ymhlith staff a disgyblion ysgol,[317] er bod y ddyletswydd i hyrwyddo gwybodaeth am CCUHPA ochr yn ochr â CHP fel rhan o'r cwricwlwm ysgol newydd i'w groesawu'n arbennig.[318]

Dylai plant anabl gael eu cefnogi'n well i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed; dylen nhw gael mynediad at gyngor a gwybodaeth wedi'u teilwra'n briodol, a chael eu cynnwys ym mhob mater sy'n effeithio arnyn nhw, gan gynnwys yn ystod cyfnodau o bontio[319]. Yn rhy aml, nid ydynt yn cael eu cynnwys wrth gynllunio'u gofal meddygol, eu triniaeth, neu gymorth gofal cymdeithasol. Yn achos plant sydd ag anableddau cymhleth ac anghenion cyfathrebu difrifol, dylai fod mynediad fel mater o drefn at wasanaethau cymorth person-ganolog, gan gynnwys trefniadau eiriolaeth arbenigol, i'w helpu i fynegi dewisiadau ac archwilio opsiynau.

Yn achos plant â namau ar eu golwg, mae prinder difrifol o wasanaethau cymorth cartrefu arbenigol[320], er bod deddfwriaeth yn cydnabod eu pwysigrwydd o ran galluogi plant i fyw mor annibynnol â phosibl.[321] Mae llawer o blant anabl yn parhau i wynebu rhwystrau wrth gyrchu trafnidiaeth, cyfleoedd chwarae a hamdden,[322] cael mynediad i gyfleusterau newid priodol, a chael hyd i ffordd o amgylch 'celfi stryd' wedi COVID-19.[323]

---

[312] Children's Commissioner for Wales (2020) Coronavirus and Me: Understanding how disabled children nd young-people have experienced the pandemic in Wales
[313] Joseph Rowntree Foundation (2020) Poverty in Wales 2020
[314] Leonard Cheshire (2022) Rising costs are a catastrophe for disabled people
[315] Barnardo's Cymru (2022) Written evidence to the W/Parliament Economy, Trade and Rural Affairs Committee inquiry into the Cost-of-Living
[316] Children's Commissioner for Wales (2018) Full Lives: Equal Access
[317] Whilst the forthcoming new curriculum emphasises the need to ensure children understand their rights and the rights of others, calls for disability awareness to form a compulsory part of RSE have been rejected - Evidence received following the workshop on Disabled Children led by National Deaf Children's Society Cymru. See also evidence received from Adele Rose emphasising the need for specialist training for teachers and the need for inclusive education.
[318] W/Government (2021) Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021: Explanatory Memorandum
[319] Children's Commissioner for Wales (2018) Don't hold back
[320] Evidence received from Guide Dogs Cymru who are calling for Habilitation services for children with Vision Impairment to be available in every local authority area in Wales
[321] Part 2 (General Functions) of the Social Services & Well-Being Act (2016)
[322] For example, see BBC Wales (2022) Disabled girl unable to play in parks with friends, 03.11.22
[323] Evidence from Disability Wales. Outdoor dining areas can leave streets inaccessible for disabled and visually impaired people

Dylid gwella mynediad rhieni/gofalwyr at wybodaeth ynghylch materion iechyd[324] ac addysg i'w helpu i gefnogi plant anabl. Mae angen gwelliannau sy'n ymdrin â'r oedi wrth gael mynediad i wasanaethau a chyfarpar ffisegol i alluogi plant anabl i feithrin annibyniaeth, hyder a chyflawni eu potensial.

**Argymhellion**

- Sicrhau bod y model cymdeithasol o anabledd yn cael ei ymgorffori ym mhob rhaglen bolisi, a'i gymhwyso ar lefel leol trwy ddarparu gwasanaethau cyffredinol ac wedi'u targedu
- Cefnogi plant anabl sydd wedi wynebu heriau penodol oherwydd COVID-19, gan gynnwys archwilio sut mae modd lliniaru'r risgiau ynghylch effaith oedi diagnosis a llai o gefnogaeth yn y dyfodol
- Sicrhau bod addysg yn gwbl gynhwysol; bod sgiliau a galluoedd athrawon i gefnogi plant anabl yn cael eu gwella
- Sicrhau bod bylchau ac oedi wrth gyrchu gwasanaethau cymorth iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys darpariaeth arbenigol, yn derbyn sylw
- Sicrhau bod barn plant anabl yn cael ei cheisio ar bob mater sy'n effeithio arnyn nhw, a bod mynediad at drefniadau eiriolaeth arbenigol ar gael fel mater o drefn pan fydd angen.

## Anghydraddoldebau Iechyd

Dylanwadir ar iechyd plant gan yr amodau a'r amgylchiadau lle maen nhw'n byw. Er gwaethaf diffyg data wedi'i ddadelfennu i helpu i ganfod grwpiau penodol o blant sy'n wynebu canlyniadau iechyd gwaelach na'u cyfoedion, mae ymchwil yn dangos cyfatebiaeth gref rhwng anghydraddoldebau iechyd ac anfantais sosio-economaidd ar draws ystod o ddangosyddion, ac mae'r bwlch yn ehangu.[325] Mae'r amharu digynsail yn sgil COVID-19 a'i effaith sosio-economaidd wedi lledu anghydraddoldebau iechyd oedd eisoes yn bodoli, gan effeithio'n anghymesur ar blant oedd eisoes yn fregus mewn sawl ffordd.[326] Mae'r argyfwng Costau Byw presennol yn debygol o waethygu anghydraddoldeb yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, wrth i fwy o deuluoedd gael trafferth i fforddio hanfodion sylfaenol.[327]

Er bod nifer y marwolaethau plant wedi gostwng, mae cyfraddau marwoldeb babanod o dan 1 oed wedi codi,[328] gyda chyfraddau uwch yn cael eu cofnodi yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.[329] Mae cyfraddau marwoldeb plant 70% yn uwch ymhlith y grwpiau â'r lefel

[324] For example, information on nutrition an breastfeeding for parents of disabled children
[325] RCPCH (2022) Child Health Inequalities driven by Child Poverty in the UK – position statement, and RCPCH Wales (2020) State of Child Health
[326] Public Health Wales (2021) Placing health equity at the heart of the COVID-19 19 sustainable response and recovery: Building prosperous lives for all in Wales
[327] Wales NHS Confederation & Royal College of Physicians (2022) Mind the Gap: what's stopping change?: the cost-of-living crisis and the rise in inequalities in Wales
[328] ONS – in 2020, Infant mortality rates were 4.1 deaths per 1,000 live births in Wales.
[329] Ibid

uchaf o amddifadedd, o gymharu â'r rhai â'r lefel leiaf,[330] ac mae'r bwlch o ran hyd oes disgwyliedig rhwng y boblogaeth leiaf a mwyaf difreintiedig yn ehangu.[331]

Er bod bylchau'n parhau yn y data, mae'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Rhaglen Mesuriadau Plentyndod yn cyflwyno cynnydd mewn gordewdra yn ystod plentyndod yn ystod y chwe blynedd diwethaf, gyda phlant Cymru yn fwy tebygol o fod dros bwysau neu'n ordew yn 4-5 oed na phlant yn yr Alban (10.2%) neu Loegr (9.7%). Bernid bod 12.6% o'r grŵp oed yma yn ordew, a chofnodwyd llawer o gyfraddau lefel uwch yn lleol (20.7%).[332] Mae amddifadedd sosio-economaidd yn rhagfynegi gordewdra yn ystod plentyndod, ac mae'r bwlch amlygrwydd rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yn cynyddu o 5.9% i 6.9%[333] gyda 15.2% o'r plant yn y cwintel mwyaf difreintiedig yn cael eu hystyried yn ordew.[334] Mae 26.9% o blant ifanc 4-5 oed yng Nghymru dros bwysau neu'n ordew, o gymharu â 22.6% yn Lloegr.[335]

Mewn ymateb, rydym ni'n croesawu'r ffocws ar blant, y blynyddoedd cynnar a gweithredu i leihau anghydraddoldebau yng nghynllun cyflawni newydd Llywodraeth Cymru, Pwysau Iach: Cymru Iach, a chynigion diweddar i fynd i'r afael â sbardunau strwythurol gordewdra trwy osod cyfyngiadau ar brisio a hyrwyddo HFSS mewn lleoliadau manwerthu; gorfodaeth i labelu bwyd a chyfyngu ar y diodydd 'egni' i blant o dan 16 oed y tu allan i'r cartref.[336]

Mae cyfatebiaeth gref rhwng amddifadedd sosio-economaidd a'r canlynol:

- mwy o bydredd dannedd,[337] gyda dannedd mwy na thraean o blant yn pydru erbyn eu bod yn 5 oed[338]
- cyfraddau smygu[339]
- bwyta llai o ffrwythau, llysiau a brecwast[340]
- cyfranogiad mewn chwaraeon yn yr ysgol [341]
- dod i fwy o gysylltiad â llygredd aer.[342]

Mae'n galonogol bod nifer yr arddegwyr sy'n beichiogi wedi gostwng yn sylweddol;[343] mae addysg cydberthynas wedi cael ei diwygio[344] a chyflwynwyd prydau ysgol am ddim i bob plentyn rhwng 4 ac 11 oed.[345] Cafwyd cyfreithiau arloesol i estyn gwaharddiadau smygu

---

330 RCPCH Wales – State of Child Health  Children aged 1-9 years
331 Public Health Wales Observatry (2022) Health expectancies in Wales with inequality gap
332 Public Health Wales (2021) Child Measurement Programme 2018/19.  Obesity prevalence in one local authority area is 20.7% - over 1 in 5 children age 4-5
333 Ibid
334 ibid
335 ibid
336 W/Government (2022) Written Statement: Healthy Food Environments Consultations. HFSS + Food or drink products which are high in fat, salt or sugar
337 W/Government (2017) Taking Oral Health Improvement and Dental Services Forward in Wales
338 W/Parliament Research (2022) Dentistry Part 2 – Wales' oral health gap
339 Ash Cymru/Wales (accessed 2020) https://ash.wales/wales-smoking-statistcs/
340 Page N., Hewitt G., Young H., Moore G., Murphy S. (2021) Student Health and Wellbeing in Wales: Report of the 2019/20 School Health Research Network Student Health and Wellbeing Survey. Cardiff University, Cardiff, UK
341 Sport Wales (2022) School Sport Survey: State of the Nation. A 15-percentage point difference exists between the least deprived (FSM1) and most deprived (FSM4) when considering participation in organised sport outside of the curriculum three or more times a week. This disparity has increased since 2018 where a 13-percentage-point difference was observed between the least and most deprived.
342 W/Government (2020) Clean Air Plan for Wales
343 ONS (2022) Conceptions in England and Wales: 2020
344 See Section on Education
345 See section on child poverty

mewn ceir, ysbytai, ar diroedd ysgol ac mewn meysydd chwarae,[346] a chyhoeddwyd ymrwymiadau pellach i gyflwyno amgylcheddau di-fwg i blant a mamau sy'n disgwyl.[347] Dylid cymryd camau pellach i ddeall amlygrwydd a risgiau e-sigarets i bobl ifanc, ac i atal rhagor rhag dechrau eu defnyddio.[348]

Mae ymyrraeth gynnar, hybu ffyrdd iach o fyw, ac atal iechyd gwael ymhlith plant yn gyffredinol, gan gynnwys yn y 1,000 diwrnod cyntaf, yn galw am lefelau digonol o fuddsoddiad i ymateb i'r angen cynyddol. Mae angen gwell gwybodaeth a chefnogaeth ar unigolion i wella'u dealltwriaeth a helpu i atal a rheoli cyflyrau iechyd.[349] Mae COVID-19 ac argyfwng presennol Costau Byw wedi amlygu hyn yn glir iawn, gan waethygu rhwystrau parhaus o ran cyrchu gofal cychwynnol a gwasanaethau gofal iechyd arbenigol, gan gynnwys gofal lliniarol[350] a gwasanaethau profedigaeth.

**Argymhellion**

- Ymdrin â'r bwlch anghydraddoldeb a gwella mynediad at ofal sylfaenol a gwasanaethau gofal iechyd arbenigol i blant
- Cymryd camau i wella casglu data trwy ehangu'r Rhaglen Mesuriadau Plentyndod i bob grŵp oedran, a gweithredu'r Cynllun, darparu adnoddau ar ei gyfer, a'i fonitro'n llawn er mwyn ymdrin â gordewdra yn ystod plentyndod.

Eiriolaeth Iechyd

Mae darpariaeth annigonol o gymorth eiriolaeth annibynnol ar gyfer plant yn cael mynediad i wasanaethau iechyd yn y rhan fwyaf o rannau o Gymru. Gwnaed galwadau droeon i bob plentyn sydd angen hynny dderbyn 'cynnig gweithredol' cyffredinol, a bod cefnogaeth ar gael, yn hygyrch ac yn derbyn adnoddau llawn. Dylid cynhyrchu canllawiau statudol manwl, ochr yn ochr â threfniadau monitro a gwerthuso cadarn.[351]

**Argymhellion**

- Cyflwyno canllawiau statudol a sicrhau bod pob plentyn a allai elwa yn derbyn 'cynnig gweithredol' o eiriolydd annibynnol wrth gyrchu gwasanaethau iechyd ym mhob rhan o Gymru.

Ymchwil Iechyd

Mae'r arian ar gyfer ymchwil iechyd plant wedi bod yn gostwng bob blwyddyn ers 2011, gyda llai o fecanweithiau yn caniatáu i farn plant gael ei chlywed wrth gynhyrchu ymchwil ar gyfer

---

[346] W/Government (2020) Written Statement - Existing Smoke free restrictions will be extended to hospital grounds, public playgrounds, outdoor children's care settings and school grounds from 1st March 2021 under existing legislation.
[347] W/Government W/Government (2022) A Smoke-Free Wales: Our long-term tobacco control strategy
[348] RCPCH (2022) Smoking in Young-people
[349] See for example, W/Government (2019) A Healthier Wales
[350] W/Government should implement recommendations from the Cross Party Group on Hospices and Palliative Care 2018 Inquiry 'Inequalities in access to hospice and palliative care', which relate to paediatric palliative care services. Recommendations include: access to out-of-hours services and increased resourcing of community nursing. See also more detailed evidence received from Lynette Thacker (Clinical Nurse Specialist Paediatric Palliative Care)
[351] The Children's Commissioner for Wales – successive annual reports 20/21 and 21/22. CSOs through the Children in Wales CYP Advocacy Providers Group have been supporting these calls and written to the Minister for Health calling for a universal offer to be made.

amodau sy'n effeithio arnyn nhw.[352] Mae diffyg pediatregwyr academaidd ymgynghorol ymhlith y gweithlu a phrinder swyddi o'r fath yng Nghymru, oherwydd ymddeoliadau neu swyddi sydd heb eu llenwi wrth ddod yn wag. Mae hyn yn cael effaith ar feddygon dan hyfforddiant yng Nghymru, sydd angen chwilio'n allanol am gefnogaeth goruchwylwyr PhD, sy'n aml yn golygu colled barhaol i Gymru pan fyddan nhw'n penderfynu peidio â dod yn ôl i weithio yma.

**Argymhelliad**

- Darparu cyllid digonol i gefnogi datblygiad ymchwil bediatregydd, a meithrin digonolrwydd y gweithlu academaidd pediatrig

Bwydo ar y fron

Mae bwydo ar y fron yn bwysig ar gyfer iechyd a datblygiad babanod, ac atal anghydraddoldebau iechyd. Er bod dros 64% o fenywod yn bwriadu bwydo ar y fron, mae'r ffigur yna'n gostwng i 28% sy'n sôn eu bod yn bwydo ar y fron ar ôl 6-wythnos, gydag amrywiaeth sylweddol mewn cyfraddau ar draws Cymru a'r gyfradd isaf ymhlith mamau Gwyn.[353] Er gwaethaf cynllun 5-mlynedd[354] yn argymell bod systemau'n cael eu sefydlu i gasglu, dadansoddi a lledaenu data am fwydo babanod fel mater o drefn, mae'r casglu data yn dal yn anghyflawn.[355] Nid oes data ar gael ynghylch amddifadedd sosio-economaidd er bod y Cynllun yn cydnabod bod cyfraddau bwydo ar y fron yn is ymhlith menywod mewn ardaloedd ag amddifadedd uwch, gan waethygu anghydraddoldebau iechyd.[356] Bu gostyngiad sylweddol yn y gwasanaethau cymorth cymheiriaid a gomisiynir/ariannir, gan arwain at lai o gefnogaeth i deuluoedd.[357] Mae'n rhaid gwneud mwy i ymdrin â'r stigma a'r elyniaeth sy'n gysylltiedig â bwydo ar y fron yn gyhoeddus.[358]

Gwnaed peth cynnydd o ran rheoleiddio marchnata cynnyrch i gymryd lle llaeth y fron,[359] fodd bynnag, ni ddaethpwyd â rheoliadau i rym i atal marchnata fformwla dilyn ymlaen, mathau o laeth sy'n cael eu marchnata ar gyfer plant dros un oed, na photeli/thethi.[360] O ran Achrediad Llesol i Fabanod mewn ysbytai, gwasanaethau mamolaeth, newydd-eni ac ymwelwyr iechyd, genir 78% o fabanod mewn unedau llesol i fabanod achrededig yng Nghymru.[361] Fodd bynnag, nid oes mandad gan y llywodraeth i bob uned gael eu hachredu.[362]

**Argymhelliad**

---

[352] Evidence received from Noah's Ark Children's Hospital for Wales
[353] W/Government (2022) Breastfeeding Data: 2021
[354] W/Government (2019) All Wales Breastfeeding Five Year Action Plan
W/Government (2022) Breastfeeding Data: 2021[356] Evidence from RCPCH
[356] Evidence from RCPCH
[357] Brown, R & Tennant-Eyles, A (2022) An exploration of trends and experiences of delivery of breastfeeding support in England and Wales since 2015, The Breastfeeding Network and Cardiff University
[358] Grant, A (2022) New study reveals the public make it more difficult for women to breastfeed, Swansea University. See also BBC Wales News (2022) Breastfeeding: mums put off by public disgust
[359] The UK has partially adopted the International Code of Marketing of Breast-Milk Substitutes and relevant resolutions of the World Health Organisation, to prevent marketing of infant formula and infant milks marketed as foods for special medical purposes.
[360] Guide to UK formula marketing rules http://www.babymilkaction.org/ukrules-pt1
[361] Baby Friendly Accreditation Wales (accessed 2020)
[362] World Breastfeeding Trends Initiative UK Report (2016)

- Cymryd camau i gyflwyno'r cynllun cenedlaethol, darparu adnoddau ar ei gyfer, ei fonitro a'i werthuso, gan wreiddio dull system gyfan o hyrwyddo a chefnogi bwydo ar y fron.

## Iechyd Meddwl

Mae'r pandemig wedi cael effaith drychinebus a phellgyrhaeddol ar iechyd meddwl a llesiant llawer o fabanod a phlant, gan waethygu anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli, ac effeithio'n anghymesur ar y rhai mwyaf agored i niwed[363] a'r rhai a fu'n cael trafferth ymdopi â materion megis gorbryder, straen ac ymddygiad hunan-niweidiol yn flaenorol.[364] Adroddodd mwy na dau draean (68%) o blant fod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu ers y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf, ac roedd dros hanner (51%) yn adrodd bod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu llawer.[365] Roedd 37% o'r achosion lle cysylltwyd â llinell gyngor genedlaethol yn ymwneud â iechyd meddyliol ac emosiynol, gyda chyswllt ynghylch gorbryder/straen yn brif destun pryder.[366] Dywedodd 36% o'r ymatebwyr i CSO eu bod wedi sylwi ar ddirywiad yn iechyd meddwl plant ifanc ers y pandemig, gan gynnwys gorbryder ymwahanu a newid ymddygiad.[367]

Mae'r argyfwng Costau Byw hefyd yn gwaethygu materion iechyd meddwl plant, gan achosi straen a phwysau ychwanegol ar deuluoedd, sy'n peryglu gallu rhiant i fod ar gael yn emosiynol i'w plant mewn amgylchedd diogel, meithringar, a hefyd eu gwydnwch eu hunain.[368] Mae gwasanaethau i blant yn tystio i'r trallod a'r anobaith emosiynol sy'n deillio o COVID-19 a'r argyfwng ariannol cynyddol, a'r angen parhaus am fwy o gefnogaeth emosiynol seicogymdeithasol.

Mae gan dri phlentyn ym mhob ystafell ddosbarth gyflwr iechyd meddwl y gellid rhoi diagnosis ar ei gyfer, ac mae hanner yr holl broblemau iechyd meddwl wedi ymsefydlu erbyn 14 oed, gyda lefelau straen, gorbryder a hunan-niweidio yn codi.[369] Mae hunanladdiad hefyd ar gynnydd fel un o achosion marwolaeth plant 15+.[370] Mae rhai grwpiau difreintiedig o blant yn wynebu heriau arbennig,[371] gan fod plant sy'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso bedair gwaith yn fwy tebygol o ddatblygu angen iechyd meddwl difrifol a dwywaith mor debygol o ddatblygu rhyw fath o salwch meddwl.[372] Mae dod i gysylltiad â thrawma rhyngbersonol yn gysylltiedig â chyfraddau uwch o PTSD,[373] y gall ei ganlyniadau barhau am oes. Mae babanod a phlant ifanc sydd wedi profi camdriniaeth, trawma neu anawsterau yn y berthynas

---

363 Barnardo's (2020) In our own words
364 Young Minds (2021) The impact of COVID-19 on young-people with mental health needs. Fourth Survey, February 2021
365 Mind Cymru (2021) The consequence of coronavirus for mental health in Wales, July 2021. Further, over one in seven (14%) young-people experienced mental distress for the first time during the pandemic
366 Childline National Helpline (2020/21) – evidence from NSPCC Cymru
367 Evidence from PACEY
368 Evidence from Platform
369 W/Parliament (2018) CYPE Committee Mind over Matter
370 Public Health Wales (2019) Child Death Review programme and ONS (2022) Suicides in England and Wales: 2021 registrations
371 Evidence received from Place2Be
372 Chandan, J, S., Thomas, T., Gokhale, K, M., and Bandyopadhya, S (2019) The burden of mental ill health associated with childhood maltreatment in the UK, using The Health Improvement Network database: a population-based retrospective cohort study. *The Lancet*, 6(11), 926-934
373 Duffy, M., Walsh, C., Mulholland, C., Davidson, G., Best, P., Bunting, L., Herron, S., Quinn, P., Gillanders, C., Sheehan, C., and Devaney, J (2021) Screening Children with a History of Maltreatment for PTSD in Frontline Social Care Organizations: an Exploratory Study. *Child Abuse Review* 30(6) pp. 594–611

rhwng rhiant a baban yn wynebu risg arbennig o brofi ystod o broblemau iechyd meddwl ar hyd eu hoes, fel bod angen cymorth cynnar amserol ac effeithiol, a mynediad at wasanaethau therapiwtig arbenigol i'w helpu i adfer wedi profiad niweidiol cynnar, ond nid ydynt ar gael.[374] Bydd buddsoddi mewn gwasanaethau sy'n cefnogi iechyd meddwl babanod yn helpu i roi plant ar lwybr datblygiadol cadarnhaol, gan sicrhau arbedion i'r pwrs cyhoeddus trwy ostwng costau gwasanaethau cyhoeddus a chynyddu cyfranogiad yn yr economi.[375]

Galwodd adroddiad tirnod 'Cadernid Meddwl'[376] am newid sylweddol yn y gwasanaethau a'r gefnogaeth iechyd meddwl ac emosiynol i blant, gan gydnabod bod llawer yn cael trafferth sicrhau mynediad at gefnogaeth yn gynnar, i atal problemau rhag datblygu, a gwasanaethau arbenigol i atal anghenion rhag cynyddu. Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd o ran cyflawni dull gweithredu ysgol gyfan[377] trwy hyrwyddo plant sy'n gydnerth yn emosiynol, iechyd meddwl da a darparu cefnogaeth amserol a phriodol lle mae angen,[378] mae rhaid gwneud mwy i sicrhau cysondeb, ac mae'r newid yn digwydd yn rhy araf.[379] Dylai fod mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar ac ataliaeth, yn arbennig o ran plant sy'n byw mewn tlodi, a'r berthynas rhwng rhieni a babanod, er mwyn lleihau'r profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.[380]

Mae adnabyddiaeth gynnar ac ymyriadau integredig priodol yn allweddol wrth atal cyflyrau iechyd meddwl tymor hir a sicrhau nad ydynt yn gwaethygu.[381] Ac eto mae pryderon nad oes triniaeth glir na llwybr diagnostig ar gyfer trawma datblygiadol, sy'n golygu bod plant sy'n cael profiadau andwyol, neu'n wynebu anghyfiawnder neu golled yn gynnar, yn aml yn cael diagnosis ar gam, a'u camddeall gan weithwyr proffesiynol, ffrindiau a theulu sydd am sicrhau eu lles, ond sydd heb ddeall yn llawn effaith trawma cynnar.[382, 383] Rhaid i gydnabyddiaeth a dealltwriaeth well o effaith ystod o benderfynyddion cymdeithasol, masnachol a gwleidyddol ar iechyd meddwl, a'u heffaith ar blant, fod yn ganolog i ddull gweithredu seiliedig ar hawliau o ymdrin â phenderfyniadau polisi wrth symud ymlaen.

Gan fod anawsterau iechyd meddwl yn amharu'n ddifrifol ar ddatblygiad ac ymgysylltiad, mae'n hanfodol bod cyngor a chefnogaeth arbenigol yn bodoli i alluogi plant i brosesu a chael cefnogaeth gydag anawsterau ar y cyfle cynharaf.[384] Lle mae trawma wedi digwydd, mae gan bob plentyn hawl i dderbyn cefnogaeth therapiwtig iechyd meddwl gyffredinol ac arbenigol i'w helpu i ymadfer ac i helpu i osgoi ymyriadau argyfwng cyhyd ag y bydd angen.

---

[374] Specialised parent-infant relationship teams provide therapeutic support where babies' development is most at risk due to severe, complex and/or enduring difficulties or trauma in their early relationships. These teams work to strengthen early relationships, which are protective, and they help babies to recover from early adversity. There are only two specialised parent-infant relationship teams in Wales. See Hogg, S (2019) Rare Jewels. Specialised parent-infant relationship teams in the UK. Parent Infant Partnership UK, AND NSPCC (2021) Infant and Family Teams
[375] First 1001 Days Movement Investing in Babies The economic case for action. Evidence Brief 6
[376] W/Parliament(2018) CYPE Committee Mind over Matter
[377] W/Government (2020) Embedding a whole-school approach to mental health and well-being
[378] W/Government (2012) Together for Mental Health: 10 Year strategy
[379] W/Parliament(2020) CYPE Committee Mind over Matter two years on
[380] These were just some of the key points raised during consultations exercises to inform delivery of the Together for Mental Health Delivery Plan 2019-22. See W/Government (2019) Integrated Impact Assessment Summary
[381] For example, Evidence received from Place2Be
[382] Evidence from Platform
[383] Psychologists for Social Change Cymru (2022) A PSC Cymru Statement on the use of the diagnosis of 'Personality Disorder' with Children and Young-people: A response to 'Should Child and Adolescent Mental Health Professionals be Diagnosing Personality Disorder in Adolescence?, August 2022
[384] The Together for Children and Young-people (T4CYP2) network has developed a planning tool for Regional Partnership Boards (strategic commissioning bodies) which aims to ensure a 'whole system' approach for developing mental health, well-being and support services for babies, children, young-people, parents, carers and their wider families across Wales. See the NEST Framework

Mae darpariaeth gyffredinol yn hanfodol, gan fod hynny'n helpu i leihau ofn a stigma,[385] trwy ei wneud yn rhan o sgyrsiau pob dydd[386] sy'n helpu i feithrin gwydnwch. Dylid gwneud mwy i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant ynghylch sut maen nhw'n teimlo am eu bywydau, a chymryd camau i wella'u llesiant cyffredinol trwy ddiwygio polisi ac ymarfer. Mae angen mabwysiadu technegau mesur oed-briodol sy'n cael mynediad at bob plentyn, gan gynnwys rhai sy'n cael eu haddysgu y tu allan i leoliadau ysgol, fel mater o drefn.[387]

Mae gormod o blant yn profi llwybrau darniog,[388] ymatebion annigonol ac oedi, ac yn aml mae'n rhaid i'w sefyllfa droi'n argyfwng cyn iddyn nhw fedru cael mynediad at gefnogaeth.[389] Mae angen mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl a chwnsela plentyn-ganolog, cyfannol ar hyd cyfnod plentyn ym myd addysg.[390] Dylai ysgolion fod yn hybiau cymunedol sydd ag arferion cydweithredol amlasiantaeth anfeddygol integredig, er mwyn helpu i atal a rheoli trallod meddyliol ymhlith plant a'u rhieni/gofalwyr,[391] gan gynnwys trwy wasanaethau galw heibio.[392]

Dylai hyfforddiant traws-sector rheolaidd fod yn flaenoriaeth a derbyn adnoddau, er mwyn gwella ymwybyddiaeth, cyfathrebu a chynorthwyo i gyfeirio ymlaen,[393] gan gynnwys i staff ysgolion, i'w galluogi i gyflawni dyletswyddau deddfwriaethol newydd i roi sylw dyledus i iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant.[394]

Yn achos plant sydd ag anghenion mwy aciwt, dylid rhoi blaenoriaeth i adeiladu capasiti CAMHS,[395] gwella mynediad, amserau aros, meini prawf atgyfeirio a'r cyfnodau rhwng asesu a thriniaeth,[396] yn ogystal â datrys pryderon sylweddol ynghylch pontio i wasanaethau oedolion, gan gynnwys diffyg gwybodaeth a mynediad at eiriolaeth, a chynllunio gwael wrth bontio, sydd fel ei gilydd yn tanseilio egwyddor lles pennaf y plentyn.[397] Dylai hyn gyd-fynd â chynyddu'r dulliau gweithredu therapiwtig a arweinir gan blant ar gyfer y plant hynny – y 'Canol Coll' – nad ydynt yn cyrraedd trothwyon cymhwysedd CAMHS, ond y mae angen cefnogaeth therapiwtig arnyn nhw.[398] Mae diffyg opsiynau gwasanaeth 'canolraddol', gan fod plant yn syrthio rhwng gwahanol lefelau o gefnogaeth wrth i'w hanghenion ddyfnhau, ac mae galwadau am sefydlu un pwynt mynediad ar frys er mwyn gwella llwybrau gofal. [399]

---

[385] Time to Change Wales (2018) Myths and Facts
[386] Welsh Youth Parliament (2020) Let's Talk about Mental Health
[387] Evidence received from The Children's Society
[388] Evidence received from ProMo Cymru
[389] Barnardo's (2020) In our own words
[390] Statutory school base independent counselling services have been a significant benefit to children, but are often overwhelmed and should be made available to younger school aged children (see evidence submitted to the W/Parliament (2018) CYPE Committee Mind over Matter )
[391] Integrated approached should involve, for example children's social services, family support, children's voluntary sector, helplines, youth work sector as equal partners to support schools and health practitioners in delivering the whole systems approach.
[392] Children's Commissioner for Wales (2018) position paper: Children's Mental Health Services in Wales
[393] This should include initial teacher education see Estyn (2019) Healthy and happy – school impact on pupil's health and wellbeing
[394] Section 63 of the Curriculum & Assessment (Wales) Act required a duty to pay regard to mental health
[395] Including out-of-hours crisis care and support. See also points raised in evidence received from Hafal
[396] 80% of patients should wait no longer than 28 days from referral to assessment, yet this does not take into account the length of time a child has to wait for treatment or the quality of outcome. The target has not been met in any of the five years to 2021. See Mind Cymru (2022) The Mental Health Measure: Ten years on
[397] Mind Cymru (2022) Sort the Switch: the experiences of young-people moving from Specialist Child and Adolescent Mental Health Services to Adult Health Services in Wales. Many young-people are automatically transitioned at 18 when they are particularly vulnerable. W/Government have issued draft transition guidance for all health services
[398] Latest figures show that 68% of referrals to CAMHS were accepted, yet almost 1/3 were not
[399] W/Parliament(2020) CYPE Committee Mind over Matter two years on

Capasiti cyfyngedig sydd yn y ddwy uned cleifion mewnol yng Nghymru, ac mae hynny'n golygu bod rhai plant yn cael eu derbyn i ysbyty ymhell o'u cartref.

**Argymhellion**

- Buddsoddi mewn cefnogaeth ymyrraeth gynnar brydlon, priodol a hygyrch i bawb ar gyfer pob plentyn, ochr yn ochr â gwasanaethau cefnogaeth cymunedol amlasiantaeth integredig ar gyfer y 'canol coll'
- Edrych eto ar gyflawni argymhellion adroddiad Cadernid Meddwl er mwyn asesu cynnydd a'r meysydd i'w gwella wrth ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl i blant
- Cyhoeddi strategaeth iechyd meddwl newydd, sy'n cwmpasu'n llawn anghenion penodol pob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig ac sy'n profi tlodi, a gwneud iechyd meddwl babanod yn flaenoriaeth benodol, ochr yn ochr â sicrhau bod mecanweithiau adrodd ac atebolrwydd yn parhau'n amlwg.
- Buddsoddi mewn gwasanaethau cydberthynas rhieni a babanod, i sicrhau bod tîm ym mhob ardal o Gymru sy'n gallu cefnogi babanod a phlant ifanc sydd wedi profi trawma a chamdriniaeth.
- Cyhoeddi canllawiau statudol i alluogi staff ysgolion i gyflawni'r ddyletswydd iechyd meddwl fel rhan o'r cwricwlwm newydd.
- Darparu CAMHS arbenigol sydd ag adnoddau digonol ac yn hygyrch lle mae angen, gyda mwy o atebolrwydd trwy wella casglu data perfformiad, a rhoi trefniadau cynllunio cyson, seiliedig ar hawliau ar waith, wrth bontio i wasanaethau oedolion.
- Sicrhau bod mecanweithiau ymchwil cadarn yn eu lle i ymgysylltu â phob plentyn fel mater o drefn ar faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles emosiynol a meddyliol, gan gynnwys rhai sydd â phrofiadau bywyd o ddarpariaeth iechyd meddwl.
- Sicrhau bod digon o le mewn ysbytai arbenigol, yn agos at gartref y plentyn, a datblygu dewisiadau amgen addas yn y gymuned.

## Safon Byw

Tlodi Plant

Mae gan bob plentyn hawl i safon byw sy'n ddigonol, ond mae bron 1 o bob 3 phlentyn yng Nghymru sy'n gaeth mewn tlodi yn cael eu hamddifadu o'r hawl honno ac yn ei gweld yn cael ei thorri[400] wrth i lawer mwy o blant weld eu sefyllfa'n gwaethygu wedi COVID-19 ac yn dirywio ymhellach nawr yn sgîl yr argyfwng Costau Byw.[401] Mae cyfraddau tlodi plant wedi parhau'n uchel yn gyson, ac maen nhw'n codi, gyda 31% o blant yn byw mewn tlodi,[402] o gymharu â 28% y flwyddyn flaenorol, y ganran uchaf ymhlith gwledydd y Deyrnas Unedig, gyda chyfraddau llawer o ardaloedd lleol yn sylweddol uwch.[403] Mae plant yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol o'u cymharu â'r rhan fwyaf o grwpiau eraill, ac mae hyn yn

[400] Children's Legal Centre Wales (2022) Poverty and Children's Rights
[401] Evidence received from Faith In Families (2022) provides examples of children living in unacceptable conditions which fails to provide for their physical and social needs, and support for their development
[402] W/Government Statistics (2022) Measures of Poverty: April 2020 to March 2021
[403] End Child Poverty UK (2022) Local child poverty indicators 2020/21

cael effaith anghymesur ar y rhai sy'n byw mewn teuluoedd unig riant a mwy o faint; rhai teuluoedd ethnig lleiafrifol, ac aelwydydd sy'n cynnwys oedolyn neu blentyn ag anabledd.[404]

Ar gyfartaledd mae plant mewn teuluoedd incwm isel yn byw yn is o dan y llinell dlodi nag oedden nhw bum mlynedd yn ôl, yn profi mwy o galedi a chanlyniadau gwaelach ar draws ystod o ddangosyddion.[405] Mae amddifadedd materol yn effeithio ar gyfran uwch o blant, gyda 14% o leiaf yn profi'r cyfuniad uchaf o incwm isel ac amddifadedd materol ar draws 4 gwlad y Deyrnas Unedig.[406] Mae tlodi'n niweidio plant a'u teuluoedd, ac mae tystiolaeth gref sy'n dangos cysylltiad â cham-drin ac esgeuluso plant. Mae tlodi'n creu ffactorau straen ychwanegol yn y cartref, sy'n gallu arwain at 'orlwytho' a gwanhau gallu teulu i ofalu am eu plant.[407] Mae mwy o blant yn cysylltu â llinellau cymorth lle daw tlodi/anawsterau ariannol i'r amlwg.[408]

Mae llawer o sefyllfaoedd wedi gwaethygu'n sylweddol o ganlyniad i effaith ariannol COVID-19 a chostau cynyddol bwyd ac ynni, gyda rhai teuluoedd bellach mewn 'argyfwng llwyr'.[409] Mae teuluoedd a fu'n cael trafferth ymdopi'n flaenorol ac yn profi caledi ariannol yn wynebu gostyngiad pellach yn eu hincwm, lleihau oriau gwaith, a chostau byw cynyddol. Mae plant yn llwglyd, yn oer ac yn profi straen a mwy o berygl i'w hiechyd a'u llesiant cyffredinol, wrth i fwy o deuluoedd dorri'n ôl ar hanfodion fel bwyd, gwres, eitemau babanod a gweithgareddau i blant. Mae costau ynni cynyddol yn rhoi pwysau aruthrol ar gyllidebau teuluoedd, gyda'r teuluoedd mwyaf difreintiedig, gan gynnwys rhai â phlant anabl[410] yn wynebu rhai o'r codiadau mwyaf sydyn, a fydd yn gwaethygu yn 2023.[411] Y grwpiau poblogaeth sy'n fwy tebygol o fyw mewn tai lle mae'r gwres yn wael yw plant, teuluoedd a phobl ifanc.

Dylai cyflogaeth leihau perygl tlodi, ond mae 2/3 o'r plant sy'n byw mewn tlodi yn byw ar aelwydydd lle mae o leiaf un person yn gweithio, gyda chyflog isel, dibrisio cyflogau,[412] ansicrwydd a chostau uchel rhentu tai ymhlith y ffactorau sy'n gwthio mwy o deuluoedd sy'n gweithio i dlodi.[413] Mae teuluoedd yn aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol i ennill incwm teg, gan gynnwys anawsterau i sicrhau neu fforddio trefniadau gofal plant.[414] Mae rhieni mewn gwaith rhan amser yn ennill llai oherwydd eu bod yn gweithio llai o oriau, ond mae'n bwysig nodi bod cyflogeion rhan amser hefyd yn ennill llai yr awr na'r rhai sydd mewn rolau amser llawn.[415]

---

404 Joseph Rowntree Foundation (2020) Poverty in Wales 2020
405 Child Poverty Action Group (2020) Dragged Deeper: how families are falling further and further below the poverty line
406 W/Government Statistics (2021) Material deprivation and low-income
407 Bywaters, P. & Skinner, G. (2022) The Relationship between Poverty and Child Abuse and Neglect: New Evidence, University of Huddersfield/Nuffield Foundation
408 In 2021/22 Childline saw a 37% increase across the UK where poverty/financial issues were mentioned by children contacting their helpline.
409 Children in Wales (2022) Annual Child and Family Poverty in Wales 2022 & Bevan Foundation (2022) A Snapshot of Poverty in Summer 2022
410 Evidence received from Disability Wales, See also Wales Online (2022) Families with disabled children 'struggling to survive' in cost-of-living crisis, October 2022
411 National Energy Action (2022) 8.4m UK households will be in fuel poverty from April, December 2022. By April 2023, energy bills will have more than doubled in 18 months. In October 2021, the average annual energy bill was £1,277, by April 2023 it will be £3,000. Please note this is average. If you live in a larger than average household, have an energy inefficient home or have high usage, perhaps because of medical equipment, then you will pay more.
412 Guardian (2022) Average UK wages fall at fastest rate for more than two decades
413 Stats Wales (2020) Children in relative income poverty by economic status of household,
414 Chwarae Teg & Bevan Foundation (2019), Trapped: Poverty amongst women in Wales today
415 ibid

Mae Strategaeth Tlodi Plant statudol Llywodraeth Cymru wedi dyddio, ac mae angen ei diwygio ar frys.[416] Dylid gwneud hynny'n ddi-oed, gyda chefnogaeth cynllun cyflawni sydd â cherrig milltir a thargedau uchelgeisiol. [417] Mae angen yn ogystal amlinellu camau gweithredu i liniaru effaith tlodi, gan adlewyrchu graddfa'r her bresennol,[418] gyda ffocws ar atal tlodi trwy fwyafu incwm aelwydydd, ac ymyriadau a seiliwyd ar egwyddor cyffredinoledd, ochr yn ochr â chefnogaeth a dargedwyd i amddiffyn y rhai mwyaf bregus.[419]

**Argymhelliad**

- Cyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig gyda Chynllun Cyflawni sy'n cynnwys cerrig milltir uchelgeisiol, targedau a threfniadau monitro

Nawdd Cymdeithasol

Mae system nawdd cymdeithasol y Deyrnas Unedig yn methu â darparu rhwyd ddiogelwch ddigonol i deuluoedd, gan ei bod wedi cael ei dadelfennu'n systematig trwy bolisïau sy'n mynd yn groes i hawliau dynol.[420] Mae toriadau i werth nawdd cymdeithasol wedi golygu bod teuluoedd wedi wynebu'r dirywiad mwyaf mewn safonau byw yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.[421] Mae problemau sylfaenol yn parhau, yn fwyaf amlwg oedi gyda thaliadau, sancsiynau, y cap ar fudd-daliadau a'r terfyn dau blentyn[422] sy'n cynyddu caledi ariannol trwy gyfyngu ar faint o fudd-dal mae teuluoedd incwm isel yn ei dderbyn, heb gymryd angen cynyddol i ystyriaeth.[423] Er bod y mesurau a gyhoeddwyd yn natganiad yr hydref[424] wedi cael eu croesawu, mae galw am atebion ariannu cynaliadwy hirdymor o ran cymorth lles,[425] a gwyrdroi'r toriadau dwfn sy'n achosi caledi.

Er mai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n penderfynu ar weinyddu lles, mae yna rai diffygion pwysig yn y dull a ddefnyddir yng Nghymru i gefnogi teuluoedd incwm isel yn ariannol. Er bod llu o gynlluniau wedi'u targedu, mae amrywiadau pwysig yn y meini prawf cymhwyster; prosesau ymgeisio gwahanol sy'n galw am gyflwyno gwybodaeth sawl tro, a lefelau annigonol o gymorth i wneud gwahaniaeth gwirioneddol.[426] Dylid sefydlu System Budd-daliadau yng Nghymru fel pwynt mynediad unigol, gyda meini prawf cyson a ehangwyd sydd wedi'u seilio ar hawl ac angen.[427]

**Argymhellion**

416 End Child Poverty Network Cymru (2021) A Manifesto for W/Parliament Election
417 Children's Commissioner for Wales (2022) Annual Report 2021/22
418 Audit Wales (2022) 'Time for Change' – Poverty in Wales: Report from the Auditor General for Wales, November 2022
419 For further commentary, including the need for robust monitoring arrangements, see for example Wales Centre for Public Policy (2022) Poverty and Social Exclusion: A Way Forward, September 2022.
420 Human Rights Council (2019) Report of the Special Rapporteur on Extreme Poverty and Human Rights.
421 Child Poverty Action Group (2022) The Cost of a Child in 2022, November 2022
422 The 2 child limit restricts support through tax credits and universal credit to the first two children in a family. 911, 000 children live in affected households and almost 3 in 5 households have adults working (UK data). See Child Poverty Action Group (2020) The Two-Child Limit Now Affects almost 1 million children
423 The Children's Commissioner for Wales (2022) has been a long-term critic of the UK/Government's 2-child-limit on Universal Credit, which believing it to be one of the biggest breaches of children's rights by any UK/Government during her tenure
424 This includes an increase to the minimum wage and an uprate to welfare benefits by September's inflation figure.
425 Child Poverty Action Group (2022) Post-Autumn Statement Briefing form MPs, November 2022
426 Evidence received from Bevan Foundation
427 Bevan Foundation (2020 Lifting children out of poverty, the role of the Welsh Benefit System and W/Parliament (2019) ELGC Committee -Benefits in Wales: Options for Better Delivery

- Gweithredu i fwyafu incwm yng Nghymru trwy sefydlu system budd-daliadau yng Nghymru, yn bwynt mynediad unigol ar gyfer cymorth, a sicrhau nad oes unrhyw deulu yn colli cyfle i dderbyn cefnogaeth y mae ganddyn nhw hawl i'w derbyn
- Galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddileu'r terfyn dau blentyn a'r cap ar fudd-daliadau, a gwyrdroi'r toriadau i daliadau nawdd cymdeithasol ers 2010

Ansicrwydd Bwyd

Mae gan bob plentyn hawl i gael bwyd, ac eto mae mwy a mwy o blant yn llwglyd, ac mae rhieni'n ymatal rhag bwyta eu hunain[428] oherwydd y chwyddiant ym mhrisiau bwyd.[429] Mae ymchwil yn amlygu bod 1 o bob 4 teulu wedi profi ansicrwydd bwyd yn ystod y mis diwethaf, ac mae hynny wedi mwy na dyblu yn ystod y 9 mis diwethaf.[430] Mae'r angen am fwyd mewn argyfwng yn amlwg yn y cynnydd dramatig yn nifer y teuluoedd sy'n mynd i fanciau bwyd, gyda 28,000 o barseli i blant yng Nghymru yn cael eu darparu dros gyfnod o 6 mis (Ebrill-Medi 2022), sy'n cynrychioli cynnydd o 38% o gymharu â'r un cyfnod y llynedd a chynnydd o 98% ers 2017/18.[431]

Mae'r cynllun lwfans Prydau Ysgol am ddim (FSM) yn dal yn elfen werthfawr iawn yn yr ymgyrch i fynd i'r afael â newyn a helpu plant i gael pryd maethlon. Serch hynny, mae'r meini prawf o ran trothwy incwm[432] yn cyfyngu ar gymhwysedd a'r nifer sy'n gallu manteisio ar hyn, gan fod dros 50% o'r plant sy'n byw mewn tlodi heb hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim oherwydd nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddigon tlawd.[433] Mae'r lwfans hefyd yn annigonol i dalu am gost lawn pryd iach, sy'n golygu bod rhai plant yn dal yn llwglyd, neu'n dewis bwyd sydd â gwerth isel o ran maeth.[434]

Er ein bod yn cymeradwyo'r cam pwysig a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i ddechrau cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol o dan 11 yn ddiwahân,[435] mae'n destun siom na fydd hyn yn digwydd yn llawn tan 2024. Hefyd, mae'n gadarnhaol bod Llywodraeth Cymru wedi datblygu trefniadau ar gyfer prydau ysgol am ddim i blant cymwys yn ystod gwyliau'r ysgol,[436] ond ymrwymiad dros dro yw hwn, heb warant hirdymor y bydd yn parhau. Mae camau a gymerwyd i adolygu'r trothwy cymhwysedd presennol ar gyfer prydau ysgol am ddim ymhlith plant dros 11 yn symud ymlaen yn llawer rhy araf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol,[437] ond mae nifer y plant a gyrhaeddwyd yn gymharol fach, ac mae angen buddsoddi'n sylweddol ar frys i gynyddu capasiti. Nid yw'r Cynllun Brecwast am ddim, er ei fod yn galluogi rhai plant i sicrhau

[428] Children in Wales (2020) COVID-19 and the impact on low-income and disadvantaged families
[429] Food Foundation (2022) New data show 4 million children in households affected by food insecurity, Oct 2022
[430] YouGov Plc (2022) Food Insecurity Tracking, September 2022
[431] Trussel Trust (2022) Emergency food parcel distribution in Wales: April – September 2022
[432] Since 2018, households receiving Universal Credit are only be eligible for free school meals if their family income is below £7,400 (before benefits are taken into account)
[433] Child Poverty Action Group (2020) Expanding Eligibility for Free Schools Meals in Wales
[434] Food Foundation (2019) Report of the Children's Future Food Inquiry
[435] W/Government (2022) Minister for Education's Statement on Free School Meals.
[436] W/Government (2020) Marcus Rashford MBE backs W/Government decision to ensure free school meal provisions for every school holiday until Easter 2021
[437] The scheme is aimed at providing support for children from disadvantaged areas, offering a healthy breakfast and lunch, physical activity, enrichment sessions and information on food and nutrition. See - here

dechrau iach i'r diwrnod ysgol, yn cael ei ddefnyddio gan bob plentyn o aelwyd incwm isel nac ar gael iddyn nhw.[438]

### Argymhellion

- Cynyddu hawl cymhwysedd i brydau ysgol am ddim o leiaf i bob plentyn y mae eu rhieni'n derbyn Credyd Cynhwysol; mabwysiadu cofrestru awtomatig ar draws pob awdurdod lleol a gweithio tuag at hawl gyffredinol i bob oed
- Archwilio opsiynau i gyflymu rhoi prydau ysgol am ddim ar waith i bob plentyn o dan 11, cyn y targed presennol yn 2024
- Ehangu cymhwysedd ac argaeledd y rhaglen cyfoethogi gwyliau ysgol yn ddaearyddol ac ar draws pob cyfnod o wyliau, gan ei hyrwyddo ac annog pobl i fanteisio arni.

## Newid yn yr Hinsawdd ac Amgylchedd Iach

Argyfwng yr hinsawdd a byd natur yw'r bygythiad unigol mwyaf arwyddocaol i fywydau plant a chyflawni eu hawl i fyw, dysgu a ffynnu mewn amgylchedd iach. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i argyfwng yr hinsawdd a byd natur, a rhoi hawliau plant ar y blaen yn eu hymateb, gan hybu ymddygiad llesol i'r amgylchedd trwy brofiadau dysgu awyr agored, a rhoi sylw i lefel y pryder a'r ofnau a deimlir.[439]

Dylid ceisio barn plant fel mater o drefn wrth ddatblygu atebion i fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd. Mae 75% o blant yn meddwl bod angen i lywodraethau wneud mwy i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac anghydraddoldeb, ac mae 70% yn pryderu am y byd y byddan nhw'n ei etifeddu.[440] Mae plant eisiau mwy o gyfleoedd i gysylltu â mannau gwyrdd[441] ac amgylcheddau dysgu awyr agored, yr amddifadwyd llawer o blant ohonynt yn ystod COVID-19.[442]

Ers gwneud datganiad ar argyfwng yr hinsawdd,[443] cymerwyd camau cadarnhaol i ostwng y terfyn cyflymder ar ffyrdd preswyl;[444] i gyflwyno deddfwriaeth i wella ansawdd aer, i wahardd plastig untro, ac i ostwng lefelau llygredd. Fodd bynnag, mae angen cynnydd pellach i hybu a chefnogi trefniadau teithio llesol, ac ymdrin â chost ormodol ac argaeledd gwael trafnidiaeth gyhoeddus, sy'n cael effaith anghymesur ar blant mewn teuluoedd incwm isel ac mewn cymunedau gwledig.

### Argymhellion

438 W/Government (2020) Free School Breakfast statistics
439 Evidence received from Natural Resources Wales. See also Child Rights approach
440 Save the Children (2022) Environment and Inequality
441 Save the Children (2021) The Future of Childhood
442 Evidence from Natural Resources Wales - The long term effects from COVID-19–19, where more than 28,500 young-people in the UK failed to benefit from outdoor learning experiences, had, and is continuing to have, a detrimental effect on learning, physical activity and mental well-being
443 W/Government (2019) Press Release: Climate Emergency Declaration. A target to reach net zero carbon by 2050 has also been set
444 The new 20mph default speed limit being introduced from September 2023 is estimated to save more than 100 lives over a decade and 14,000 casualties in total could be avoided. See Guardian, 7th November 2022 here.

- Sicrhau bod plant yn chwarae rhan weithredol mewn atebion sy'n ymdrin ag argyfwng yr hinsawdd
- Rhoi sylw i rwystrau cost a hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus, a chyflwyno teithio am ddim i bob plentyn.

# ADDYSG, HAMDDEN A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

## Mynediad at Addysg o Safon

Mae COVID-19 wedi cael effaith ddwys, gyda phlant yn colli cyfran sylweddol o'r flwyddyn ysgol, ac effaith anghymesur ar blant mewn sefyllfaoedd difreintiedig.[445] Er bod llawer wedi gallu gwneud peth gwaith ysgol trwy gyfleoedd dysgu cartref-ysgol yn ystod cyfnodau pan oedd ysgolion ar gau, roedd llawer yn wynebu heriau lluosog,[446] gan gynnwys diffyg adnoddau hanfodol i gwblhau gwaith ysgol, rhwystrau digidol,[447] amgylchedd annigonol a diffyg cefnogaeth, a hyn i gyd er bod ymateb Llywodraeth Cymru wedi cael ei ddisgrifio fel un canmoladwy.[448] Mae'n bosibl na fydd yr effaith lawn ar blant, yn enwedig rhai oedd ar adeg gritigol yn eu haddysg, yn hysbys am beth amser, a bydd angen casglu mwy o ddata.[449]

Cafodd COVID-19 effaith niweidiol ar anghenion iechyd personol, llesiant a iechyd meddwl llawer o blant, ac mae bellach yn cael effaith negyddol ar lefelau presenoldeb mewn ysgolion[450], sydd wedi gostwng o gymharu â'r ffigurau cyn y pandemig, yn fwyaf amlwg felly ymhlith disgyblion hŷn a rhai o aelwydydd incwm isel.[451] Mae'r rhesymau am absenoldeb yn gymhleth, ond mae llawer o blant a brofodd gyfnodau estynedig o ddatgysylltu o'r ysgol heb fawr ddim dysgu wedi cael trafferth integreiddio o'r newydd ac ailsefydlu arferion, strwythurau a threfn ddyddiol, tra bod eraill yn dal i brofi ystod o heriau emosiynol, iechyd a seicolegol sydd â chysylltiad uniongyrchol â COVID-19 a'r cyfyngiadau a osodwyd arnynt.[452]

Mae cyfatebiaeth glir rhwng y cynnydd mewn absenoldeb ac amddifadedd, gydag un o bob pum disgybl o gefndir tlotach yn absennol o'r ysgol yn fynych y llynedd,[453] a'r argyfwng Costau Byw yn rhwystr pellach i bresenoldeb.[454] Bydd camau diweddar a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i ehangu mynediad i'w Grant Datblygiad Disgyblion i bob blwyddyn ysgol

---

[445] Education Policy Institute (2020) School attendance rates across the UK since full reopening
[446] EHRC (2020) How coronavirus has affected equality and human rights
[447] Children's Commissioner for Wales (2021) Getting online: barriers and successes for the provision of online learning during January 2021 Tier 4 lockdown
[448] Education Policy Institute (2020) Education policy responses across the UK to the pandemic
[449] Evidence received from Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
[450] The W/Government now publish weekly attendance rates amongst pupils in maintained schools. Latest releases can be accessed here.
[451] W/Parliament Children, Young-people and Education Committee (2022) Pupil Absence, November 2022. See also written evidence provided by Wales UNCRC Monitoring Group member organisations and other children's civil society organisations.
[452] Ibid
[453] BBC News (2022) COVID-19: Persistent school absence in Wales shows big jump
[454] Many report have been produced highlighting the Cost of the School Day, and the additional costs of sending children to school negatively impacting on a child's right to education. For example, Child Poverty Action Group (2022) Reducing the cost fo the school day in Wales; Children's Commissioner for Wales (2019) A Charter for Change; Children in Wales (2019) Price of Pupil Poverty

yn helpu teuluoedd gyda chostau ychwanegol[455] a bydd parhau â'r Grant Cynnal Addysg yn galluogi disgyblion i aros yn yr ysgol ar ôl cyrraedd 16 oed. Codwyd pryderon ynghylch y ffaith bod plant yn wynebu rhwystrau trafnidiaeth wrth geisio mynd i ysgolion.[456]

Addysg Hawliau Dynol

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi fframwaith cwricwlwm gwahanol ar waith i blant 3-16 oed,[457] gan gyflwyno trefniadau asesu a chymwysterau newydd, gyda'r bwriad o godi safonau, mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad,[458] a rhoi mwy o bwyslais ar lesiant disgyblion ac addysgeg. Er bod y cwricwlwm newydd yn gosod dyletswydd newydd statudol ar ysgolion i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o CHP, ni dderbyniwyd galwadau i sicrhau bod Addysg Hawliau Dynol yn orfodol ym mhob ysgol trwy roi dyletswydd 'sylw dyledus' i CHP ar wyneb y ddeddfwriaeth.[459]

### Argymhelliad

- Fel rhan o'i adolygiad cyfredol o bolisi a chanllawiau presenoldeb yn yr ysgol, cymryd i ystyriaeth sut mae'r argyfwng Costau Byw yn effeithio ar allu disgyblion i fynd i'r ysgol, a sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad at opsiynau trafnidiaeth priodol i'w cludo i'r ysgol yn ddiogel
- Cynyddu gwerth ariannol y Lwfans Cynnal Addysg i gefnogi plant o aelwydydd incwm isel i barhau mewn addysg

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE)

Mae RSE wedi cael ei diwygio ac mae bellach yn orfodol i bob disgybl 3-16 oed, gyda chefnogaeth Côd statudol sy'n cyflwyno'r themâu gorfodol y mae'n rhaid eu cwmpasu.[460] Mae'r Côd RSE yn dilyn tri llinyn dysgu cysylltiedig; cydberthynas a hunaniaeth; iechyd a llesiant rhywiol; a grymuso, diogelwch a pharch. Mae addysg iechyd a llesiant mislif hefyd yn orfodol yn y Côd RSE, ac mae'n rhaid ei gynnwys yn y cwricwlwm newydd.[461] Fodd bynnag, mae angen cefnogi hyn â rhaglen wedi'i hariannu o ddatblygiad proffesiynol ar RSE, er mwyn sicrhau bod athrawon yn hyderus ac yn gallu cyflwyno RSE gynhwysol, o safon uchel.[462]

### Argymhellion

- Sefydlu trefniadau monitro clir ar gyfer RSE, er mwyn sicrhau ei fod yn cyflwyno canlyniadau cadarnhaol i bob plentyn ym mhob ysgol.
- Buddsoddi mewn rhaglen barhaus o ddatblygiad proffesiynol ar RSE, er mwyn sicrhau bod athrawon yn hyderus ac yn gallu cyflwyno RSE gynhwysol, o safon uchel.

---

455 Bevan Foundation (2022) More generous support with school uniform cost
456 Evidence provided by the Children's Commissioner for Wales and Children in Wales quoted in W/Parliament Children, Young-people and Education Committee (2022) Pupil Absence, PP 25
457 The new national curriculum will be based around 6 'Areas of learning and experience' (AoLE) rather than subjects
458 Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021
459 See for example written evidence from Children in Wales (2020) W/Parliament CYPE Committee Curriculum and Assessment (Wales) Bill
460 W/Government (2021) The Curriculum for Wales – Relationships and Sexuality Education Code
461 Ibid
462 Evidence from NSPCC Cymru

Rhyddid Mynegiant

Ni wnaed cynnydd o ran diddymu'r darpariaethau cyfreithiol sy'n gwneud mynychu addoliad ar y cyd yn orfodol mewn ysgolion, gan fod plant yn dal i gael eu hamddifadu o'r hawl i ymneilltuo'n annibynnol.[463] Serch hynny, croesawyd yn gyffredinol y camau i ddiwygio Addysg Grefyddol.

Mae angen gwella'r eiriolaeth a gynigir i blant mewn lleoliadau addysg, er mwyn helpu i sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad at gefnogaeth annibynnol i atal problemau rhag codi neu esgaladu.[464]

**Argymhellion**

- Diddymu'r darpariaethau cyfreithiol sy'n gwneud mynychu addoliad ar y cyd yn orfodol
- Gwella'r eiriolaeth a gynigir i blant mewn lleoliadau addysg

## Addysg Gynhwysol: Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 [465] a Chôd 2021[466] wedi cychwyn, gyda'r nod o ddod â'r holl systemau ADY presennol at ei gilydd, gyda mwy o ffocws ar y person a sicrhau bod dysgwyr yn derbyn yr un hawliau. Er bod y system newydd hon a chynnwys CSOs yn y trefniadau monitro a gweithredu wedi cael ei groesawu, mae'n rhy gynnar i fesur llwyddiant o ran gwella hawliau a chanlyniadau plant ag ADY yn effeithiol, na sicrhau cydraddoldeb i bob dysgwr ADY ledled Cymru, gan y bydd hyn yn dod i rym yn raddol dros gyfnod o 3 blynedd, gyda gwahanol garfanau'n trosglwyddo ar adegau penodol.[467]

Gwelwyd oedi yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu, gydag asesiadau ADY posibl yn cael eu gohirio wrth ddisgwyl y pontio i'r system newydd, a gwybodaeth gyfyngedig yn cael ei darparu i blant a theuluoedd. Adroddwyd am restrau aros hir i gael cefnogaeth ac arferion anghyson yn arwain at effeithiau negyddol ar addysg plant.[468] Dywedodd CPC na ddylai'r cyfnod pontio graddol hwn roi unrhyw blentyn o dan anfantais, gan argymell y dylid casglu'r canfyddiadau cychwynnol yn y flwyddyn gyntaf a'u defnyddio i lywio cefnogaeth barhaus ar gyfer gweithredu.[469]

O dan y Ddeddf, bydd gan bob dysgwr sydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol hawl i gael Cynllun Datblygu Annibynnol (CDA), fydd yn nodi eu hanghenion dysgu a chefnogaeth, wedi'i lywio gan farn a dymuniadau'r plant.[470] Bydd proses y CDA yn cynnwys proffil un dudalen sy'n ceisio adlewyrchu cymeriad yr unigolyn, eu doniau a beth sy'n bwysig iddyn

[463] Evidence received from Wales Humanists
[465] W/Government (2018) Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018
[465] W/Government (2018) Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018
[466] W/Government (2021) The Additional Learning Needs Code for Wales 2021
[467] W/Parliament Research (2022) The new Additional Learning Needs system: the tough task of implementation
[468] Evidence received from Homestart Cymru
[469] Children's Commissioner for Wales (2022) Annual Report 2021/22
[470] SNAP Cymru (2022) The Special Educational Needs Sytem is Changing

nhw. Mae statws statudol CDA yr un fath i bob plentyn ag ADY, beth bynnag yw eu hanghenion, ac mae'n darparu hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.

Er bod gan bob dysgwr sydd ag ADY hawl i dderbyn CDA, nid yw pob dysgwr yn cael un. Mae rhai dysgwyr yn derbyn proffil un dudalen, a allai gynnwys cynlluniau ar gyfer anghenion dysgu'r unigolyn neu beidio, ond sydd heb statws statudol, ac felly'n dileu'r hawl i apelio. Mae'r arfer hwn yn destun cryn bryder i CSOs yng Nghymru.[471]

Ymhellach, o ystyried y cynnydd yn y garfan o ddysgwyr, rhagwelwyd y byddai data'r flwyddyn gyntaf yn dangos cynnydd yn nifer y rhai oedd wedi'u cofrestru ag ADY, ond nid yw hynny wedi digwydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at nifer o resymau posibl am y gostyngiad yn nifer y disgyblion a gofrestrwyd fel rhai ag ADY, a byddant yn monitro hyn.[472]

Hefyd ceir mynediad anghyfartal at addysg bellach a hyfforddiant ôl-16 i blant ag ADY[473] o gymharu â'u cyfoedion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Côd Ymarfer[474] a chynllun cyflawni[475] ar gyfer **Gwasanaethau Awtistiaeth**, gan gyflwyno dyletswyddau newydd i gyrff cyhoeddus, safonau cytunedig ac amserlen ar gyfer cwblhau asesiadau. Yr amser aros safonol ar gyfer asesiad diagnostig yw 26 wythnos, er bod y canllawiau arfer gorau yn nodi 13 wythnos.[476] Er gwaethaf hyn, mae amserau aros estynedig ar hyn o bryd am asesiadau,[477] gyda 63% o blant yn aros 6 mis a mwy, neu'n hwy fyth mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol.[478] Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod gwasanaethau niwroddatblygiadol o dan bwysau, ac maent wedi sefydlu grŵp cynghori gweinidogol i sbarduno gwelliant, rhoi sylw i gapasiti cyfyngedig a sicrhau bod gwasanaethau'n rhoi cefnogaeth ar sail angen yn hytrach na dibynnu ar y diagnosis.[479]

### Argymhellion

- Ceisio canfyddiadau interim a gweithredu'n gyflym ar y rhai sy'n dod i'r amlwg fel rhai niweidiol neu annheg i blant ag ADY
- Monitro a sicrhau bod pob plentyn ôl-16 sydd ag ADY yn cael mynediad cyfartal i'r un cyfleoedd addysg bellach a hyfforddiant â'u cyfoedion

[471] National Deaf Children's Society Cymru (2022) Education Reforms: Additional Learning Needs – paper to note for the W/Parliament Children, Young-people and Education Committee, September 2022
[472] Minister for Education and Welsh Language, W/Government (2022) Response to the letter from the Chair of the W/Parliament Children, Young-people and Education Committee
[473] Evidence received from TSANA. For example, those attending a special ALN school are likely to remain in education until they are 19, rather than 16, as in mainstream schools. The Code specifies that further education and training should be funded, however, in some areas, it is deemed that the 2-3 years of extended education for these young-people is equivalent to further education and training and are therefore denying funding for further education and training
[474] W/Government (2021) Code of Practice on the Delivery of Autism Services
[475] W/Government (2021) Delivery Plan
[476] National Institute for Health and Care Excellence (2017) Clinical Guidance: Autism spectrum disorder in under 19s: recognition, referral and diagnosis.
[477] As of May 2022, 9,676 children and young-people were waiting for an autism or ADHD diagnostic assessment in Wales. Of those, 3,691 had been waiting more than a year
[478] Evidence provided by the National Autistic Society (2022) Children's Neurodevelopmental Services Waiting Times Target – May 2021 - 2022
[479] Some of the many recommendations in the independent review undertaken by Holtom, D. & Lloyd-Jones, S. (2022) Review or the demand, capacity and design of neurodevelopmental services: full report, October 2022. See also W/Government (2022) Written Statement: Improvement in Neurodevelopmental conditions services

- Casglu data ar niferoedd y plant sydd â CDA, a hefyd ar wahân, faint sydd â phroffiliau un dudalen yn unig
- Sicrhau bod plant awtistig yn derbyn asesiadau o fewn y terfynau amser statudol a gyflwynwyd

## Bwlio mewn ysgolion

Gall canlyniadau bwlio fod yn bellgyrhaeddol, gyda phlant sydd â nodweddion a chefndiroedd penodol yn wynebu mwy o risg.[480] Rydym yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i ddiweddaru eu canllawiau sy'n ystyried gwahanol fathau o fwlio, gan gynnwys bwlio homoffobig, rhywiol a hiliol, â chefnogaeth fanwl i ysgolion, rhieni a phlant, a phwyslais ar fodelau ataliol i ysgolion eu mabwysiadu. Fodd bynnag, mae angen camau gweithredu cryfach i atal bwlio, gan gynnwys bwlio ar-lein[481], ochr yn ochr â monitro'r ddyletswydd statudol a roddir ar bob ysgol i gofnodi achosion.[482]

### Argymhelliad

- Sicrhau bod polisïau gwrthfwlio mewn ysgolion yn cael eu gweithredu'n effeithiol; y rhoddir gwybod am achosion o fwlio fel mater o drefn, a bod athrawon yn derbyn hyfforddiant gorfodol ar fynd i'r afael â phob math o fwlio.

## Cyrhaeddiad Addysg

Mae tlodi a chefndir sosio-economaidd yn dal i gael effaith ddwys ar lefelau cyrhaeddiad,[483] gyda phlant o aelwydydd incwm isel yn tanberfformio o gymharu â phlant o deuluoedd mwy cefnog.[484] Erbyn cyrraedd 5 oed, mae rhyw draean o'r plant sydd mewn tlodi wedi colli tir ar draws ystod o ganlyniadau gwybyddol o gymharu ag 20% o'r rhai o deuluoedd mwy cefnog. Yn ôl dadansoddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar sail data cyn COVID-19, mae disgyblion o gefndiroedd difreintiedig ar gyfartaledd 22-23 mis y tu ôl i'w cyfoedion erbyn iddyn nhw sefyll eu harholiadau yn 16 oed, ac mae hynny'n codi i 29 mis yn achos plant o deuluoedd tlawd 'hirdymor'.[485] Mae'r bwlch yng Nghymru hefyd yn fwy nag yn Lloegr, er bod Llywodraethau olynol yng Nghymru wedi nodi'r angen am gau'r bwlch cyrhaeddiad fel blaenoriaeth i weinidogion.[486]

Mae data o'r cyfnod cyn COVID-19, cyn i'r arholiadau gael eu canslo yn dangos, er bod y bwlch wedi culhau rhwng plant tlotach a'u cyfoedion yn y rhan fwyaf o gyfnodau allweddol

[480] For example, 54% of LGBT children and 73% of trans children faced bullying in schools - Stonewall Cymru (2017) School Report Cymru, See also Children's Commissioner for Wales (2017) Sam's Story: Listening to Children and Young-people's experiences of bullying in Wales / Estyn (2021) "We don't tell our teachers" Experiences of peer-on-peer sexual harassment among secondary school pupils in Wales / Children in Wales (2022) Poverty related Bullying: Children and Young-people's insight into the impact of poverty related bullying
[481] See ONS (2020) statistics which show that almost 1 in 5 children experienced some form of online bullying in 2019 amid warnings that the problem has worsened during COVID-19 lockdown
[482] W/Government (2019) Rights, Respect, Equality: Statutory Guidance for governing bodies of maintained schools
[483] Statistics (2019) Achievement and entitlement to free school meals: 2019
[484] Evidence received from Save the Children shows
[485] Education Policy Institute (2022) Inequalities in GCSE results across England and Wales
[486] Ibid

dros amser, bod y bwlch ymhlith plant 14-15 oed wedi ehangu.[487] Mae bechgyn, plant ag ADY, plant â phrofiad o ofal a rhai plant sydd â nodweddion gwarchodedig yn gyffredinol yn cyflawni lefelau cyrhaeddiad is na'u cyfoedion.[488] Bydd COVID-19 wedi gwaethygu canlyniadau cyffredinol yn sylweddol, yn ogystal ag ehangu anghydraddoldeb, gyda phlant o gefndir tlotach yn colli mwy o dir oherwydd yr amharu arnynt.

**Argymhellion**

- Rhoi sylw i'r bylchau cyrhaeddiad mewn perthynas ag anfantais sosio-economaidd a nodweddion gwarchodedig, yn unol â'r cyfrifoldebau a ragnodwyd gan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

## Gwaharddiadau o'r Ysgol

Mae gwahardd o'r ysgol yn fater anghydraddoldeb pwysig gan fod y ffigurau'n parhau'n annerbyniol o uchel, gan effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau o blant, gan gynnwys plant o gefndiroedd tlotach (o leiaf 3 gwaith yn uwch); plant ag ADY, plant a gafodd brofiad o drawma ac ymhlith rhai o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.[489,490] Bu cyfradd y gwaharddiadau parhaol yn mwy na dyblu rhwng 2014/15 a 2018/19, gyda 41 o waharddiadau cyfnod penodol am bob 1,000 o ddisgyblion yn y flwyddyn academaidd cyn COVID-19.[491] Testun pryder arbennig oedd 768 o waharddiadau cyfnod penodol a roddwyd i blant 8 oed a than hynny ar draws 19 o awdurdodau lleol Cymru.[492]

Er bod cyfraddau'r gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol wedi gostwng yn ddiweddar, dylid bod yn wyliadwrus wrth drin y data, gan fod ysgolion ar gau neu'n agored yn rhannol yn unig am gyfnodau estynedig yn ystod COVID-19.[493] Hefyd nid yw'r ffigurau hyn yn cyfrif am lawer o fathau 'anffurfiol' a mwy mynych o waharddiadau, gan fod rhyw draean o'r plant mewn ysgolion uwchradd wedi cael cais i adael ystafell ddosbarth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.[494] Mae CSOs sy'n cefnogi plant agored i niwed wedi datgelu'r defnydd o amserlenni cyfyngedig, gydag un gwasanaeth yn gweld bod 30% o'i blant bellach heb hawl i dderbyn addysg lawn.[495] Mae plant sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol yn wynebu risg uwch o salwch meddwl, ynysu a digartrefedd.[496]

**Argymhellion**

[487] Statistics (2020) Examination results: September 2019 to August 2020 (provisional)
[488] Statistics (2019) Academic achievement by pupil characteristics: 2018 and Statistics (2020) Wales Children Receiving Care and Support Census: as at 31 March 2019
[489] W/Government (2022) Permanent and fixed-term exclusions from schools: September 2020 to August 2021 | GOV.WALES
[490] Samaritans Cymru (2020) Exclusion from School in Wales: The Hidden Cost
[491] ibid
[492] Children's Commissioner for Wales (2020) Building Blocks: Inclusion in the Foundation Phase
[493] W/Government (2022) Permanent and fixed-term exclusions from schools: September 2020 to August 2021 | GOV.WALES
[494] Power, S. & Taylor, C. (2020) Classroom exclusions: Patterns, Practices and Pupil Perceptions, International Journal of Inclusive Education. See also Excluded Lives research project 2014-2023 Cardiff University et al.
[495] Faith in Families (2022) Tackling Pupil Absence Means Funding Early Intervention Projects and Challenging Reduced Timetables, June 2022
[496] Public Health Wales (2019) Voices of those with lived experiences of homelessness and adversity in Wales

- Cymryd camau i leihau'r cyfraddau uchel o waharddiadau, gan gynnwys ar gyfer y plant hynny sydd â nodweddion gwarchodedig
- Adolygu a diwygio canllawiau statudol, ac asesu polisïau ac ymarfer gwahardd o'r ysgol, gan gynnwys gwaharddiadau 'anffurfiol' ac amserlenni cyfyngedig.

## Chwarae a Hamdden

Yn 2010, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu ynghylch chwarae. Ers 2014, mae gofyn bod awdurdodau lleol yn asesu ac yn sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardal.[497]

Mae dadansoddiad blynyddol o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae (PSAs) i gyflawni'r ddyletswydd wedi dangos cynnydd da o ran sicrhau digonolrwydd chwarae[498] yn unol â'r canllawiau statudol.[499] Ac eto, er y cydnabyddir gwerth chwarae a'r manteision uniongyrchol a diweddarach a ddaw yn sgîl chwarae, mae gwasanaethau i blant yn dal yn agored i doriadau cyllideb, gyda CSOs yn adrodd bod mynediad at gyllid wedi lleihau'n sylweddol cyn COVID-19. Mae cyni ariannol wedi cael effaith ddifrifol ar y ddarpariaeth gwaith chwarae leol, gyda gostyngiad o ganlyniad yn y capasiti i ddatblygu chwarae lleol sydd â staff.[500]

Mae COVID-19 wedi dwysáu rhwystrau oedd eisoes yn bodoli i chwarae plant. Ar adeg o straen, ansicrwydd a thrawma aruthrol[501], pan fo gwerth therapiwtig arbennig i chwarae, roedd cyfleoedd i chwarae a chymdeithasu wedi cael eu lleihau wrth i symudiadau a chyswllt gael eu rheoli.[502] Roedd mynediad i fannau awyr agored yn gyfyngedig, a chyfyngodd llawer o ysgolion ar y mannau chwarae yn ystod amser rhydd.[503] Yn ystod y cyfnod clo amlygwyd hefyd anghydraddoldebau chwarae i blant o leiafrifoedd ethnig a phlant oedd yn byw mewn ardaloedd difreintiedig.[504] Croesawyd darparu'r Grant Cyfle i Chwarae[505] yn 2019-20 i wella'r cyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored a'r ffaith bod Prosiect Playworks[506] wedi canolbwyntio ar agwedd llesiant chwarae i blant mewn cymunedau agored i niwed. Mae'r rhan fwyaf o'r Asesiadau Digonolrwydd Chwarae statudol (PSAs) yn nodi'r effaith gadarnhaol mae'r Prosiect hwn yn ei chael ar y gallu i weithio'n fwy strategol a chynaliadwy, ac i gryfhau'r

---

[497] Section 11 of the Children and Families (Wales) Measure 2010 places a duty on local authorities to assess (since 2012) and secure (since 2014) sufficient play opportunities for children in their area.
[498] Russell, W., Barclay, M., Derry, C. and Tawil, B. (2019) Children's Right to Play in Wales: Six years of stories and change since the commencement of the Welsh Play Sufficiency Duty. Play Wales. See also evidence from a local authority parks service
[499] W/Government A Play Friendly Country https://gov.wales/wales-play-friendly-country
[500] Evidence from workshop session on Play
[501] Evidence received from Play Wales
[502] See for example, evidence received from Natural Resources Wales in respect of opportunities to play and learn outside in nature.
[503] For example, through the length of playtime being reduced, and reduced space to play.
[504] Children's Commissioner for Wales (2020) Coronavirus and Me: Experiences of children from Black, Asian and minority ethnic groups in Wales and HAPPEN (2020) HAPPEN at Home survey
[505] The All Wales Play Opportunity Grant (AWPOG) includes capital funding for local authorities to improve outdoor playing opportunities for children and revenue funding for a *Playworks Project based* on the successful *Holiday Hunger Playworks Project* which was piloted during school holiday in 2019-2020.
[506] In the 2021-22 final budget, £1m was approved for the Playworks Project to support access to increased play opportunities for children and young-people during the school holidays

ddarpariaeth.[507] Hefyd darparwyd cyllid pellach, trwy raglen Gaeaf Llawn Lles[508] ac amrywiol raglenni Haf o Hwyl[509] i gefnogi cyfleoedd i chwarae fel rhan o'r adferiad wedi COVID-19.

Cyn COVID-19, roedd gwaith ymchwil yn adrodd bod llawer o rwystrau'n bodoli, er bod plant yn fodlon ar y cyfan ar eu cyfleoedd chwarae, a bod y rhwystrau hynny'n cynnwys pryderon didwyll rhieni ynghylch diogelwch eu plant.[510] Mae camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i hybu teithio llesol a rhoi systemau rheoli traffig ar waith mewn ardaloedd preswyl[511] er mwyn cefnogi rhyddid plant i chwarae tu allan mewn amgylchedd mwy diogel a glân, a dylid cyflymu'r uchelgais hon.

Y prif argymhelliad gan blant, wrth i ni ddod ymhellach allan o COVID-19, yw y bydden nhw'n hoffi cael mwy o le ac amser i chwarae, ac amser wedi'i ddiogelu i chwarae yn yr ysgol. Mewn astudiaeth ddiweddar mae plant yn awgrymu'r argymhellion hyn:

- Diogelu mannau i chwarae, gan gynnwys buddsoddi mewn cynnal a chadw a diogelwch.
- Sicrhau bod mannau wedi'u llunio ar gyfer cerddwyr, heb lif traffig trwm.
- Hwyluso cyfleoedd i gymdeithasu gyda ffrindiau a theulu lle bo modd.[512]

Mae CSOs wedi sôn am bryderon plant a rhieni ynghylch byrhau'r diwrnod ysgol, gan arwain at lai o amser chwarae, ac amddifadu o amser chwarae fel rhan o bolisi rheoli ymddygiad,[513] er gwaethaf canllawiau statudol[514] a bod yr arolygiaeth addysg yn pwysleisio pwysigrwydd chwarae er mwyn datblygu plant iach a hyderus.[515] Argymhelliad Grŵp Arbenigol oedd y byddai darparu egwyliau ysgol digonol i chwarae yn cyfrannu at weithgarwch corfforol cyffredinol plant.[516] Mynegodd ymchwiliad gan Bwyllgor Senedd Cymru siom fod lleihau amser cinio/amser egwyl yn gyffredin mewn ysgolion, gan annog Llywodraeth Cymru i adolygu pa mor aml roedd hyn yn digwydd ledled Cymru.[517]

Yn aml mae tiroedd ysgol yn cynrychioli'r ased awyr agored unigol mwyaf mewn llawer o gymunedau, ond maent yn cael eu tanddefnyddio ar gyfer chwarae er gwaethaf effeithiau cadarnhaol hynny ar iechyd a hapusrwydd plant, a'r potensial i wella ymgysylltiad

---

507 Play Wales (in publication) State of play 2022. Cardiff: Play Wales
508 W/Government (2022) Winter of Wellbeing, Press Release https://gov.wales/winter-wellbeing-sporting-activities-get-young-people-active-winter
509 W/Government (2022) £7m Summer of Fun officially underway
510 Dallimore, D. (2019) 'I learn new things and climb trees' – What children say about play in Wales.
511 For example, the W/Parliament (2020) decision to back plans to make 20mph speed limits the default in residential areas in Wales
512 James M, Rasheed M, Bandyopadhyay A, Mannello M, Marchant E, Brophy S.(2022) The Effect COVID-19 Has Had on the Wants and Needs of Children in Terms of Play: Text Mining the Qualitative Response of the Happen Primary School Survey with 20,000 children in Wales, UK between 2016 and 2021. *International Journal of Environmental Research and Public Health*. 2022; 19(19):12687.
513 For example, in a survey undertaken by Play Wales[513], 61% of children report that they have missed playtime, with the most frequent reason being to catch up with work, followed by a teacher feeling they misbehaved.
514 W/Government (2021) Framework on embedding a whole school approach to emotional and mental well-being
515 Estyn (2019) Healthy and happy – school impact on pupils' health and wellbeing See also Play Wales (2019) A play friendly school – Guidance for a whole school approach which provides policy and practice related information to help communities take a whole school approach to children's right to play.
516 Richards, A.B., Mackintosh, K.A., Swindell, N., Ward, M., Marchant, E., James, M., Edwards, L.C., Tyler, R., Blain, D., Wainwright, N., Nicholls, S., Mannello, M., Morgan, K., Evans, T., Stratton, G. (2021) WALES 2021 Active Healthy Kids (AHK) Report Card: The Fourth Pandemic of Childhood Inactivity. *Int. J. Environ. Res. Public Health* 2022, *19*, 8138.
517 National Assembly for Wales Health, Social Care and Sport Committee (2019) Physical Activity of Children and Young-people. Cardiff: National Assembly for Wales Commission.

cymunedol.[518] Dylid rhoi sylw i ddatblygu defnydd estynedig o diroedd ysgol y tu allan i'r oriau addysgu, fel y cefnogir gan ganllawiau cenedlaethol[519] a hawlio mannau cymunedol yn ôl.[520]

Er bod rhaglenni Llywodraeth Cymru fel ysgolion â ffocws cymunedol[521] a chyfoethogi profiadau trwy estyn y diwrnod ysgol[522] yn cael eu croesawu, ochr yn ochr â'r rhain rhaid sicrhau ffocws ar ddarparu cyfleoedd ar gyfer chwarae hunangyfeiriedig a hunan-ddewisedig, er mwyn cefnogi plant i fod yn gyfranogwyr gweithredol wrth feithrin eu gwydnwch a'u dyfeisgarwch eu hunain.

Mae Adolygiad Chwarae Gweinidogol Llywodraeth Cymru yn gyfle i werthuso cynnydd a sicrhau digonolrwydd cyfleoedd chwarae i bob plentyn, gan gynnwys y glasoed. Mae cynnwys plant yn yr adolygiad hwn i'w groesawu'n fawr, o ystyried y pwysigrwydd maen nhw'n ei roi i chwarae ac amser rhydd yn yr awyr agored.[523]

**Argymhellion**

- Cymryd camau i wella llesiant mewn ysgolion trwy sicrhau bod yr hawl i chwarae wedi'i wreiddio yn y cwricwlwm newydd; bod egwyliau digonol ar gyfer chwarae yn orfodol ac yn cael eu harolygu.
- Sicrhau bod defnyddio mannau awyr agored ysgolion ar gyfer chwarae a arweinir gan blant yn rhan o raglenni a mentrau ar ôl ysgol sy'n dod i'r amlwg.

# MESURAU AMDDIFFYNIAD ARBENNIG

## Ceiswyr Lloches, Ffoaduriaid a Phlant Mudol

[518] Mannello, M., Connolly, M., Dumitrescu, S., Ellis, C., Haughton, C., Sarwar, S. and Tyrie, J. (2019) Opening the School Gates: facilitating after-school play in school grounds in (Ed) Reed, M. and Fleet, A. Rethinking Play as Pedagogy. London: Routledge. A key finding of an action research project that used school grounds for after-school play was that all staff interviewed realised that many of their fears were unfounded. As a result, they were happy to share control of the space, thus fostering community links and a more trusting and democratic use of the space
[519] W/Government (2022) Community Focused Schools. See also Play Wales (2015) Use of school grounds for playing out of teaching hours toolkit
[520] Evidence received from Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
[521] Ibid
[522] W/Government (2021) Changes to the school day to be trialled in Wales
[523] Children's Commissioner for Wales (2018) Spotlight Report Article 31

Mae plant sy'n ceisio lloches, yn arbennig rhai sydd heb eu hebrwng neu sydd wedi gael eu gwahanu (UASC), yn eithriadol o agored i niwed, ac yn aml mewn perygl o ddioddef ecsbloetio, camdriniaeth, trais seiliedig ar rywedd a masnachu pobl. Mae llawer ohonynt wedi profi trawma a bydd angen cefnogaeth ychwanegol arnynt wrth gyrraedd Cymru. Mae'r mwyafrif o UASC yn cyrraedd Cymru ar hap, ac mae'r union ffigurau'n anodd eu caffael.

Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am bolisi lloches a mewnfudo[524] ac mae Llywodraeth Cymru wedi beirniadu'n llafar eu penderfyniad i gau Cynllun 'Dubs' a rhannau o Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022, gan gynnwys trefniadau newydd i asesu oedran.[525] Yn ystod craffu,[526] cododd CSOs bryderon y byddai'r cynigion yn tanseilio cydymffurfiaeth â CHP a Sylw Cyffredinol 6 trwy gyflwyno system fewnfudo, cadw a threfniadau apelio dwy haen. Gallai mesurau ymwthiol i ddilysu oed, trwy gyflwyno 'dulliau gwyddonol' problematig ar gyfer asesu oed plant agored i niwed, arwain at danseilio hawliau plant, gan gynnwys plant a fu'n dioddef masnachu pobl ac ecsbloetio troseddol, a pheryglu egwyddor lles pennaf.[527]

Mewn cyferbyniad â'r naratif a'r dull gweithredu mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi'u mabwysiadu yng nghyswllt ymfudo, sy'n creu rhaniadau,[528] rydym ni'n croesawu'r camau sy'n cael eu cymryd i wneud Cymru'n Genedl Noddfa[529] a'r pwyslais a roddir ar dosturi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gan werthfawrogi'r asedau sydd gan ymfudwyr i'w cynnig a'r cyfraniadau gwerthfawr a wneir i sicrhau amrywiaeth mewn cymunedau. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo i ddarparu gwasanaethau iechyd, addysg a chymorth diwylliannol-briodol i blant agored i niwed sy'n cael eu gwasgaru neu eu hailgartrefu yng Nghymru o fewn paramedrau'r pwerau presennol.

Ni welwyd ymateb o hyd i'r galwadau a gafwyd droeon i sefydlu Gwasanaeth Gwarcheidiaeth er mwyn darparu cyngor cyfreithiol a chefnogaeth di-fwlch ar gyfer plant heb eu hebrwng ac a wahanwyd[530], sy'n bresennol yn y gwledydd datganoledig eraill, er mwyn cyd-fynd â threfniadau eiriolaeth sydd eisoes yn bodoli[531] a darpariaethau i gefnogi dioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern[532], a hynny er gwaethaf ymrwymiad i beilota cynllun yn 2019 sy'n dal heb ddod i fodolaeth.[533]

Cafwyd galwadau i roi sylw i'r oedi wrth wneud penderfyniadau asesu oedran, a chynyddu nifer y lleoliadau addas a'r opsiynau tai er mwyn rhoi sefydlogrwydd a dewis.

### Argymhellion

---

[524] This includes asylum application decisions, benefit support, legal aid, operation of resettlement schemes and provision & standard of accommodation and housing support.
[525] The W/Government laid a Legislative Consent Memorandum to the Nationality and Borders Bill in December 2021 for the Welsh Parliament to consider
[526] Welsh Parliament (2021) Legislative Consent: The Nationality and Borders Bill
[527] Wales UNCRC Monitoring Group (2021) Written response to the W/Parliament Health and Social Care Committee
[528] For example, see commentary at Welsh Refugee Council (2022) Blog post: Manston Migrant Centre
[529] W/Government (2019) Nation of Sanctuary Refugee and Asylum Seeker Plan.  This plan was endorsed by the United Nations High Commissioner for Refugees
[530] W/Parliament (2017) ELGC Committee report I used to be someone & evidence received from TGP Cymru
[531] NYAS Cymru (2020) Place of Safety? New ways to protect, support, empower and safeguard UASC in Wales
[532] Section 48 of the Modern Slavery Act brought forth the introduction of Independent Child Trafficking Guardians (ICTGs) assigned to children identified as potential victims of modern slavery. The service operates in Wales and works with children and young-people identified as potential victims of modern slavery
[533] Evidence received from The Children's Society

- Sicrhau bod plant sy'n ceisio lloches yn cael eu trin fel 'plant yn gyntaf', heb wahaniaethu yn eu herbyn, a'u bod yn cael mynediad cyfartal at ddarpariaeth a gwasanaethau cefnogi.
- Sicrhau nad yw plant yn wynebu prosesau asesu oed ymwthiol ac annibynadwy
- Sefydlu system o warcheidiaeth gyfreithiol fydd yn cefnogi pob plentyn trwy'r broses o geisio lloches; ehangu a darparu adnoddau digonol o ran cefnogaeth eiriolaeth arbenigol i UASC.

## Cyfiawnder Ieuenctid (CI)

Mae **oed cyfrifoldeb troseddol** yn fater a neilltuwyd ar gyfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n dal i wrthsefyll galwadau i'w godi.[534] Gan mai 10 oed yw'r trothwy yng Nghymru,[535] fe'i beirniadwyd[536] am fod ag un o'r cyfraddau oed isaf yng Ngorllewin Ewrop.[537] Er gwaethaf cyfyngiadau ar allu Cymru i basio deddfwriaeth ynghylch hyn yn annibynnol, argymhelliad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru oedd y dylid codi oed cyfrifoldeb troseddol.[538] Os caiff pwerau CI eu datganoli i Gymru fel sy'n cael ei gynnig,[539] gallai fod potensial i Lywodraeth Cymru godi'r isafswm oed ar eu telerau eu hunain ac yn unol ag argymhellion y CU[540]. Gan fod Glasbrint CI Cymru, a seiliwyd ar CHP, bellach yn hysbys[541], gellid dadlau bod datganoli pwerau cyfiawnder ieuenctid bellach yn amserol a phriodol.

Mae darparu cefnogaeth iechyd meddwl a therapiwtig i **blant yn y ddalfa** yn faterion datganoledig. Er bod arolygiad diweddar HMPIS o HMYOI Parc yn ffafriol iawn yn gyffredinol, codwyd pryderon ynghylch absenoldeb estynedig staff y Gwasanaeth Ymgynghori a Thriniaeth Fforensig i'r Glasoed (FACTS), nad oedd wedi derbyn sylw ond yn ddiweddar; yr angen am weithiwr cymdeithasol penodedig; ac y dylai fod ystod briodol o gefnogaeth i ymateb i risgiau ac anghenion y niferoedd cynyddol o blant sy'n cyflawni dedfrydau amhenodol neu hir.[542] Mae rhoi sylw i hyn yn galw am fwy o waith cydlynus rhwng iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a chyfiawnder, yn arbennig yn achos plant sy'n profi anawsterau cysylltiedig â thrawma.

Atal plant rhag mynd i'r system CI yw conglfaen dull gweithredu seiliedig ar hawliau, ac mae Glasbrint CI Cymru yn pwysleisio dull gweithredu 'plentyn-ganolog' o ymdrin ag ataliaeth a dargyfeirio.[543] Mae nifer y plant yn y ddalfa wedi gostwng[544] yn rhannol oherwydd y ffocws yng Nghymru ar ataliaeth ac ymarfer sy'n wybodus am drawma,[545] a mwyafu'r cyfleoedd i

---

[534] The UK's Response to the UN Committee's List of Issues on the Rights of the Child (point 295)
[535] 10 years of age is four years beneath the recommended age outlined in UN General Comment No.24 on 'Children's Rights in the Child Justice System', which calls on States parties to: "*increase their minimum age accordingly, to at least 14 years of age*
[536] Council of Europe (2020). The UN General Comment No 24 calls upon state parties to 'increase their minimum age accordingly, to at least 14 years of age'
[537] Independent (2019) - along with England and Northern Ireland
[538] The Commission on Justice in Wales (2019). Justice in Wales for the People of Wales.
[539] W/Government (2022) Delivering Justice for Wales
[540] Evidence received from UNICEF UK
[541] W/Government/YJB (2019.) Youth Justice Blueprint for Wales.
[542] HM Chief Inspector of Prisons (2022) HMYOI Parc
[543] Youth Justice Blueprint for Wales
[544] Youth Custody Service (2022) Monthly Youth Custody Report, September 2022
[545] Policy is focused on minimising the impact of adverse childhood experiences – those with four or more ACEs are 15 times more likely to commit violence and 20 times more likely to be imprisoned (ibid)

ddargyfeirio cyn mynd i'r llys. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd yn yr Asesiad Gallu i Werthuso,[546] mae bylchau sylweddol yn parhau yn y sylfaen o dystiolaeth, yn arbennig mewn perthynas â'r niferoedd a ddargyfeiriwyd o'r system CI.

Dylai **cadw'n gaeth** gael ei ddefnyddio bob amser dim ond pan fo popeth arall wedi methu ac am y cyfnod byrraf posibl o amser i unrhyw blentyn.[547] Dylid darparu amgylcheddau therapiwtig arbennig plentyn-ganolog ar gyfer y lleiafrif o blant y mae angen eu cadw'n gaeth, gan gydnabod pwysigrwydd rhoi sylw i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, y cyfeirir ato yn y Glasbrint CI.

Mae gorgynrychiolaeth o **blant sydd â phrofiad o ofal** yn y system CI.[548] I gydnabod hyn, lansiwyd Protocol Cymru Gyfan ym mis Mawrth 2022.[549] Mae'r fframwaith, a luniwyd ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref, yn nodi'r disgwyliadau o ran ymarfer ar draws asiantaethau ac yn cael ei lywio gan ddull gweithredu sy'n mynd ati i hybu hawliau dynol plant yn weithredol. Y nod yw osgoi erlyniad lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn briodol, trwy annog ymateb i ddigwyddiadau sy'n lleihau tebygolrwydd troseddoli, troseddu neu droseddu eto trwy hybu ymarfer plentyn-ganolog a gwybodus am drawma, a chydnabod bod gan ofalwyr lleoliadau preswyl a maeth ran allweddol i'w chwarae wrth ddeall anghenion unigol plant.

Mae pryderon yn bodoli hefyd ynghylch niferoedd y plant sydd, ar ôl derbyn **dedfryd o garchar**, yn cyflawni'r ddedfryd honno y tu allan i Gymru, gan greu heriau arbennig o ran dilyniant ymgysylltiad teuluol a defnydd o'r iaith Gymraeg. Er bod mwyafrif y plant o Gymru sy'n cyflawni dedfryd o garchar yn cael eu cadw yng Nghymru, nid oes cyfleusterau i ferched, sy'n cael eu cadw mewn canolfannau hyfforddi diogel yn Lloegr. Mae'r trefniadau hyn yn creu rhwystrau o ran ymweliadau rheolaidd â'r plant a chynnal rhwydweithiau teulu a chefnogaeth, y gallen nhw fod yn dibynnu arnynt ar ôl eu rhyddhau.[550]

Mae angen gwerthuso safon y gefnogaeth Gymraeg sydd ar gael i blant yn y ddalfa a'r gefnogaeth iechyd meddwl a therapiwtig sy'n cael ei darparu. Dylid cymryd camau hefyd i wella argaeledd data wedi'i wahanu ar gyfer Cymru er mwyn egluro tueddiadau a phatrymau.[551]

Nid yw **dalfa'r heddlu** yn lle priodol i gadw plant, gyda rhai plant yn cael eu cadw dros nos lle dylid darparu llety awdurdod lleol.[552] Er bod llai o blant yn mynd i'r ddalfa gyda'r heddlu yng Nghymru a Lloegr yn sgîl gostyngiad yn nifer y plant sy'n cael eu harestio[553], mae diffyg data Cymru'n unig ar gael, gan gynnwys ynghylch cadw plant dros nos gan yr heddlu.

### Argymhellion

- Galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i godi oed cyfrifoldeb troseddol yn sylweddol

546 Evaluability assessment for the Wales Women's Justice and Youth Justice Blueprints - Statistical Mapping Report
547 Standing Committee for Youth Justice (2020) Ensuring custody is the last resort for children in England and Wales
548 Evidence received from YJB and NYAS Cymru
549 All Wales Protocol reducing the criminalisation of care-experienced children and young adults - All Wales Protocol
550 House of Commons Select Committees, Welsh Affairs (2015) Fourth Report: Prisons in Wales and the treatment of Welsh offenders
551 House of Commons Welsh Affairs Committee (2019) Prison Provision in Wales
552 See for example BBC Wales (2019) https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-48776513. Section 38(6) of the Police and Criminal Evidence Act, provides for the transfer of children from police custody to local authority accommodation post charge.
553 Ministry of Justice and Youth Justice Board (2022) Youth Justice Statistics: England and Wales 2020-2021

- Galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ymateb yn gadarnhaol i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ac ystyried datganoli pwerau CI i Lywodraeth Cymru
- Darparu cefnogaeth therapiwtig a seico-gymdeithasol i blant yn unol â'r angen
- Sicrhau bod digon o lety awdurdod lleol fel nad oes unrhyw blentyn yn treulio'r nos yn nalfa'r heddlu.

## Plant sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid tu allan i'r fframwaith statudol

Mae tueddiadau data lefel uchel diweddar[554] yn amlygu goblygiadau awdurdodau lleol yn methu cael hyd i lety diogel priodol a defnyddio ceisiadau llys Amddifadu o Ryddid. Mae gan Lysoedd Teulu (Cymru/Lloegr) bŵer i amddifadu plant o'u rhyddid o dan yr hyn a elwir yn 'awdurdodaeth gynhenid' y tu allan i'r fframwaith statudol.[555] Yn wahanol i blant a gedwir mewn lleoliadau eraill, nid yw plant a amddifadwyd o'u rhyddid sy'n debygol o fod wedi profi trawma yn ystod eu plentyndod yn ymddangos mewn cofnodion neu ddata gweinyddol a gyhoeddir.[556]

### Argymhellion

- Cyflymu camau i leoli plant yn nes adref mewn lleoliadau diogel bychan, therapiwtig
- Rhaid i bob plentyn a amddifadir o ryddid gael yr un mesurau diogelu, o leiaf, sy'n bodoli yn y ddeddfwriaeth ar gyfer gorchmynion diogel eraill
- Rhaid i orchmynion llys gynnwys adolygiad ar gyfer y cyfnod byrraf
- Dylid rhoi cynrychiolaeth i blant i sicrhau bod modd clywed eu llais ym mhob cyfarfod am eu lleoliad a'r ffaith eu bod wedi'u hamddifadu o ryddid.

## Plant mewn Gwrthdaro Arfog

Mae cyfran y plant sy'n cael eu recriwtio i'r lluoedd arfog wedi cynyddu, gyda 2,800 o bobl ifanc 16-17 oed yn cael eu recriwtio yn 2021-22. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roedd 30% o'r recriwtiaid newydd i Fyddin Prydain o dan 18 oed.[557] Y Deyrnas Unedig yw'r unig wlad yn Ewrop sy'n recriwtio plant fel mater o drefn. Mae'r ymweliadau recriwtio milwrol ag ysgolion yng Nghymru yn parhau.[558]

### Argymhelliad

- Ni ddylai unrhyw blentyn gael ei recriwtio i'r lluoedd arfog.

---

[554] Nuffield Foundation (2022) National deprivation of liberty court, November 2022
[555] In 2021 the Supreme Court heard the case of T (A child), regarding the placement of a 15 year old child (in the care of Caerphilly Borough Council for whom there were no secure beds available so the local authority used their 'inherent jurisdiction'.
[556] This is a major cause for concern as there is no public record of where they are placed, what restrictions are placed on their liberty, or their outcomes. See Nuffield Foundation (2022) Number of applications to deprive children of tehri liberty in unregulated placements rises by 462% in three years – Data from England and Wales
[557] UK Ministry of Defence (2022) UK armed forces biannual diversity statistics, April 2022
[558] Cymdeithas Y Cymod, ForcesWatch et al. (2021) Recruitment of children to the military in welsh schools